



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 2 Chwefror 2011
Wednesday, 2 February 2011**

Cynnwys
Contents

- | | |
|-----|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 3 | Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig
Questions to the Minister for Rural Affairs |
| 19 | Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Questions to the Minister for Environment, Sustainability and Housing |
| 42 | Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad o dan Reol Sefydlog Rhif 16.8
Debate on the Committee on Standards of Conduct's Report under Standing Order No. 16.8 |
| 42 | Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 'Darparu Mannau Diogel i Chwarae a Chymdeithasu'
The Children and Young People Committee's Report 'Safe Places to Play and Hang Out' |
| 64 | Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Gwasanaethau Cyhoeddus
Welsh Conservatives Debate: Public Services |
| 88 | Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Addysg
Welsh Liberal Democrats Debate: Education |
| 121 | Cyfnod Pleidleisio
Voting Time |
| 125 | Dadl Fer: Achub yr Achubwyr—Dyfodol Darpariaeth Gwylwyr y Glannau yng Nghymru
Short Debate: Rescuing the Rescuers—The Future of Coastguard Provision in Wales |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Gweinidog cefn gwlad. **The Presiding Officer:** Order for questions to the Minister for Rural Affairs.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig Questions to the Minister for Rural Affairs

Blaenoriaethau

Priorities

1. Nick Ramsay: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer 2011. OAQ(3)1253(RAF)*

1. Nick Ramsay: *Will the Minister make a statement on her priorities for 2011. OAQ(3)1253(RAF)*

Perhaps I should say early 2011 specifically. [Laughter.]

Efallai y dylwn ddweud ddechrau 2011 yn benodol. [Chwerthin.]

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): I remain committed to delivering the objectives set out in the 'One Wales' agreement and working to deliver sustainable farming, forestry and food industries for the benefit of Wales and its rural communities—in early 2011.

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Rwy'n dal wedi ymrwymo i gyflawni'r amcanion a nodir yng nghytundeb 'Cymru'n Un' a gweithio i ddarparu ffermio, coedwigaeth a diwydiannau bwyd cynaliadwy er lles Cymru a'i chymunedau gwledig—yn gynnar yn 2011.

Nick Ramsay: I will get these questions right one day.

Nick Ramsay: Byddaf yn cael y cwestiynau hyn yn gywir un diwrnod.

I wish to ask you about the Red Meat Industry (Wales) Measure 2010. What has happened, policy wise, since that process was approved? I am sure that you are aware that, in the mid-1990s, the agriculture industry in Wales contributed £634 million to the gross value added figures, but it shrank by 68 per cent over the following decade. I accept that it also shrank across the UK, but there was a particular shrinkage in Wales. The shrinkage in the GVA that agriculture contributed was due in many respects to the type of agriculture that we have here. You delivered the red meat Measure, which was welcomed by all political parties, as a means of addressing the particular problems that the farming industry faces in Wales. Since that Measure was passed, how have your policies changed, and how has your approach to the agriculture sector changed, in order to ensure that, over the coming months and years, our agriculture industry can contribute more to Wales's economic wellbeing than it does at present?

Hoffwn ofyn i chi am Fesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010. Beth sydd wedi digwydd, o ran polisi, ers cymeradwyo'r broses honno? Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol bod y diwydiant amaeth yng Nghymru, yng nghanol y 1990au, yn cyfrannu £634 miliwn i'r ffigurau gwerth ychwanegol crynswth, ond iddo ostwng 68 y cant dros y ddegawd a ddilynodd. Derbyniat ei fod wedi crebachu ar draws y DU, ond bu crebachu penodol yng Nghymru. Gwelwyd crebachu yn y gwerth ychwanegol crynswth a gyfrannwyd gan amaethyddiaeth mewn llawer ystyr o ganlyniad i'r math o amaethyddiaeth sydd gennym yma. Gwnaethoch ddelifro'r Mesur cig coch, a goesawyd gan yr holl bleidiau gwleidyddol, fel ffordd o fynd i'r afael â'r problemau penodol sy'n wynebu'r diwydiant ffermio yng Nghymru. Ers pasio'r Mesur hwnnw, sut mae eich polisiâu wedi newid, a sut mae eich agwedd tuag at y sector amaethyddiaeth wedi newid, er mwyn sicrhau, dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, y gall ein diwydiant amaethyddiaeth gyfrannu mwy at les

economiaidd Cymru nag y mae'n ei wneud ar hyn o bryd?

Elin Jones: Thank you for the question. The red meat Measure did not aspire to increase the contribution of agriculture to GVA directly. It was meant to contribute to putting powers in place that would enable us to allow Hybu Cig Cymru to raise a direct levy from the red meat sector, as well as powers to ensure that, if we need to consider in future a different system of levy collection to the one that exists currently in Wales, England and Scotland, we would have the powers in place to do so. I believe that it is known that there is a leakage of levy to England, especially the cattle levy, as we do not have enough cattle slaughter capacity in Wales. That is to the detriment of our ability to raise funding to promote red meat.

However, I am heartened by the statistics on farming incomes that have been released over the past 12 months, which show an increase in farming incomes in Wales. That increase has been at a higher rate than in general farming incomes in England. That increase is primarily in the livestock industry; I do not claim direct credit for that, and I do not believe that the red meat Measure directly affected that. Several circumstances, especially trading circumstances and the export of lamb, in particular, have contributed to a higher market price, which has led to an increase in farming incomes, albeit from a low base, as I am sure farmers would want to remind me.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 2, OAQ(3)1271(RAF), yn ôl.

Blaenoriaethau

3. Nerys Evans: *Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer gweddill y Cynulliad hwn. OAQ(3)1281(RAF)*

Elin Jones: Mae fy mlaenoriaethau ar gyfer gweddill y Cynulliad hwn yn cynnwys gweithio i sicrhau'r fargen orau posibl o dan y polisi amaethyddol cyffredin, rhoi Glastir ar waith, dileu TB buchol, ac adeiladu ar lwyddiant fy nghynllun cymorth i newydd-ddyfodiaid i amaethyddiaeth.

Elin Jones: Diolch am y cwestiwn. Nid oedd y Mesur cig coch yn anelu at gynyddu cyfraniad amaethyddiaeth i GVA yn uniongyrchol. Roedd i fod i gyfrannu at roi pwerau yn eu lle a fyddai'n ein galluogi i ganiatáu i Hybu Cig Cymru godi ardoll yn uniongyrchol oddi wrth y sector cig coch, yn ogystal â phwerau i sicrhau, os bydd angen i ni ystyried system wahanol o gasglu ardoll i'r un sy'n bodoli ar hyn o bryd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn y dyfodol, y byddai gennym y pwerau i wneud hynny. Credaf ei bod yn hysbys ein bod yn colli ardoll i Loegr, yn enwedig yr ardoll gwartheg, am nad oes gennym ddigon o gapasiti lladd gwartheg yng Nghymru. Mae hynny ar draul ein gallu i godi cyllid i hybu cig coch.

Fodd bynnag, rwyf wedi fy nghalonogi gan yr ystadegau ar incymau ffermio a ryddhawyd yn ystod y 12 mis diwethaf, sy'n dangos cynnydd mewn incwm ffermio yng Nghymru. Mae'r cynnydd hwnnw wedi bod ar gyfradd uwch nag incymau ffermio cyffredinol yn Lloegr. Mae'r cynnydd hwnnw'n bennaf yn y diwydiant da byw; ni allaf dderbyn y clod am hynny, ac ni chredaf fod y Mesur cig coch wedi effeithio'n uniongyrchol ar y cynnydd. Mae nifer o amgylchiadau, yn enwedig amgylchiadau masnachu ac allforio cig oen, yn arbennig, wedi cyfrannu at bris uwch ar y farchnad, sydd wedi arwain at gynnydd mewn incwm ffermio, er bod hynny o sylfaen isel, fel rwy'n siŵr y byddai ffermwyr am fy atgoffa.

The Presiding Officer: Question 2, OAQ(3)1271(RAF), has been withdrawn.

Priorities

3. Nerys Evans: *What are the Minister's priorities for the remainder of this Assembly. OAQ(3)1281(RAF)*

Elin Jones: My priorities for the remainder of this Assembly include working to secure the best common agricultural policy deal possible, the implementation of Glastir, the eradication of bovine TB, and building on the success of my young entrants to agriculture support scheme.

Nerys Evans: Un mater sy'n codi'n ddyddiol wrth siarad ag etholwyr yng nghefn gwlad Cymru yw pris petrol, pris olew i'r tŷ, a phris diesel coch. Cynyddodd pris olew i'r tŷ 73 y cant rhwng misoedd Medi a Rhagfyr y flwyddyn ddiwethaf. Bŵm yn siarad â chadeirydd grŵp henoed Llangynog yn sir Gaerfyrddin yn ddiweddar. Dywedodd ei fod yn pryderu y daw amser pan na fydd henoed yn gallu fforddio byw yng nghefn gwlad oherwydd pris cynhesu'r tŷ. Yr oedd diesel coch yn costio 17c y litr yn 2002. Yr oeddwn yn trafod hyn gyda ffermwyr yn nhref Caerfyrddin ddechrau'r wythnos, ac mae rhai ohonynt yn talu 70c y litr amdano erbyn hyn. A ydych yn rhannu fy siom bod y cynnydd yn nhreth ar werth wedi dwysáu'r broblem hon, fod Llywodraeth San Steffan hefyd yn cynllunio cynnydd arall, sydd ar y gorwel, a'i bod wedi camu'n ôl o'i haddewid i gyflwyno rheolaeth tanwydd? Mae'r materion hyn yn effeithio ar bawb yng Nghymru, ond yn effeithio'n fwy ar bobl yng nghefn gwlad sy'n ddibynnol ar y car ac yn ddibynnol ar olew i wresogi'r tŷ, ac ar ffermwyr sy'n ddibynnol ar ddiesel coch i allu gweithio bob dydd.

Elin Jones: Yr wyf yn cytuno bod effaith y cynnydd ym mhriau petrol ac olew tanwydd yn effeithio ar bawb yng Nghymru, a'i fod yn effeithio ar fusnesau a chymunedau yng nghefn gwlad yn enwedig. Mae'r cynnydd yn ystod y misoedd diwethaf wedi arwain at wasgfa ar fusnesau yng nghefn gwlad yn benodol. Yr wyf yn falch o ddweud heddiw fod Prif Weinidogion a Dirprwy Brif Weinidogion Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru wedi codi'r mater penodol hwn yng nghyfarfod y cydbwyllgor Gweinidogion ar lefel gwledydd Prydain. Maent wedi gofyn yn benodol i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol beidio â chodi'r dreth ar danwydd, fel sydd i fod i ddigwydd ar 1 Ebrill, a chydabod y byddai gwneud hynny'n gyfraniad pwysig tuag at yr economi wledig yn y tair gwlad hynny. Gobeithiaf yn fawr y bydd Llywodraeth San Steffan yn ymateb i'r her gan Weinidogion y tair gwlad.

The Leader of the Opposition (Nick Bourne): I have a question about Glastir, which I have raised with the Minister previously. Of the 15,000-plus people who

Nerys Evans: One issue that is raised on a daily basis by constituents in rural areas is the price of petrol, domestic oil and red diesel. The price of domestic oil increased by 73 per cent between September and December last year. I spoke to the chair of a group representing the elderly in Llangynog, Carmarthenshire recently. He said that he is concerned that there will come a time when older people will not be able to afford to live in rural areas because of the cost of heating their homes. Red diesel cost 17p a litre in 2002. I discussed this issue with farmers in Carmarthen at the beginning of the week, and some of them are now paying 70p a litre for red diesel. Do you share my disappointment that the increase in value added tax has intensified this problem, that the Westminster Government is also planning another increase, and that it has also reneged on its pledge to introduce a fuel regulator? These matters have an impact on everyone in Wales, but have a greater impact on people in rural areas who are dependent on their cars and on oil to heat their homes, and on farmers who are dependent on red diesel to be able to work each day.

Elin Jones: I agree that the impact of the increase in petrol and oil prices has an impact on everyone in Wales, and that it affects rural businesses and communities in particular. The increase in the past few months has led to a pressure on rural businesses specifically. I am pleased to be able to say today that the First Ministers and Deputy First Ministers of Northern Ireland, Scotland and Wales have raised this specific matter in a meeting of the joint ministerial committee on a UK level. They have asked the United Kingdom Government specifically not to increase the tax on fuel, as is supposed to happen on 1 April, and to acknowledge that not doing so would be an important contribution to the rural economy in those three countries. I hope very much that the Westminster Government will respond to the challenge laid down by the Ministers of the three countries.

Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): Mae gennyf gwestiwn am Glastir—cwestiwn rwyf wedi ei godi gyda'r Gweinidog o'r blaen. O'r 15,000 a mwy o bobl a fynegodd

expressed an interest in the scheme, only 2,904 applied; that is about 20 per cent, give or take, which is a very low percentage. I know that a review has been initiated, and perhaps the Minister can update us as to when we can expect some information on it. I wonder, because of the concerns expressed by the farming unions as well as individual farmers, whether she will look at allowing farmers to join the scheme for 2012 early this year.

Elin Jones: To update Members on the review, I appointed a panel to undertake the review and have asked Rees Roberts to chair it. I think that that appointment has been well received and I hope that the panel produces a piece of work that is independent of Government and will inform the future shape of Glastir. I believe that the first meeting was held yesterday and that the panel has scheduled further meetings for February so that it is able to provide me with recommendations on any changes to the Glastir prescriptions so that I may make the decisions in March. I have also taken the decision to pay Tir Mynydd in full in 2011 and 2012. The process will then be that the changes to the Glastir prescriptions will be offered retrospectively to those who have made applications in the first round, and will be offered to those seeking to make applications in the second round in 2012. If I have not answered your specific question, I will need to hear it again, because I may have not understood it.

Nick Bourne: I think that you did, perhaps, understand it, but possibly not. The specific question was that if there is going to be a significant shift as a result of the review, will you consider opening the process now to allow farmers to apply so that they can join Glastir in 2012, which is not possible at the moment.

Elin Jones: No; I do not think that it would be possible for me to do that. As I have said, I will apply any changes retrospectively to those who made applications in 2010 for 2012. The next opportunity to apply will be later this year for entry in 2013. I do not think that we are in a position to be able to re-open the Glastir application round for farmers for 2012. However, a number of farmers in Tir

ddiddordeb yn y cynllun, dim ond 2,904 wnaeth gais; hynny yw tua 20 y cant, mwy neu lai, sy'n ganran isel iawn. Gwn fod adolygiad wedi ei gychwyn, ac efallai y gall y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf inni ynglŷn â phryd y gallwn ddisgwyl rhywfaint o wybodaeth yn ei gylch. Tybed, oherwydd y pryderon a fynegwyd gan yr undebau ffermio yn ogystal â ffermwyr unigol, a wnaiff edrych ar ganiatáu i ffermwyr ymuno â'r cynllun ar gyfer 2012 yn gynnar eleni.

Elin Jones: Er mwyn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad i Aelodau, penodais banel i gynnal yr adolygiad ac rwyf wedi gofyn i Rees Roberts ei gadeirio. Credaf fod y penodiad wedi cael derbyniad da ac rwy'n gobeithio y bydd y panel yn llunio darn o waith sy'n annibynnol o'r Llywodraeth ac a fydd yn llywio dyfodol Glastir. Credaf fod y cyfarfod cyntaf wedi'i gynnal ddoe a bod y panel wedi trefnu cyfarfodydd pellach ym mis Chwefror, fel ei fod yn gallu rhoi i mi argymhellion ar unrhyw newidiadau i'r presgripsiynau Glastir fel y gallaf wneud y penderfyniadau ym mis Mawrth. Rwyf hefyd wedi cymryd y penderfyniad i dalu Tir Mynydd yn llawn yn 2011 a 2012. Y broses wedyn fydd cynnig newidiadau i'r presgripsiynau Glastir yn ôl-weithredol i'r rhai sydd wedi gwneud cais yn y rownd gyntaf, ac yna i'r rhai fydd yn ceisio gwneud ceisiadau yn yr ail rownd yn 2012. Os nad wyf wedi ateb eich cwestiwn penodol, bydd angen i mi ei glywed eto, oherwydd efallai nad wyf wedi ei ddeall.

Nick Bourne: Credaf eich bod, efallai, wedi ei ddeall, ond mae'n bosibl nad ydych. Y cwestiwn penodol oedd, os oes symudiad sylweddol yn mynd i fod o ganlyniad i'r adolygiad, a wnewch chi ystyried dechrau'r broses yn awr i ganiatáu i ffermwyr wneud cais fel y gallant ymuno â Glastir yn 2012—rhywbeth nad yw'n bosibl ar hyn o bryd.

Elin Jones: Na; ni chredaf y byddai'n bosibl i mi wneud hynny. Fel y dywedais, byddaf yn cyflwyno unrhyw newidiadau yn ôl-weithredol i'r rhai wnaeth geisiadau yn 2010 ar gyfer 2012. Bydd y cyfle nesaf i wneud cais yn ddiweddarach eleni ar gyfer mynediad yn 2013. Ni chredaf ein bod mewn sefyllfa i allu ail-agor rownd ymgeisio Glastir i ffermwyr ar gyfer 2012. Fodd bynnag, mae

Gofal and those with Tir Cynnal agreements have chosen to carry on with those fully until the end of 2013, and I expect that a number of them will then look to enter Glastir at that point rather than doing so this year.

nifer o ffermwyr sy'n rhan o gynllun Tir Gofal a'r rheini sydd â chytundebau Tir Cynnal wedi dewis parhau â hwy yn llawn tan ddiwedd 2013, ac rwy'n disgwyl y bydd nifer ohonynt wedyn yn edrych at fynd i mewn i Glastir ar yr adeg honno yn hytrach na gwneud hynny eleni.

1.40 p.m.

Lorraine Barrett: I would hope that an improvement in the welfare of racing greyhounds is, and will continue to be, a priority for you, as it is for me. You will know that I have done a lot of work with Greyhound Rescue Wales, the Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals and the Dogs Trust to bring the greyhound regulations into fruition. I understand that you now have those regulations. Could you give an update on how you see those regulations to improve the welfare of racing greyhounds progressing?

Lorraine Barrett: Gobeithio bod gwelliant yn lles milgwn rasio yn flaenoriaeth i chi, ac y bydd yn parhau i fod, fel y mae i mi. Byddwch yn gwybod fy mod wedi gwneud llawer o waith gyda Greyhound Rescue Wales, y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid a'r Dogs Trust i wireddu'r rheoliadau ynghylch milgwn. Deallaf fod gennych y rheoliadau hynny yn awr. A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y gwelwch y rheoliadau i wella lles milgwn rasio yn symud ymlaen?

Elin Jones: Yes. You have raised the greyhound regulations with me before as they have been introduced in England, but have not, to date, been introduced in Wales. We have one remaining greyhound track in Wales, although that should not necessarily be an indication of the extent of the issue of greyhound welfare in Wales. We have, as a Government, looked to prioritise new legislation on animal welfare issues, such as on the issue of electric shock dog collars, and have undertaken a consultation on the breeding of dogs. They were priorities for my department. In time, under the next Government, I am sure that a Minister will want to look fully at considering the introduction of the greyhound regulations.

Elin Jones: Rydych wedi codi'r rheoliadau ynghylch milgwn gyda mi o'r blaen gan eu bod wedi cael eu cyflwyno yn Lloegr, ond, hyd yma, nid ydynt wedi'u cyflwyno yng Nghymru. Un trac milgwn sy'n weddill yng Nghymru, er na ddylai hynny o reidrwydd fod yn arwydd o faint mater lles milgwn yng Nghymru. Fel Llywodraeth, rydym wedi edrych i flaenoriaethu deddfwriaeth newydd ar faterion lles anifeiliaid, megis ar fater y coleri sioc drydanol ar gyfer cŵn, ac wedi cynnal ymgynghoriad ar fridio cŵn. Roeddent yn flaenoriaethau ar gyfer fy adran. Ymhen amser, yn y Llywodraeth nesaf, rwy'n siŵr y bydd Gweinidog am edrych yn llawn ar ystyried cyflwyno rheoliadau ar gyfer milgwn.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): Minister, there appears to be a misconception among many in the farming community with regard to the reasons behind your Government's decision to ultimately cease Tir Mynydd payments, given that you have now made a commitment to make those payments for the next two years. It is believed that that is driven by the European Union. Can you confirm this afternoon that it would be perfectly within EU rules for the Welsh Assembly Government to continue to make

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Weinidog, fe ymddengys bod camsyniad gan nifer yn y gymuned ffermio o ran y rhesymau am benderfyniad eich Llywodraeth i ddod â thaliadau Tir Mynydd i ben yn y pen draw, gan eich bod bellach wedi ymrwymo i'w talu am y ddwy flynedd nesaf. Credir bod hynny'n cael ei yrru gan yr Undeb Ewropeaidd. A allwch chi gadarnhau y prynhawn yma y byddai'n gwbl o fewn rheolau'r UE i Lywodraeth Cynulliad Cymru barhau i wneud taliadau ardaloedd llai

less favoured area payments?

Elin Jones: Given that I have committed to making Tir Mynydd payments in 2011 and 2012, the issue of further LFA payments will be one for consideration as a result of the common agricultural policy review. It is currently unclear as to how LFA payments or support for farmers will be provided. The European Commission proposals refer to it as possibly being a pillar 1 payment, which would be a significant change from where we have been in terms of our ability to make LFA payments here. Of course, I have recognised the need to contribute payments for the higher costs of farming in the LFA, and that has been achieved by topping up Glastir for LFA farmers.

Kirsty Williams: I am grateful for that answer, but it does not address the question that I asked. There is a misconception within the farming community that your decision to do away with Tir Mynydd payments is as a result of European rules, and that you have no choice but to take this action. Of course, there are only two countries in the entire European Union that will not continue with direct payments for LFAs—England, following a decision taken under the previous Government, and Wales, following your decision, prior to your review, to do away with Tir Mynydd payments. LFA payments in Scotland, for instance, are going to continue. Can you clarify that it is not a decision of the European Union that has driven you to make the decision about LFA payments?

Elin Jones: I have outlined previously in the Chamber that the common agricultural policy health check pointed all European Union countries to the requirements and challenges of future agricultural policy. Those requirements were to halt biodiversity decline, to promote renewable energy production, to promote water management and to combat climate change. That is why I have embarked upon a scheme for Wales that meets those criteria. In doing so, I have also looked to provide additional payment to meet the costs of farming in LFAs.

ffafriol?

Elin Jones: Gan fy mod wedi ymrwymo i wneud taliadau Tir Mynydd yn 2011 a 2012, bydd mater taliadau pellach ardaloedd llai ffafrïol yn un i'w ystyried o ganlyniad i'r adolygiad polisi amaethyddol cyffredin. Mae'n aneglur ar hyn o bryd sut y bydd taliadau ardaloedd llai ffafrïol neu gymorth i ffermwyr yn cael eu darparu. Mae cynigion y Comisiwn Ewropeaidd yn cyfeirio at hyn o bosibl yn daliad piler 1, a fyddai'n newid sylweddol o le yr ydym wedi bod o ran ein gallu i wneud taliadau ardaloedd llai ffafrïol yma. Wrth gwrs, rwyf wedi cydnabod yr angen i gyfrannu taliadau am gostau uwch ffermio yn yr ardal lai ffafrïol, ac mae hynny wedi'i gyflawni trwy ychwanegu at Glastir ar gyfer ffermwyr ardaloedd llai ffafrïol.

Kirsty Williams: Rwy'n ddiolchgar am yr ateb, ond nid yw'n mynd i'r afael â'r cwestiwn a ofynnais. Mae camsyniad o fewn y gymuned ffermio bod eich penderfyniad i gael gwared â'r taliadau Tir Mynydd yn ganlyniad i reolau Ewropeaidd, ac nad oes gennych ddewis ond i gymryd y cam hwn. Wrth gwrs, dim ond dwy wlad yn yr Undeb Ewropeaidd gyfan fydd yn rhoi'r gorau i daliadau uniongyrchol ar gyfer ardaloedd llai ffafrïol—Lloegr, yn dilyn penderfyniad a wnaed o dan y Llywodraeth flaenorol, a Chymru, yn dilyn eich penderfyniad chi, cyn eich adolygiad, i gael gwared â'r taliadau Tir Mynydd. Mae taliadau ardaloedd llai ffafrïol yn yr Alban, er enghraifft, yn mynd i barhau. A allwch egluro nad penderfyniad yr Undeb Ewropeaidd sydd wedi eich gyrru i wneud y penderfyniad ynghylch taliadau ardaloedd llai ffafrïol?

Elin Jones: Amlinellais yn gynharach yn y Siambr y bu i archwiliad iechyd y polisi amaethyddol cyffredin gyfeirio holl wledydd yr Undeb Ewropeaidd at ofynion a heriau polisi amaethyddol yn y dyfodol. Roedd y gofynion hynny i atal dirywiad bioamrywiaeth, hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a hyrwyddo a rheoli dŵr i frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd. Dyna pam rwyf wedi dechrau ar gynllun ar gyfer Cymru sy'n bodloni'r meini prawf hynny. Wrth wneud hynny, rwyf hefyd wedi edrych i ddarparu tâl ychwanegol i gwrdd â chostau ffermio mewn ardaloedd llai ffafrïol.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, yn gyntaf, croesawaf y ffaith eich bod wedi dod i gyfarfod yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i adrodd yn ôl ar gynllun Glastir, a'ch bod hefyd wedi adrodd yn ôl ar eich penderfyniad ynglŷn â thaliadau Tir Mynydd. Credaf fod y penderfyniad hwn yn eithriadol o bwysig i ffermwyr. Gallaf ddweud wrthy'ch fod ffermwyr yn sir Gaerfyrddin yn ddiolchgar iawn eich bod wedi gwneud y penderfyniad hwn. A allwch ddweud wrthym, yng nghydedstun dyfodol cynllun Glastir, a fydd cyfle i ffermwyr nad ydynt wedi mynegi diddordeb ar hyn o bryd fynegi diddordeb yn y dyfodol er mwyn dod yn rhan o'r cynllun?

Elin Jones: Wrth gwrs, bydd pob cyfle i ffermwyr nad ydynt wedi gwneud cais yn y flwyddyn gyntaf i wneud cais eleni ar gyfer mynediad yn 2013 a hefyd ar gyfer mynediad yn 2014. Ar hyn o bryd, yr ydym yn rhagweld y bydd yn bosibl cyflwyno ceisiadau'n flynyddol i'r cynllun hwn. Yn ogystal â Glastir ar y lefel Cymru gyfan, mae cyfle yn awr i'r 3,000 o ffermwyr sydd wedi gwneud cais i ymuno â Glastir ymgymryd â thrafodaethau pellach â'r Llywodraeth ynglŷn ag a fyddant yn gymwys ar gyfer Glastir ar y raddfa uwch, ar y raddfa wedi ei thargedu. Bydd hynny yn ateb gofidion nifer o ffermwyr ynglŷn â chytundebau Tir Gofal, os gallant weld sut y gall Glastir gyflwyno cyfleoedd ariannol iddynt ymgymryd â'r gwaith amgylcheddol maent am ei wneud ar eu ffermydd.

Diwydiant Pysgota

4. Alun Davies: *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y diwydiant pysgota yng Nghymru. OAQ(3)1249(RAF)*

Elin Jones: Lansiais strategaeth pysgodfeydd Cymru yn 2008, sy'n cynnig fframwaith cyffredinol ar gyfer datblygu a rheoli pysgodfeydd hyfyw a chynaliadwy ac sy'n cael ei rhoi ar waith ar hyn o bryd drwy'r cynllun gweithredu.

Alun Davies: Thank you for that response, Minister. I am aware that you have recently embarked on a comprehensive review of the legislation covering all these areas. You will be aware that there has been a significant

Rhodri Glyn Thomas: Minister, first of all, I welcome the fact that you came to a meeting of the Rural Development Sub-committee to report back on the Glastir scheme, and that you also reported back on your decision on Tir Mynydd payments. I believe that that decision was extremely important for farmers. I can tell you that farmers in Carmarthenshire are very grateful that you took that decision. Can you tell us, in the context of the future of the Glastir scheme, whether farmers who have not expressed an interest to date will be able to express an interest in the future to join the scheme?

Elin Jones: Of course, there will be every opportunity for farmers who have not applied in the first year to apply this year for entry in 2013 and also for entry in 2014. At the moment, we anticipate that it will be possible to apply on an annual basis for this scheme. In addition to Glastir on an all-Wales basis, there is now an opportunity for the 3,000 farmers who have applied to join Glastir to undertake further discussions with the Government on whether they will be eligible for the higher rate of Glastir, the targeted rate. It will allay the fears of many farmers about Tir Gofal agreements if they can see that Glastir offers them financial opportunities to undertake the environmental work that they want to do on their farms.

Fishing Industry

4. Alun Davies: *Will the Minister provide an update on the fishing industry in Wales. OAQ(3)1249(RAF)*

Elin Jones: I launched the Wales fisheries strategy in 2008, providing an overarching framework for development and management of viable and sustainable fisheries, which is being delivered currently through the implementation plan.

Alun Davies: Diolch am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Rwy'n ymwybodol eich bod wedi cychwyn yn ddiweddar ar adolygiad cynhwysfawr o'r ddeddfwriaeth sy'n cwmpasu'r holl feysydd hyn. Byddwch yn

amount of conflict in this area in the past few years. You will have been aware of the work that the Sustainability Committee did on access to inland waterways and you will be aware, in terms of coastal waters, that there has been tension between the demands of conservationists and those of the industry. The Pembrokeshire coastal forum has had some success in bringing together the different groups and making the system work. On your review of the legislation covering fisheries, will you make a commitment to ensure that the legislation promotes both fisheries and conservation work in harmony? Will you confirm that, if you were to bring forward new legislation, that new legislation would create a statutory framework for the resolution of such issues, rather than allowing conflict to continue, as seems to be the position at present?

Elin Jones: Ers i Lywodraeth y Cynulliad gymryd cyfrifoldeb dros faes pysgodfeydd y môr yn Ebrill 2010, ac etifeddu cyfrifoldebau'r cyn bwyllgorau pysgodfeydd, daeth i'r amlwg bod angen adolygiad o'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli'r pysgodfeydd yn ein moroedd gan fod cymhlethdod o ddeddfwriaeth wedi cronni dros y blynyddoedd. Mae angen mynd i'r afael â'r ddeddfwriaeth honno er mwyn ei symleiddio i bawb. Law yn llaw â hynny, wrth gwrs, mae gofynion o ran sefydlu ardaloedd o warchodaeth benodol o gwmpas ein harfordir a bydd y gwaith yn y maes hwnnw yn cael ei arwain gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai. Yr ydym yn glir fel Llywodraeth fod angen i ni daro'r cydbwysedd cywir rhwng y buddiannau cymdeithasol ac economaidd, drwy'n pysgotwyr yn bennaf, a'r buddiannau cadwraethol. Nid oes rhaid i hyn arwain at wrthdaro; yr ydym eisiau sicrhau bod pawb ar eu hennill. Nid yw'n rhwydd bob amser, yr wyf yn derbyn hynny, ond yr ydym yn ymrwymo i ymgynghori gyda phawb, dros y cyfnod hwn, sydd â buddiannau yn ein moroedd.

1.50 p.m.

William Graham: In light of the findings published by the Food and Agriculture Organisation, namely that 32 per cent of

ymwybodol y bu cryn dipyn o wrthdaro yn y maes hwn yn y blynyddoedd diwethaf. Byddwch yn ymwybodol o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar fynediad i ddŵr mewndirol a byddwch yn ymwybodol, o ran dyfroedd arfordirol, y bu tensiwn rhwng gofynion cadwraethwyr a gofynion y diwydiant. Mae fforwm arfordirol sir Benfro wedi cael rhywfaint o lwyddiant wrth ddod â'r grwpiau gwahanol at ei gilydd a gwneud i'r system weithio. O ran eich adolygiad o'r ddeddfwriaeth sy'n cwmpasu pysgodfeydd, a fyddwch yn ymrwymo i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn hyrwyddo gwaith ar bysgodfeydd a chadwraeth mewn cytgord? A wnewch chi gadarnhau, pe byddech yn cyflwyno deddfwriaeth newydd, y byddai'r ddeddfwriaeth newydd yn creu fframwaith statudol ar gyfer datrys materion o'r fath, yn hytrach na chaniatáu i'r gwrthdaro barhau, fel yr ymddengys yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?

Elin Jones: Ever since the Assembly Government took responsibility for marine fisheries in April 2010, and inherited the responsibilities of the former fisheries committees, it has become clear that a review is needed of legislation governing marine fisheries, as a confusion of legislation has developed over the years. That legislation needs to be dealt with so that it can be simplified for all. Hand in hand with that, of course, go the requirements to establish specific conservation areas around our shores, work on which will be led by the Minister for Environment, Sustainability and Housing. We, as a Government, are clear that we must strike the right balance between social and economic interests, mainly through our fishermen, and conservation interests. This does not have to lead to conflict; we want to ensure that everybody benefits. It is not always easy, I accept that, but we are committed to consulting everyone, over this period, with an interest in our seas.

William Graham: Yn sgîl y canfyddiadau a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Bwyd ac Amaeth, sef bod 32 y cant o stociau pysgod

global fish stocks are overexploited or depleted, how is the Assembly Government directing its marketing to capitalise on recent media campaigns, such as Hugh Fearnley-Whittingstall's television programme *Hugh's Fish Fight*, to encourage consumers to purchase more sustainable species of fish found in Welsh waters, such as mackerel, gurnard and dab?

Elin Jones: Thank you for your question. Our ability to regulate our fisheries and sea fisheries is governed by the fisheries policy, which is under review—a review that is much needed. I want Wales to play a full part in that. As part of our efforts as a Government, we have been working with fishermen and others to identify areas of our seas and fisheries that can be accredited by the Marine Stewardship Council as sustainable fisheries. We have had success with regard to the number of our shellfish fisheries that have achieved that accreditation. Ultimately, this means that our fishermen are able to receive an economic return from a higher-value product being sold into the Welsh market and beyond.

William Graham: Thank you for that answer, Minister. I am sure that you will agree that further opportunities to better market Welsh caught or cooked fish exist at events such as the Abergavenny Food Festival. This year, few Welsh companies at the otherwise excellent festival exhibited freshly caught fish. There are compelling economic and environmental reasons for encouraging consumers to buy locally sourced, sustainable fish rather than products imported from Canada and Alaska. How is your Government supporting seafood businesses in their marketing and expansion plans?

Elin Jones: We have provided direct support to a number of seafood and shellfish businesses so that they can involve themselves in food festivals and use other means to sell and promote their products directly to Welsh consumers. Indeed, I think that 2009 was the first year in which fish, particularly Welsh fish, was promoted in the

byd-eang yn cael eu gordddefnyddio neu'n lleihau, sut mae Llywodraeth y Cynulliad yn anelu ei marchnata i fanteisio ar yr ymgyrchoedd diweddar yn y cyfryngau, fel rhaglen deledu Hugh Fearnley-Whittingstall, *Hugh's Fish Fight*, i annog defnyddwyr i brynu rhywogaethau pysgod a geir yn nyfroedd Cymru sy'n fwy cynaliadwy, fel macrell, pengernyn a lleden y llaid?

Elin Jones: Diolch ichi am eich cwestiwn. Mae ein gallu i reoleiddio ein pysgodfeydd a'n pysgodfeydd môr yn cael ei reoli gan y polisi pysgodfeydd, sy'n cael ei adolygu—adolygiad sydd ei angen yn fawr. Rwyf am i Gymru chwarae rhan lawn yn hynny. Fel rhan o'n hymdrechion fel Llywodraeth, rydym wedi bod yn gweithio gyda physgotwyr ac eraill i ddod o hyd i ardaloedd yn ein moroedd a'n pysgodfeydd y gellir eu hachredu gan y Cyngor Stiwardiaeth Forol fel pysgodfeydd cynaliadwy. Rydym wedi cael llwyddiant o ran y nifer o'n pysgodfeydd pysgod cregyn sydd wedi cyflawni'r achrediad hwnnw. Yn y pen draw, mae hyn yn golygu bod ein physgotwyr yn gallu derbyn adenillion economaidd o gynnyrch o werth uwch sy'n cael ei werthu i'r farchnad yng Nghymru a thu hwnt.

William Graham: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod cyfleoedd pellach i wella marchnata pysgod sydd wedi'u dal neu eu coginio yng Nghymru yn bodoli mewn digwyddiadau megis Gŵyl Fwyd y Fenni. Eleni, ychydig o gwmnïau o Gymru yn yr ŵyl, a oedd fel arall yn ardderchog, a oedd yn arddangos pysgod a ddaliwyd yn ffres. Mae rhesymau economaidd ac amgylcheddol cryf dros annog defnyddwyr i brynu pysgod o ffynonellau lleol a chynaliadwy, yn hytrach na chynnyrch sydd wedi'i fewnforio o Ganada ac Alaska. Sut mae eich Llywodraeth yn cefnogi busnesau bwyd môr gyda'u cynlluniau marchnata ac ehangu?

Elin Jones: Rydym wedi darparu cymorth uniongyrchol i nifer o fusnesau bwyd môr a physgod cregyn er mwyn iddynt allu cymryd rhan mewn gwyliau bwyd a defnyddio dulliau eraill i werthu a hyrwyddo eu cynnyrch yn uniongyrchol i ddefnyddwyr Cymru. Yn wir, rwy'n meddwl mai 2009 oedd y flwyddyn gyntaf y cafodd pysgod, yn

food hall at the Royal Welsh Show. As a Government, we have sought to give direct support to fishermen who are interested in selling directly to the Welsh market rather than exporting their catch.

Brian Gibbons: As you will be aware, Minister, angling is a key part of the fishing industry and the tourism industry in Wales. What discussions have you had with the Minister for Environment, Sustainability and Housing in relation to fish stocks in our rivers, particularly the declining fish stocks among the more popular species that are generally caught by anglers and fishermen?

Elin Jones: The Government, both in terms of the work of the Minister for sustainability and my work as Minister with responsibility for fisheries, is looking to work with angling associations and river trusts to promote the recovery of habitats in the many fine rivers that we have in Wales. We have invested money, through our European fisheries fund and the rural development plan, to support habitat restoration, which ultimately aids fish stocks to help our anglers and to improve the quality of those rivers. We have seen considerable success in that respect, particularly in our post-industrial areas, where a significant improvement has been achieved with regard to the water quality and fish stocks in those rivers. I am thinking in particular of the work that has been done by anglers in Merthyr Tydfil and other places who have put a considerable effort into replenishing the rivers, and take a great deal of pride in what they have been able to achieve in their communities.

Economi Wledig

5. David Melding: *Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu ysgogi twf yr economi wledig yng Nghymru. OAQ(3)1282(RAF)*

Elin Jones: While having certain unique characteristics, the rural economy has to be

arbennig pysgod o Gymru, eu hyrwyddo yn y neuadd fwyd yn Sioe Frenhinol Cymru. Fel Llywodraeth, rydym wedi ceisio rhoi cymorth uniongyrchol i bysgotwyr sydd â diddordeb mewn gwerthu'n uniongyrchol i'r farchnad Gymreig yn hytrach nag allforio eu dalfa.

Brian Gibbons: Fel y gwyddoch, Weinidog, mae genweirio yn rhan allweddol o'r diwydiant pysgota a'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru. Pa drafodaethau a gawsoch â'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai mewn perthynas â stociau pysgod yn ein hafonydd, yn enwedig y stociau pysgod sy'n gostwng ymhlith y rhywogaethau mwy poblogaidd sy'n cael eu dal yn gyffredinol gan enweirwyr a physgotwyr?

Elin Jones: Mae'r Llywodraeth, o ran gwaith y Gweinidog dros gynaliadwyedd a'm gwaith i fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am bysgodfeydd, yn edrych i weithio gyda chymdeithasau genweirio ac ymddiriedolaethau afon i hyrwyddo adfer cynefinoedd yn yr afonydd gwych niferus sydd gennym yng Nghymru. Rydym wedi buddsoddi arian, drwy ein cronfa pysgodfeydd Ewrop a'r cynllun datblygu gwledig, i gynorthwyo gydag adfer cynefinoedd, sydd yn y pen draw yn cynorthwyo stociau pysgod i helpu ein genweirwyr a gwella ansawdd yr afonydd. Rydym wedi gweld cryn lwyddiant yn hynny o beth, yn enwedig yn ein hardaloedd ôl-ddiwydiannol, lle mae gwelliant sylweddol wedi cael ei gyflawni o ran ansawdd y dŵr a'r stociau pysgod yn yr afonydd. Rwy'n meddwl yn benodol am y gwaith sydd wedi'i wneud gan enweirwyr ym Merthyr Tudful a lleoedd eraill, sydd wedi gwneud cryn ymdrech i ail-lenwi'r afonydd, gan gymryd cryn falchder yn yr hyn maent wedi llwyddo i gyflawni yn eu cymunedau.

Rural Economy

5. David Melding: *How does the Welsh Assembly Government intend to stimulate the growth of the rural economy in Wales. OAQ(3)1282(RAF)*

Elin Jones: Er bod ganddi nodweddion unigryw penodol, rhaid ystyried yr economi

seen as part of the overall economy and there are a range of programmes being delivered to support the future sustainability of our economy in Wales. Actions under the rural development plan support the strengthening of that economy.

David Melding: I understand that the Wales the True Taste stand at the winter Fancy Food Show in San Francisco was a great hit, with more businesses present than ever before. It demonstrates the importance of the fine food market. We produce some of the world's finest shellfish, and it is often eaten in France and Spain; although that is great, would it not be nice if more of the French and Spanish came to Wales to eat it in our magnificent restaurants? It is important that we develop the economy so that people see Wales as one of the great places to visit to eat and enjoy the produce of our wonderful pastoral economy.

Elin Jones: I congratulate you on being better informed than I am on the success of the San Francisco Wales the True Taste stand. I am pleased to hear that it was a success, and has been acknowledged as such by the Welsh Conservatives. It is important that we continue to promote Welsh food outside Wales, and the North American market is one that has been targeted over a number of years. Our fish, and shellfish in particular, is of great quality, but it remains a frustration of mine that too much of it is exported. I know that a number of fishermen have put considerable effort into seeking ways of generating interest in local economies. It is not always easy to get businesses and restaurants to take on locally caught fish, because people have vested buying practices. However, we have put effort and investment into seeking to create that supply chain between locally caught fish and local distribution. In turn, I have no doubt that French, Spanish or Italian tourists who come to Wales would want to benefit from locally caught fish and shellfish. That would be advantageous to all.

Mick Bates: The rural economy is under many threats, not least of which is the age balance within communities. In many of

wledig fel rhan o'r economi yn gyffredinol ac mae ystod o raglenni yn cael eu cyflwyno i gefnogi cynaliadwyedd economi Cymru yn y dyfodol. Mae camau gweithredu o dan y cynllun datblygu gwledig yn cynorthwyo i gryfhau'r economi honno.

David Melding: Rwy'n deall bod stondin Cymru y Gwir Flas yn y Fancy Food Show aeaf yn San Francisco wedi bod yn llwyddiant mawr, gyda mwy o fusnesau yn bresennol nag erioed o'r blaen. Mae'n dangos pwysigrwydd y farchnad bwyd da. Rydym yn cynhyrchu rhai o bysgod cregyn gorau'r byd, sy'n cael eu bwyta yn aml yn Ffrainc a Sbaen; er bod hynny'n wych, oni fyddai'n braf pe bai mwy o bobl Ffrainc a Sbaen yn dod i Gymru i fwytai yn ein bwytai gwych? Mae'n bwysig ein bod yn datblygu'r economi er mwyn i bobl weld Cymru fel un o'r lleoedd gwych i ymweld a hwy er mwyn bwyta a mwynhau cynnyrch ein heconomi bugeiliol gwych.

Elin Jones: Rwy'n eich llongyfarch ar fod yn fwy gwybodus na fi ar lwyddiant stondin Cymru y Gwir Flas yn San Francisco. Rwy'n falch o glywed iddi fod yn llwyddiant, a bod y Ceidwadwyr Cymreig yn cydnabod hynny. Mae'n bwysig ein bod yn parhau i hyrwyddo bwyd o Gymru y tu allan i Gymru, ac mae marchnad Gogledd America yn un sydd wedi cael ei thargedu dros nifer o flynyddoedd. Mae ansawdd ein pysgod, a'n pysgod cregyn yn benodol, yn wych, ond rwy'n siomedig bod gormod ohonynt yn cael eu hallforio. Gwn fod nifer o bysgotwyr wedi gwneud cryn ymdrech i chwilio am ffyrdd o greu diddordeb mewn economïau lleol. Nid yw bob amser yn hawdd cael busnesau a bwytai i ddefnyddio pysgod sydd wedi'u dal yn lleol, gan fod gan bobl arferion prynu sydd eisoes o fudd iddynt. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud ymdrech a buddsoddi mewn ceisio creu cadwyn gyflenwi rhwng pysgod sy'n cael eu dal yn lleol a dosbarthu lleol. Yn ogystal, nid oes gennyf amheuaeth y byddai twristiaid o Ffrainc, Sbaen neu'r Eidal sy'n dod i Gymru am elwa o bysgod a physgod cregyn sydd wedi'u dal yn lleol. Byddai hynny o fudd i bawb.

Mick Bates: Mae'r economi wledig yn wynebu nifer o fgythiadau, ac nid y lleiaf ohonynt yw'r cydbwysedd oedran o fewn

them the economy is slowing down, and in some places has become almost stagnant, because the age balance has shifted to an older profile. What are you doing to ensure that there are working-age young people in our communities so that there is a real rural economy? That would impact upon many of the issues that we debate here, such as small schools; they would be thriving rather than disappearing because the economy is no longer vibrant, and no longer based within the private sector.

Elin Jones: The Government is making many efforts to ensure that we have a vibrant economy throughout Wales, so that younger people can have a choice as to whether they want to remain working in rural Wales, or return to rural Wales. To deal specifically with the Welsh farming population, we are seeing a change of fortune in that we have, as an Assembly Government, put money towards a young farmers entrants scheme that has, again, in its second year, been oversubscribed, and looks as if it will be successful. I heard earlier this week that our agricultural and land-based colleges are seeing significant increases in the numbers of young people applying to study agriculture and to have other forms of land-based training. That is an indication that young people want to be involved in jobs that are primarily located in rural areas and that they see an economic future for them in those rural areas. Therefore, it is not always doom and gloom; there is now a resurgence in the farming community, with young people wanting to stay and work in rural communities.

2.00 p.m.

Ymchwil ar Anifeiliaid

6. Bethan Jenkins: *Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i helpu i ddileu ymchwil ar anifeiliaid yng Nghymru. OAQ(3)1267(RAF)*

Elin Jones: Nid yw'r mater hwn wedi'i ddatganoli. Ar hyn o bryd, mae bridio a chyflenwi anifeiliaid i'w defnyddio mewn gweithdrefnau gwyddonol yn cael ei reoleiddio yn y Deyrnas Gyfunol gan Ddeddf

cymunedau. Mae'r economi yn arafu mewn llawer o gymunedau, ac mewn rhai mannau mae bron yn aros yn yr unfan, gan fod y cydbwysedd oedran wedi symud i broffil hŷn. Beth yr ydych yn ei wneud i sicrhau bod yna bobl ifanc o oedran gweithio yn ein cymunedau, fel bod gennym wir economi wledig? Byddai hynny'n effeithio ar lawer o'r materion a drafodwn yma, megis ysgolion bach; byddent yn ffynnu yn hytrach nag yn diflannu oherwydd nad yw'r economi bellach yn fywiog nac yn seiliedig o fewn y sector preifat.

Elin Jones: Mae'r Llywodraeth yn gwneud llawer o ymdrech i sicrhau bod gennym economi lewyrchus ym mhob rhan o Gymru, fel y gall pobl ifanc ddewis aros yng nghefn gwlad Cymru i weithio, neu ddychwelyd i gefn gwlad Cymru. O ran y boblogaeth ffermio yng Nghymru, rydym yn gweld newid er gwell am ein bod, fel Llywodraeth y Cynulliad, yn rhoi arian tuag at gynllun dechrau ar gyfer ffermwyr ifanc sydd wedi, unwaith eto, yn ei ail flwyddyn, derbyn gormod o geisiadau, ac mae'n edrych fel y bydd yn llwyddiannus. Clywais yn gynharach yr wythnos hon fod ein colegau amaethyddol a'n colegau tir yn gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl ifanc sy'n gwneud cais i astudio amaethyddiaeth ac i gael mathau eraill o hyfforddiant yn ymwneud â'r tir. Mae hynny'n arwydd bod pobl ifanc eisiau swyddi sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig yn bennaf a'u bod yn gweld dyfodol economaidd ar eu cyfer yn yr ardaloedd gwledig hynny. Felly, nid yw bob amser yn ofid a gwae; erbyn hyn mae adfywiad yn y gymuned ffermio, gyda phobl ifanc sydd am aros a gweithio mewn cymunedau gwledig.

Animal Research

6. Bethan Jenkins: *What is the Welsh Assembly Government doing to help eliminate animal research in Wales. OAQ(3)1267(RAF)*

Elin Jones: This is not a devolved issue. The breeding and supply of animals for use in scientific procedures is currently regulated in the United Kingdom by the Animals (Scientific Procedures) Act 1986.

Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol)
1986.

Bethan Jenkins: Diolch am yr ateb hwnnw. Yr wyf yn cydnabod y cyfyngiadau ond, yn anffodus, mae nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu defnyddio mewn ymchwiliadau ac arbrofion yng Nghymru wedi codi 20 y cant rhwng 2008 a 2009 o dros 48,000 i dros 58,000, sy'n cyfateb i ryw 161 arbrawf y dydd. Mae'r duedd hon yn fy mhoeni'n fawr, yn enwedig wrth i arbrofion ar anifeiliaid yn yr Alban leihau 10 y cant, ac 1 y cant dros Brydain yn gyfan gwbl.

Er fy mod yn cydnabod y cyfyngiadau o ran pŵer, a oes modd i chi, fel Gweinidog, drafod â Llywodraeth San Steffan pam y mae'r lefelau mor uchel yng Nghymru? Pa ymgais y gellir ei wneud i leihau'r arbrofion a gynhelir yng Nghymru o'u cymharu â gwledydd eraill y Deyrnas Unedig?

Elin Jones: Mae cynnal profion ar anifeiliaid ar gyfer gwaith gwyddonol yn bennaf yn amodol ar gyfundrefn lem o reoliadau. Pasiwyd cyfarwyddeb Ewropeaidd newydd y llynedd, a bydd yn ofynnol ar Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol i gyflwyno'r gyfarwyddeb honno i mewn i ddeddfwriaeth.

O ran yr ystadegau, gallaf ddweud mai un sefydliad yn benodol sy'n gwneud y mwyafrif o'r gwaith profi ar anifeiliaid yng Nghymru. Mae'r sefydliad hwnnw yn gwneud y gwaith yn bennaf ar gyfer ymchwil meddygol, ac mae wedi ymrwymo, fel unrhyw sefydliad, yr wyf yn gobeithio, sy'n gwneud y gwaith hwn yng Nghymru, i ddefnyddio cyn lleied o anifeiliaid â phosibl ar gyfer ei waith gwyddonol.

Ymrwymadau 'Cymru'n Un'

7. Andrew R.T. Davies: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa ymrwymadau o'r Cytundeb Cymru'n Un yng nghyswllt ei phortffolio Gweinidogol y mae hi'n rhagweld na fyddant wedi'u cyflawni pan ddaw'r Trydydd Cynulliad i ben. OAQ(3)1247(RAF)*

Elin Jones: All of the 'One Wales' commitments that fall under my portfolio have been met.

Bethan Jenkins: Thank you for that reply. I recognise the restrictions but, unfortunately, the number of animals used for research and testing in Wales increased by 20 per cent between 2008 and 2009, from more than 48,000 to more than 58,000—the equivalent of some 161 tests a day. This trend worries me a great deal, particularly as a report in Scotland shows that there has been a reduction of 10 per cent there, and a reduction of 1 per cent throughout the whole of Britain.

Even though I recognise the limitations in terms of powers, would it be possible for you, as Minister, to discuss with the Westminster Government why the levels are so high in Wales? What efforts could be made to reduce the number of tests held in Wales as compared with the rest of the UK?

Elin Jones: Animal testing for scientific work comes under a strict system of regulation. A new European directive was passed last year, which the United Kingdom Government will be required to introduce into legislation.

As for the statistics, I can tell you that one institution is responsible for most of the testing work on animals. That work is done mainly for medical research, and that institution has committed itself, like all institutions doing this work in Wales, I hope, to use as few animals as possible for its scientific work.

'One Wales' Commitments

7. Andrew R.T. Davies: *Will the Minister outline which commitments from the One Wales Agreement in relation to her Ministerial portfolio she envisages will remain upon dissolution of the Third Assembly. OAQ(3)1247(RAF)*

Elin Jones: Mae pob un o ymrwymadau 'Cymru'n Un' sy'n dod o dan fy mhortffolio wedi cael eu bodloni.

Andrew R.T. Davies: I want to question you about the TB eradication programme, and the new consultation process that had to be undertaken following the Court of Appeal judgment. Are you confident that, by the end of this third Assembly, the measures that you envisaged when you set out the Government's proposals for the eradication of bovine TB will be in place, and that the aspirations of the original Order, for example around the protection zone in west Wales, will be able to progress, given the consultation process that you have undertaken?

Elin Jones: The vast amount of work that needed to be undertaken to progress the TB eradication in Wales has been, and continues to be, undertaken. We have introduced significant increased effort into the annual testing of all cattle in Wales and introduced pre-movement testing legislation in Wales and compensation payments to good agricultural practice around TB. We have also seen the removal of infected animals at a quicker rate, and a substantial decrease in the rate of overdue tests.

You are right to point out that the consultation on the TB eradication Order for north Pembrokeshire in particular closed towards the end of last year. There were a number of respondents to that consultation and my officials are working on the consultation responses before providing advice to me on any decisions that need to be taken on that Order in the next few weeks.

Joyce Watson: Minister, I have had an e-mail from the Farmers' Union of Wales telling me that concerns are being expressed about the future of the Welsh Assembly Government's offices in Dolgellau. The offices are important to farmers in Meirionnydd, especially during submissions of the single farm payment application form, with the office open every day in the two weeks leading up to the middle of May each year. Do you agree with me that Meirionnydd farmers need easy access to an office that can answer queries and handle correspondence, and is it possible for you to provide an update on the status of that Dolgellau office?

Andrew R.T. Davies: Rwyf am eich holi am y rhaglen i ddileu TB, a'r broses ymgynghori newydd y bu'n rhaid ei chynnal yn dilyn dyfarniad y Llys Apêl. A ydych yn hyderus, erbyn diwedd y trydydd Cynulliad hwn, y bydd y camau a ragweloch, pan bennwyd cynigion y Llywodraeth i ddileu TB gwartheg, yn eu lle, ac y gellir symud ymlaen â dyheadau'r Gorchymyn gwreiddiol, er enghraifft o ran y parth gwarchod yn y gorllewin, o ystyried y broses ymgynghori yr ydych wedi'i chyflawni?

Elin Jones: Mae'r gwaith sylweddol yr oedd angen ei wneud i symud ymlaen gyda dileu TB yng Nghymru yn parhau. Rydym yn gwneud ymdrech fwy sylweddol ar gyfer y profion blynyddol ar yr holl wartheg yng Nghymru, wedi cyflwyno deddfwriaeth profi cyn symud yng Nghymru, ac yn rhoi taliadau iawndal ar gyfer arferion da amaethyddol sy'n ymwneud â TB. Mae anifeiliaid heintiedig yn cael eu symud yn gynt, a bu gostyngiad sylweddol yn nifer y profion hwyr.

Rydych yn iawn i nodi bod yr ymgynghoriad ar y Gorchymyn i ddileu TB, yng ngogledd sir Benfro yn arbennig, wedi cau tua diwedd y llynedd. Cafwyd nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad ac mae fy swyddogion yn gweithio arnynt cyn rhoi cyngor i mi ar unrhyw benderfyniadau y mae angen eu gwneud am y Gorchymyn dros yr wythnosau nesaf.

Joyce Watson: Weinidog, cefais e-bost gan Undeb Amaethwyr Cymru yn dweud bod pryderon yn cael eu mynegi ynghylch dyfodol swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Nolgellau. Mae'r swyddfeydd yn bwysig i ffermwyr ym Meirionnydd, yn enwedig adeg cyflwyno ffurflenni cais ar gyfer y taliad sengl, am fod y swyddfa ar agor bob dydd yn y pythefnos sy'n arwain at ganol mis Mai bob blwyddyn. A ydych yn cytuno â mi bod ar ffermwyr Meirionnydd angen mynediad hawdd at swyddfa sy'n gallu ateb ymholiadau a thrin gohebiaeth, ac a yw'n bosibl i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am statws y swyddfa honno yn Nolgellau?

Elin Jones: Yes, I can. There is no intention to change the service that is currently provided from the Dolgellau office.

Eleanor Burnham: Yr wyf yn siŵr bod hyn yn flaenoriaeth o ran datblygu ffermydd, fel yr ydych wedi dweud eisoes wrth ateb cwestiwn Mick Bates. Cefais alwad gan yr NFU i ofyn am sefyllfa ffermydd sydd yn eiddo i awdurdodau lleol. Gofynnwyd i mi sut y gall y Llywodraeth helpu rhai o'r siroedd sydd yn gorfod gwerthu rhai o'r ffermydd hyn—rhai ohonynt heb lawer o ymgynghori. A allwch fy helpu ynghylch y mater pwysig hwn, os gwelwch yn dda?

Elin Jones: Mater i awdurdodau lleol unigol yw penderfynu a ydynt am gadw neu werthu'r ffermydd sydd yn eiddo iddynt ac sy'n cael eu rhentu i denantiaid. Fy unig sylw i'r prynhawn yma fyddai datgan bod y rhwydwaith o ffermydd—rhai bach ar y cyfan—ar rent ac sy'n eiddo i lywodraeth leol, yn rhwydwaith gwerthfawr ac o les, yn enwedig i ffermwyr ifanc sy'n edrych am gyfle i fynd i mewn i'r diwydiant, ac yn enwedig i'r ffermwyr ifanc hynny nad ydynt o deuluoedd â chefnidir amaethyddol neu sydd eisoes ar fferm deuluol ac sydd felly'n edrych i fynd i mewn i'r diwydiant o'r newydd. Mae'r ffermydd hyn ar hyd a lled Cymru yn chwarae rôl bwysig yn hynny o beth ac yn rhoi cyfleoedd i'n pobl ifanc.

Phytophthora Ramorum

8. William Graham: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reoli'r achosion o'r haint Phytophthora Ramorum (marwolaeth sydyn y deri) yn Ne Cymru. OAQ(3)1274(RAF)*

Elin Jones: Forestry Commission Wales is currently felling all infected trees on the public forest estate and taking action to ensure that diseased larch in the private sector is also felled. Strict biosecurity is in place to minimise the risk of spread, and surveys are in place to identify new outbreaks.

William Graham: Thank you for your answer. You will know of the continuing

Elin Jones: Gallaf. Nid oes unrhyw fwriad i newid y gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd gan y swyddfa yn Nolgellau.

Eleanor Burnham: I am sure that this is a priority in terms of farm development, as you mentioned earlier in your answer to Mick Bates's question. I have received a call from the NFU to ask about the situation regarding local authority-owned farms. I was asked how the Government could help some of the counties that have to sell off some of their farms—some of them without much consultation. Can you help me with this important matter, please?

Elin Jones: It is a matter for individual local authorities whether they wish to keep or sell the farms that they own and rent out to tenants. My only comment this afternoon is to state that the network of rented farms—small farms, on the whole—under the ownership of local authorities is a valuable and beneficial one, especially to young farmers who are looking to enter the industry, and especially to those young farmers who do not come from an agricultural background or who are already on a family-run farm and are therefore looking to enter the industry anew. These farms the length and breadth of Wales play an important role in that respect and offer opportunities to our young people.

Phytophthora Ramorum

8. William Graham: *Will the Minister make a statement on controlling the outbreak of Phytophthora Ramorum infection (sudden oak death) in South Wales. OAQ(3)1274(RAF)*

Elin Jones: Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn torri'r holl goed heintiedig ar yr ystadau coedwig cyhoeddus ar hyn o bryd ac yn cymryd camau i sicrhau bod llarwydd heintiedig yn y sector preifat hefyd yn cael eu torri. Mae bioddiogelwch llym ar waith i leihau'r risg o ledaenu, ac mae arolygon yn cael eu cynnal i ddod o hyd i achosion newydd.

William Graham: Diolch i chi am eich ateb. Byddwch yn gwybod bod pryder parhaus

concern in the forestry industry since the announcement last spring of the discovery of the sudden oak death pathogen in south Wales, especially following comparisons between this disease and the Dutch elm disease epidemic of the 1960s and 1970s. I would be most grateful for your reassurance today that there will be clear felling, scientific analysis and replanting.

Elin Jones: Yes, I can confirm that the Welsh Government and Forestry Commission Wales are taking this disease seriously and have acted urgently to confine the disease to the areas where it has been identified. That is why we have put resources into felling larch at a significant level in the areas of the public forest estate where it has been identified and also into working with the privately-owned forests to ensure that this disease is tackled and ridded from our forestry.

2.10 p.m.

Brian Gibbons: Many of the trees that are felled as a consequence of sudden oak death are still capable of being used for value added production activities, such as use in the construction industry and, indeed, we know of the excellent work that has been undertaken by projects such as Tŷ Unnos, which would be in a position to take the felled trees as part of developing sustainable construction in Wales. Could you outline what work the Assembly Government is doing to facilitate the value added contribution that our forestry may make to the industry in view of the sad outbreak of sudden oak death?

Elin Jones: You are right to say that timber that is felled as a result of the programme to eliminate the disease can be used, subject to certain restrictions. That timber is being marketed as such, and is available for certain work. I am not aware that we particularly intend for that timber to go to the construction sector, but as I said in response to your question yesterday, identifying ways in which the resource of the public forest estate can be used more widely for construction purposes in Wales, and housing

wedi bod yn y diwydiant coedwigaeth ers cyhoeddiad y gwanwyn diwethaf am ddarganfyddiad pathogen marwolaeth sydyn y deri yn y de, yn enwedig yn dilyn cymariaethau rhwng y clefyd hwn a chlefyd llwyfen yr Isalmaen yn y 1960au a'r 1970au. Byddwn yn ddiolchgar iawn i gael eich sicrwydd heddiw y bydd torri coed, dadansoddiad gwyddonol ac ailblannu amlwg.

Elin Jones: Gallaf gadarnhau bod Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru yn cymryd y clefyd hwn o ddifrif ac wedi gweithredu ar frys i gyfyngu'r clefyd i'r ardaloedd y mae wedi cael ei ddarganfod ynddynt. Dyna pam rydym wedi darparu adnoddau ar gyfer torri coed llarwydd ar lefel arwyddocaol yn yr ardaloedd o'r ystadau coedwig cyhoeddus lle mae wedi cael ei ddarganfod a hefyd ar gyfer gweithio â'r coedwigoedd sy'n eiddo preifat i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r clefyd a chael gwared arno o'n coedwigoedd.

Brian Gibbons: Mae llawer o'r coed sydd wedi'u torri o ganlyniad i farwolaeth sydyn y deri yn dal i allu cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau cynhyrchu â gwerth ychwanegol, fel eu defnyddio yn y diwydiant adeiladu ac, yn wir, rydym yn gwybod am y gwaith rhagorol a wneir gan brosiectau megis Tŷ Unnos, a fyddai'n gallu cymryd y coed a dorwyd wrth ddatblygu gwaith adeiladu cynaliadwy yng Nghymru. A allech amlinellu beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i hwyluso'r cyfraniad â gwerth ychwanegol y gall ein coedwigaeth ei wneud i'r diwydiant yn sgîl achosion trist marwolaeth sydyn y deri?

Elin Jones: Rydych yn gywir i ddweud y gall coed sydd wedi'u torri o ganlyniad i'r rhaglen gwaredu'r clefyd gael eu defnyddio, yn amodol ar rai cyfyngiadau. Mae'r coed hynny'n cael eu marchnata felly, ac maent ar gael ar gyfer gwaith penodol. Nid wyf yn ymwybodol ein bod yn bwriadu'n arbennig i'r coed hynny fynd i'r sector adeiladu, ond fel y dywedais wrth ymateb i'ch cwestiwn ddoe, mae canfod ffyrdd y gall adnodd ystadoedd coedwigoedd cyhoeddus gael ei ddefnyddio'n fwy eang at ddibenion adeiladu

construction in particular, is an area of work that we need to focus on in the next few years. We need to make a clear connection between our timber resource and the construction industry, which will increasingly need to have timber available to it.

David Lloyd: Trof yn ôl at y cwestiwn gwreiddiol. Y pryder yw y bydd yr haint hon, *Phytophthora ramorum*, yn parhau'n ddi-ddiwedd. Felly, a allwch ddweud unwaith eto eich bod yn hyderus y byddwch yn gallu mynd i'r afael â'r haint hon a threchu marwolaeth sydyn y derw?

Elin Jones: Mae dwy agwedd i'r gwaith i drechu'r haint hon. Yn gyntaf, mae gwaith yn cael ei wneud i waredu'r haint o'r coed sydd eisoes wedi'u heintio. Yn ogystal â hynny, mae gwaith i sicrhau bod system fonitro mewn fforestydd ledled Cymru, er mwyn sicrhau nad yw'r haint yn cydio mewn mannau newydd ac nad yw'n cael y cyfle i ledaenu yn yr ardaloedd hynny. Felly, mae'r Llywodraeth yn ymgymryd â'r ddwy agwedd hynny, sef gwaredu'r coed sydd wedi'u heintio'n barod, a monitro ein coedwigaeth i sicrhau nad yw'r clefyd yn lledaenu ymhellach.

yng Nghymru, ac adeiladu tai yn benodol, yn faes gwaith y mae angen inni ganolbwyntio arno yn y blynyddoedd nesaf. Mae angen inni wneud cysylltiad clir rhwng ein hadnoddau coed a'r diwydiant adeiladu, a fydd angen pren yn gynyddol.

David Lloyd: Returning to the original question, the concern is that this disease, *Phytophthora ramorum*, will persist. So, can you tell us once more that you are confident that you will be able to tackle this disease and banish sudden oak death?

Elin Jones: There are two approaches to the work of defeating this disease. First, work is under way to rid already infected woods of the disease. In addition to that, there is the task of ensuring that a monitoring system is in place in forests throughout Wales, in order to ensure that the disease does not spread to and take hold in new areas. So, the Government has taken the twin approach of removing already infected trees, and monitoring our forests to ensure that the disease does not spread further.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai Questions to the Minister for Environment, Sustainability and Housing

Cynhyrchu Ynni

1. Nick Bourne: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynhyrchu ynni yng Nghymru yn y dyfodol. OAQ(3)1534(ESH)*

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): 'A Low Carbon Revolution' sets out the actions that will be taken to accelerate the transition to a resilient low-carbon energy system via indigenous renewables and energy efficiency. Practical steps include measured planning guidance, Welsh European Funding Office support for innovation, community-scale generation projects, such as Ynni'r Fro, and the microgeneration certification accreditation scheme.

Nick Bourne: Thank you for that response.

Energy Production

1. Nick Bourne: *Will the Minister make a statement on future energy production in Wales. OAQ(3)1534(ESH)*

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Mae 'Chwyldro Carbon Isel' yn nodi'r camau a fydd yn cael eu cymryd i gyflymu'r broses o newid i system ynni carbon isel gwydn drwy ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni. Ymysg y camau ymarferol mae canllawiau cynllunio wedi'u mesur, cymorth Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar gyfer arloesi, prosiectau cynhyrchu ar raddfa gymunedol, fel Ynni'r Fro, ac achredu o dan y cynllun ardystio microgynhyrchu.

Nick Bourne: Diolch am yr ymateb hwnnw.

Angela Burns and I recently visited Eco2, which the Minister will be familiar with, and we met its chief executive, David Williams. It is Wales's leading renewable energy business, and it is doing some fantastic work. I want to ask about tidal power. As the Minister probably knows, Eco2 is developing broad-based renewable energy businesses. It is looking particularly at developing DeltaStream technology, and is investigating, with current design work, the possibility of having a site at Ramsey Sound in Pembrokeshire. Clearly, that is central to driving the Welsh economy forward in respect of renewable energy, as well as being the right thing to do. Could the Minister update us on what she is doing in relation to a renewable strategy for tidal and hydropower?

Jane Davidson: As you know, Nick, tidal power has been less developed commercially than wind power, for example. We have been working closely with colleagues, not least in the Low Carbon Research Institute, on taking the marine energy agenda forward. We published a policy statement on marine energy in Wales back in July 2009, and we have put £1.5 million into a marine renewable energy strategic framework, and that is now coming to its end. It was a three-year piece of work to assist in defining potential areas of commercially exploitable resource, thereby providing a management tool for Government and an evidence base for developers. The sustainable expansion of the applied coastal and marine sectors is the first programme to bring together some of the world's leading research expertise. We work very closely with the sector on this. I have attended the Marine Energy Pembrokeshire forum, and I will be doing so again before the end of this administration.

Alun Davies: Minister, you will know that the Sustainability Committee launched its report on planning last week, at the conclusion of quite an extensive investigation into the planning system in Wales. The report contains a number of recommendations to

Yn ddiweddar, ymwelais i ac Angela Burns ag Eco2, y mae'r Gweinidog yn gyfarwydd ag ef, a chwrdd â'r prif weithredwr, David Williams. Hwn yw busnes ynni adnewyddadwy mwyaf blaenllaw Cymru, ac mae'n gwneud gwaith gwyach. Hoffwn holi ynglŷn ag ynni'r llanw. Fel y mae'r Gweinidog yn debyg o wybod, mae Eco2 yn datblygu busnesau ynni adnewyddadwy eang. Mae'n edrych yn benodol ar ddatblygu technoleg DeltaStream, ac yn ymchwilio, gyda gwaith dylunio presennol, i'r posibilrwydd o gael safle ar Swnt Dewi yn sir Benfro. Yn amlwg, mae hynny'n ganolog i ysgogi economi Cymru o ran ynni adnewyddadwy, yn ogystal â bod y peth iawn i'w wneud. A allai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ar yr hyn y mae'n ei wneud mewn cysylltiad â strategaeth adnewyddadwy ar gyfer ynni'r llanw ac ynni dŵr?

Jane Davidson: Fel y gwyddoch, Nick, nid yw ynni'r llanw wedi'i ddatblygu'n fasnachol i'r un graddau ag ynni gwynt, er enghraifft. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr, gan gynnwys yn y Sefydliad Ymchwil Carbon Isel, ar ddatblygu'r agenda ynni morol. Gwnaethom gyhoeddi datganiad polisi ar ynni morol yng Nghymru yn ôl ym mis Gorffennaf 2009, ac rydym wedi rhoi £1.5 miliwn yn y fframwaith strategol ynni adnewyddadwy morol, ac mae hynny bellach yn dirwyn i ben. Roedd yn ddarn o waith tair blynedd i helpu i ddiffinio meysydd posibl ar gyfer adnoddau y gellir eu hecsploetio'n fasnachol, gan ddarparu offeryn rheoli ar gyfer y Llywodraeth a sail dystiolaeth ar gyfer datblygwyr. Estyniad cynaliadwy y sectorau arfordirol a morol cymhwysol yw'r rhaglen gyntaf i ddwyn ynghyd rai o arbenigedd ymchwil mwyaf blaenllaw y byd. Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'r sector ar hyn. Rwyf wedi bod ar fforwm Ynni Morol Sir Benfro, a byddaf yn mynd eto cyn diwedd y weinyddiaeth hon.

Alun Davies: Weinidog, byddwch yn gwybod bod y Pwyllgor Cynaliadwyedd wedi lansio ei adroddiad ar gynllunio yr wythnos diwethaf, ar ôl ymchwiliad eithaf dwys i'r system gynllunio yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion

which you will no doubt respond in due course. I would not seek to pre-empt those responses this afternoon. However, a key part of our work and of the evidence that we took related to the potential for confusion in this context, and the disjointed approach between the UK Government and the Welsh Government, given that major energy projects are not fully devolved. In your remaining months in office, I hope that you will continue to press the UK Government to devolve these major energy projects to Wales so that we can take a more holistic approach, as you have already outlined this afternoon.

Jane Davidson: It remains a source of deep sadness for us all that we have not managed to get the major energy consents devolved to Wales. I have previously reported to the Assembly that we are particularly keen to achieve powers over land and sea projects of up to 100 MW. We now have five major companies behind us: Nuon Renewables, RenewableUK, Scottish and Southern Energy, Windpower Wales and Centrica. We are also supported by the Welsh Local Government Association. So far, however, my bids to the UK Government have fallen on deaf ears. It is up to all of us, including me, to continue to propose to the UK Government that these powers to consent are devolved to Wales, not least because it will lead to a much more efficient and effective system.

Mick Bates: Minister, many of us are still looking forward to the low-carbon revolution that will occur in Wales. However, we have great admiration for the targets that you have set, such as having 20,000 micro heating units and 10,000 micro electricity systems by 2012. Minister, these targets require significant investment, and I am very supportive of the investments that you have made, which were outlined in your first reply to Nick Bourne regarding microgeneration. However, it appears that there is a need for greater economic renewal, and to use that renewal to further those targets. The Deputy First Minister has brought forward an economic renewal programme in which

yr wyf yn siŵr y byddwch yn ymateb iddynt maes o law. Ni fyddwn am geisio achub y blaen ar yr ymatebion hynny y prynhawn yma. Fodd bynnag, mae rhan allweddol o'n gwaith a'r dystiolaeth a gawsom yn ymwneud â'r dryswch posibl yn y cyswllt hwn a'r dull datgymalog rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, o ystyried nad yw prosiectau ynni mawr wedi cael eu datganoli yn llawn. Yn y misoedd sydd gennych yn weddill yn eich swydd, gobeithio y byddwch yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i ddatganoli'r prosiectau ynni mawr hyn i Gymru er mwyn inni fabwysiadu dull mwy cyfannol, fel rydych eisoes wedi'i amlinellu y prynhawn yma.

Jane Davidson: Mae'n parhau i fod yn sefyllfa drist iawn i bob un ohonom nad ydym wedi llwyddo i gael y caniatâd ynni mawr wedi'i ddatganoli i Gymru. Rwyf wedi dweud wrth y Cynulliad yn y gorffennol ein bod yn arbennig o awyddus i gael y pŵer dros brosiectau tir a môr hyd at 100 MW. Erbyn hyn, mae gennym bum cwmni mawr y tu ôl i ni: Nuon Renewables, RenewableUK, Scottish and Southern Energy, Ynni Gwynt Cymru a Centrica. Mae gennym hefyd gefnogaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Hyd yma, fodd bynnag, nid yw fy nghynigion i Lywodraeth y DU wedi cael gwrandawriad. Mater i bob un ohonom, gan gynnwys fi, yw parhau i gynnig i Lywodraeth y DU bod y pwerau hyn i gydsynio yn cael eu datganoli i Gymru, yn bennaf oherwydd bydd yn arwain at system lawer mwy effeithlon ac effeithiol.

Mick Bates: Weinidog, mae llawer ohonom yn dal i edrych ymlaen at y chwyldro carbon isel a fydd yn digwydd yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym wir yn edmygu'r targedau a bennwyd gennych, fel cael 20,000 o unedau gwres micro a 10,000 o systemau trydan micro erbyn 2012. Weinidog, mae'r targedau hyn yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol, ac rwy'n gefnogol iawn i'r buddsoddiadau rydych wedi'u gwneud, a amlinellwyd yn eich ymateb cyntaf i Nick Bourne ynghylch microgynhyrchu. Fodd bynnag, ymddengys bod angen mwy o adnewyddu economaidd, a bod angen defnyddio'r adnewyddu hwnnw i hyrwyddo'r targedau hynny. Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi cyflwyno rhaglen

energy and the environment represent one of six key sectors. What discussions have you had with the Deputy First Minister to examine how you could obtain more funding through the economic portfolio in order to further your ambitious targets for renewable energy production?

Jane Davidson: I worked very closely with the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport in the development of the economic renewal programme and in the designation of energy and environment as one of the six key sectors. As a Government, our only funding comes from the UK Government, and we are looking at a £1.8 billion reduction over the next few years. Therefore, it is increasingly difficult for this Government to be able to put additional investment into these very important areas. The UK Government has also changed the process in England and Wales of bidding for money to support the ports in the context of renewable energy and turned this into an English fund. We know that the UK Government, which is jointly led by your party, Mick, is not committed to or interested in helping us with the renewable energy agenda in Wales. Despite that, this Government will continue to do everything it can to support the renewable energy agenda.

Nerys Evans: Mae fy nghwestiwn yn dilyn ymlaen o'r cwestiwn a ofynnwyd gan Alun Davies. Mae cynllunio strategol yn y maes ynni adnewyddadwy yn hanfodol. Fel y bu ichi ddweud, mae angen datganoli pwerau dros brosiectau ynni mawr i Gymru. Yr ydym yn anghytuno'n llwyr â'r ffaith mai corff annemocrataidd yn Lloegr, sef y Comisiwn Cynllunio Seilwaith, sy'n penderfynu ar faterion mor bwysig â hyn. Mae gan Lywodraeth San Steffan gynlluniau i symud dyletswyddau'r CCS i Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol San Steffan, sydd ond yn delio â materion yn Lloegr, gan fod materion yn ymwneud â llywodraeth leol wedi'u datganoli i Gymru.

2.20 p.m.

Beth yw'r diweddaraf o ran eich trafodaethau

adnewyddu'r economi lle mae ynni a'r amgylchedd yn cynrychioli un o'r chwe sector allweddol. Pa drafodaethau a gawsoch gyda'r Dirprwy Brif Weinidog i ymchwilio i sut y gallech gael mwy o arian drwy'r portffolio economaidd er mwyn hyrwyddo eich targedau uchelgeisiol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy?

Jane Davidson: Rwy'n gweithio'n agos iawn gyda'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i ddatblygu rhaglen adnewyddu'r economi ac i ddynodi ynni a'r amgylchedd fel un o'r chwe sector allweddol. Fel Llywodraeth, mae ein hunig gyllid yn dod gan Lywodraeth y DU, ac rydym yn edrych ar ostyngiad o £1.8 biliwn dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Felly, mae'n gynyddol anodd i'r Llywodraeth hon allu rhoi buddsoddiad ychwanegol i'r meysydd pwysig iawn hyn. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi newid y broses yng Nghymru a Lloegr ar gyfer gwneud cais am arian i helpu porthladdoedd yng nghyd-destun ynni adnewyddadwy gan droi hyn i mewn i gronfa Lloegr. Rydym yn gwybod nad yw Llywodraeth y DU, sy'n cael ei harwain ar y cyd gan eich plaid chi, Mick, wedi ymrwymo i'n helpu gyda'r agenda ynni adnewyddadwy yng Nghymru, ac nid oes ganddi ddiddordeb gwneud hynny. Er gwaethaf hynny, bydd y Llywodraeth yn parhau i wneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi'r agenda ynni adnewyddadwy.

Nerys Evans: My question follows on from the question asked by Alun Davies. Strategic planning in the field of renewable energy is essential. As you said, we need to devolve powers over large-scale energy projects to Wales. We completely disagree with the fact that it is an undemocratic body in England, the Infrastructure Planning Commission, that decides on matters of such importance. The Westminster Government plans to move the duties of the IPC to the Department for Communities and Local Government in Westminster, which deals only with matters in England, because matters relating to local government are devolved to Wales.

What is the latest regarding your discussions

â Llywodraeth San Steffan i sicrhau datganoli pwerau dros brosiectau ynni mawr, er mwyn i ni allu cynllunio a manteisio yn briodol? A yw eich plaid yn Llundain hefyd yn cytuno â ni yn y maes hwn?

Jane Davidson: The question about what happens after the abolition of the Infrastructure Planning Commission is very important. Of course, we are not just talking about taking the powers away from the IPC and giving them to an English body, because the Planning Inspectorate is separately and differently accountable to the two Governments in England and Wales. The key will be to ensure that that separate accountability is fully recognised, for which we still need the devolution of the major energy consents. One of the important elements of our debate with the UK Government at the moment is how we can ensure that the relevant policy guidance for Wales is reflected as a material consideration within each of the final national policy statements, to provide a suitable framework for decisions to be made on applications for development consent for nationally significant energy infrastructure in relation to Wales. So, we need to ensure that we win the debate on having Welsh policy appropriately recognised in the national policy statements.

Angela Burns: Minister, I was pleased to hear your reply to Mick Bates, when you said that your department works closely with the Deputy First Minister and the Minister for Transport and the Economy. What structures have you put in place—yourself, or in conjunction with the Deputy First Minister—to maximise what is potentially a game-changing opportunity for Wales in terms of the arrays in the Bristol channel and the Irish sea?

Jane Davidson: I agree that it is a game-changing opportunity for Wales. The way that we have taken forward the economic renewal programme will mean that the policy that is decided within a portfolio Minister's department is then enacted through the Department for the Economy and Transport, with a set of experts who are able to help the department to look at how to get the best effect and the quickest outcome. So, it is a

with the Westminster Government to ensure the devolution of powers over large-scale energy projects, so that we can plan and benefit appropriately? Does your party in London also agree with us in this area?

Jane Davidson: Mae'r cwestiwn ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd ar ôl diddymu'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith yn bwysig iawn. Yn amlwg, nid ydym yn sôn am gymryd y pwerau oddi ar yr IPC a'u rhoi i gorff yn Lloegr yn unig, gan fod yr Arolygiaeth Gynllunio ar wahân ac yn atebol mewn ffordd wahanol i'r ddwy Lywodraeth yng Nghymru a Lloegr. Bydd yn allweddol sicrhau bod yr atebolrwydd ar wahân yn cael ei gydnabod yn llawn. Er mwyn gwneud hynny, mae angen inni ddatganoli'r pwerau i gydsynio ynni mawr. Un o elfennau pwysig ein dadl gyda Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yw sut y gallwn sicrhau bod y canllawiau polisi perthnasol ar gyfer Cymru yn cael eu hadlewyrchu fel ystyriaeth berthnasol o fewn pob un o'r datganiadau polisi cenedlaethol terfynol, i ddarparu fframwaith addas ar gyfer penderfynu ar geisiadau am gydsynio datblygiadau ar gyfer seilwaith ynni o bwys cenedlaethol mewn cysylltiad â Chymru. Felly, mae angen inni sicrhau ein bod yn ennill y ddadl ar gael cydnabyddiaeth briodol i bolisi Cymru yn y datganiadau polisi cenedlaethol.

Angela Burns: Weinidog, rwy'n falch o glywed eich ateb i Mick Bates, bod eich adran yn gweithio'n agos gyda'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Drafnidiaeth a'r Economi. Pa strwythurau rydych wedi'u rhoi ar waith—eich hun, neu ar y cyd â'r Dirprwy Brif Weinidog—i fanteisio i'r eithaf ar yr hyn a allai fod yn gyfle am newid byd i Gymru o ran yr araeau ym môr Hafren a môr Iwerddon?

Jane Davidson: Rwy'n cytuno ei fod yn gyfle am newid byd i Gymru. Mae'r ffordd rydym wedi datblygu rhaglen adnewyddu'r economi yn golygu bod y polisi y penderfynir arno o fewn adran Gweinidog portffolio wedyn yn cael ei weithredu drwy Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, gyda chyfres o arbenigwyr sy'n gallu helpu'r adran i edrych ar sut i gael yr effaith orau a'r canlyniad cyflymaf. Felly, mae perthynas glir

clear relationship between policy and using the new business mechanisms for delivery. It is an exciting opportunity as we move forward.

Angela Burns: I was less excited to hear that answer. In fact, my heart runs cold. Before I became an Assembly Member, I took part in bidding for multimillion pound projects in the companies that I have worked for in the past—as I know Alun Davies also did. I know how difficult it is to get hold of any slice of that action. I have met numerous businesses throughout Wales that do interesting things; they make pipes, they make galvanised steel and they have enormous potential. However, the roadshows that are being promoted throughout Wales—there was one in Llandrindod Wells not long ago—are just not able to get them in front of RWE and Centrica in a way that would enable them to put forward their bit of the action. In addition to this, they do not know which bit of the action to go for because it is such a new game. Why is the Government not putting together a crack team of two or three people from within the Government who can bring together all of these companies in Wales, make team Wales, and go out and win this bid? It is a game-changer, and I am worried that we are going to faff it and that we will end up not winning any of the business at all. That is the history of the big projects that Wales has bid for in the past.

Jane Davidson: If you were to look at the comments made by the Carbon Trust this morning, you would see that the green economy is the only economy in town. Every one of us should be encouraging every business to move forward on this agenda. Therefore, all of the mechanisms inside the Assembly Government, as well as the mechanisms inside the Carbon Trust and other agencies, are all dedicated to providing these opportunities. There is also a major role for the UK Government in this. If the UK Government explicitly does not support Wales in the context of renewable energy, then it is very difficult for us to say, as a Government that is funded only by the UK Government, that we have game-changing opportunities here when the UK Government

rhwng polisi a defnyddio'r dulliau busnes newydd ar gyfer gweithredu. Mae'n gyfle cyffrous wrth inni symud ymlaen.

Angela Burns: Roedd yr ateb hwnnw yn llai cyffrous. Yn wir, mae'n oeri fy nghalon. Cyn imi ddod yn Aelod Cynulliad, roeddwn yn rhan o geisiadau ar gyfer prosiectau gwerth miliynau o bunnoedd yn y cwmnïau roeddwn yn gweithio iddynt—gwn fod Alun Davies wedi gwneud hynny hefyd. Rwy'n gwybod pa mor anodd yw cael gafael ar gyfran o'r gwaith hwnnw. Rwyf wedi cwrrd â nifer o fusnesau ledled Cymru sydd yn gwneud pethau diddorol; maent yn gwneud pibellau, maent yn gwneud dur galfanedig ac mae ganddynt botensial enfawr. Fodd bynnag, nid yw'r sioeau teithiol sy'n cael eu hyrwyddo ledled Cymru—roedd un yn Llandrindod yn ddiweddar—yn gallu eu cyflwyno o flaen RWE a Centrica mewn ffordd a fyddai'n eu galluogi i gynnig eu rhan o'r gwaith. Yn ogystal â hyn, nid ydynt yn gwybod pa ran o'r gaith i fynd amdano gan ei fod yn gêm mor newydd. Pam nad yw'r Llywodraeth yn ffurfio tîm arbenigol o ddau neu dri pherson o'r Llywodraeth a all ddwyn ynghyd pob un o'r cwmnïau hyn yng Nghymru, llunio tîm Cymru, a mynd ati i ennill y cynnig hwn? Byddai'n arwain at newid byd, ac rwy'n poeni ein bod yn mynd i wneud llanast ohono ac na fyddwn yn ennill unrhyw fusnes o gwbl yn y pen draw. Dyna yw hanes y prosiectau mawr y mae Cymru wedi cynnig amdanynt yn y gorffennol.

Jane Davidson: Os edrychwch ar y sylwadau a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth Garbon y bore yma, gwelwch mai'r economi werdd yw'r unig ddewis. Dylai pob un ohonom fod yn annog pob busnes i symud yr agenda hon yn ei blaen. Felly, mae holl fecanweithiau Llywodraeth y Cynulliad, yn ogystal â mecanweithiau'r Ymddiriedolaeth Garbon ac asiantaethau eraill, wedi ymroi i ddarparu'r cyfleoedd hyn. Mae gan Lywodraeth y DU rôl bwysig yn hyn hefyd. Os nad yw Llywodraeth y DU yn cefnogi Cymru'n benodol yng nghyd-destun ynni adnewyddadwy, mae'n anodd iawn i ni ddweud, fel Llywodraeth a ariennir yn unig gan Lywodraeth y DU, fod gennym gyfleoedd i newid byd yma pan nad yw Llywodraeth y DU hyd yn oed yn gadael inni

will not even let us take the appropriate planning decisions in our own country.

Angela Burns: Presiding Officer, may I come back briefly on that point?

The Presiding Officer: You are a spokesperson. I think that the Minister should be further scrutinised on this matter. There are some people who seem to be saying these days that we are not very good at scrutiny, so have another go.

Angela Burns: Thank you very much indeed. It is just so easy, is it not, to blame the UK Government for everything? Let us be absolutely clear: a turbine costs about £6 million to build. Whether you are doing the nacelle, the bed plates, the main bearings, the main shaft, the gearbox or the generator, these are the companies involved: ABMB, Siemens, Draka, Nexa, Leroy Somer, RENK, Liebherr. They are not Welsh companies; very few of them are UK companies, but they are the specialists in what they do. If Wales wants to have a bite of this, and if we want our 150-people strong pipe engineering companies in places such as Pembroke Dock or Anglesey or anywhere in Wales to have a bite of this, we have got to stop saying that we cannot do anything because it is all the fault of the UK Government and actually plan how we are going to go out there to get this business.

As I have said before, and you have agreed, it is a game-changer, but if we sit and do nothing but say, 'Oh poor us' we are not going to win this. That would be a crying shame, because the revenue that this could bring to this country would change our economy for ever.

Jane Davidson: Yes, and can I make it absolutely clear that this Government has taken a number of key initiatives on this agenda and invested despite a lack of support from your Government. [*Interruption.*] It is indicative of the position of your Government—[*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order. I do not believe that Angela Burns is a member of any Government at this moment.

wneud y penderfyniadau cynllunio priodol yn ein gwlad ein hunain.

Angela Burns: Lywydd, a gaf fi ddod yn ôl yn gyflym ar y pwynt hwnnw?

Y Llywydd: Rydych yn llefarydd. Credaf y dylid craffu ymhellach ar y Gweinidog ar y mater hwn. Mae rhai pobl yn dueddol o ddweud y dyddiau hyn nad ydym yn dda am graffu, felly cewch gynnig arall arni.

Angela Burns: Diolch yn fawr iawn. Mae mor hawdd, onid ydyw, i roi'r bai ar Lywodraeth y DU am bopeth? Gadewch inni fod yn gwbl glir: mae'n costio tua £6 miliwn i adeiladu tyrbin. Yn y gwaith o wneud y nasél, y platiau gwely, y prif ferynnau, y brif siafft, y gerbocs a'r generadur, dyma'r cwmnïau sy'n cymryd rhan: ABMB, Siemens, Draka, Nexa, Leroy Somer, RENK, Liebherr. Nid ydynt yn gwmnïau o Gymru; ychydig iawn ohonynt sy'n gwmnïau o'r DU, ond y cwmnïau hyn yw'r arbenigwyr yn yr hyn maent yn ei wneud. Os yw Cymru am gael tamaid o hyn, ac os ydym am i'n cwmnïau peirianeg pibellau cryf sy'n cyflogi 150 o bobl mewn mannau megis Doc Penfro neu Ynys Môn neu unrhyw le yng Nghymru gael tamaid o hyn, mae'n rhaid inni roi'r gorau i ddweud na allwn wneud unrhyw beth am fod y bai i gyd ar Lywodraeth y DU, a chynllunio sut rydym yn bwriadu mynd ati i gael y busnes hwn.

Fel y dywedais o'r blaen, ac rydych wedi cytuno, mae'n gyfle i newid byd, ond os ydym am eistedd a gwneud dim heblaw dweud, 'O druan â ni' nid ydym am ennill hyn. Byddai hynny'n drueni mawr, oherwydd gallai'r refeniw a fyddai'n dod i'r wlad hon yn sgîl hynny newid ein heconomi am byth.

Jane Davidson: Gallai, a hoffwn wneud yn gwbl glir fod y Llywodraeth hon wedi ymgymryd â nifer o fentrau allweddol ar yr agenda hon ac wedi buddsoddi er gwaethaf diffyg cefnogaeth gan eich Llywodraeth. [*Torri ar draws.*] Mae'n arwydd o'r sefyllfa y mae eich Llywodraeth—[*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. Nid wyf yn credu bod Angela Burns yn aelod o unrhyw Lywodraeth ar hyn o bryd.

Jane Davidson: No. It is quite indicative of the way that your colleagues in Government in the UK have behaved since May that we have had a major reduction in funding to Wales in the context of developing renewable energy. This Government remains committed; this Government is delivering on an ambitious action plan in the context of renewable energy, and we will continue to seek support from the UK Government to ensure that Wales gets a fair deal. We should not have to do all the heavy lifting ourselves, because we are helping the UK Government to meet its renewable energy targets.

The Presiding Officer: I think that it is time we got to question 2.

Y Sector Rhent Preifat

2. Sandy Mewies: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y pwysau ar y sector rhent preifat yng Nghymru. OAQ(3)1544(ESH)*

The Deputy Minister for Housing and Regeneration (Jocelyn Davies): I believe that the most immediate pressures facing the private rented sector probably arise from the reforms to the housing benefit system that have been proposed by the Department for Work and Pensions. I set out the reasons for my concern recently when I gave evidence to the Communities and Culture Committee.

Sandy Mewies: Thank you, Deputy Minister. You referred to the changes to the housing benefit system being made by the Conservative/Liberal Democrat coalition Government in Westminster. They will inevitably reduce the number of houses available for rent to the most vulnerable people in our communities. They will increase homelessness and put extra pressure on local authorities. Do you agree that, despite all of these difficulties, our Welsh Government will continue to do all it can to mitigate that pressure?

Jocelyn Davies: Yes, I agree with you, Sandy. The predictions that you made were taken from the DWP's own assessment of

Jane Davidson: Nac ydy. Mae'n arwydd o'r ffordd y mae eich cydweithwyr yn y Llywodraeth yn y DU wedi ymddwyn ers mis Mai ein bod wedi gweld gostyngiad sylweddol yn y cyllid i Gymru yng nghydestun datblygu ynni adnewyddadwy. Mae'r Llywodraeth hon yn parhau i fod yn ymrwymedig; mae'r Llywodraeth hon yn cyflawni ei chynllun gweithredu uchelgeisiol yng nghydestun ynni adnewyddadwy, a byddwn yn parhau i geisio cymorth gan Lywodraeth y DU i sicrhau bod Cymru yn cael bargaen deg. Ni ddylem orfod gwneud yr holl waith trwm ein hunain, gan ein bod yn helpu Llywodraeth y DU i gyrraedd ei thargedau ynni adnewyddadwy.

Y Llywydd: Rwy'n credu ei bod yn bryd inni gael cwestiwn 2.

The Private Rented Sector

2. Sandy Mewies: *Will the Minister make a statement on pressures on the private rented sector in Wales. OAQ(3)1544(ESH)*

Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies): Rwy'n credu bod y pwysau mwyaf dybryd sy'n wynebu'r sector rhentu preifat yn deillio o'r diwygiadau i'r system budd-daliadau tai a gynigiwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Nodais y rhesymau dros fy mhryder yn ddiweddar pan roddais dystiolaeth i'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

Sandy Mewies: Diolch, Ddirprwy Weinidog. Rydych wedi cyfeirio at y newidiadau i'r system budd-daliadau tai a wneir gan Lywodraeth glymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan. Byddant yn anochel yn lleihau nifer y tai sydd ar gael i'w rhentu i'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Byddant yn cynyddu digartrefedd ac yn rhoi pwysau ychwanegol ar awdurdodau lleol. A ydych yn cytuno, er gwaetha'r holl anawsterau hyn, y bydd ein Llywodraeth yng Nghymru yn parhau i wneud popeth o fewn ei gallu i liniaru'r pwysau hyn?

Jocelyn Davies: Ydw, rwy'n cytuno â chi, Sandy. Mae'r rhagfynegiadau a wnaethoch yn dod o asesiad yr Adran Gwaith a

what will happen. You will know that our homelessness strategy seeks to prevent homelessness wherever it can. There has been a massive decrease in the use of bed and breakfast accommodation because of our prevention agenda. We know that there is a huge impact on a child's life and life chances if they have to experience homelessness. Any steps taken by anybody that increase homelessness are short-sighted and ignore the long-term consequences for individuals and society.

Peter Black: Deputy Minister, you will be aware from your own statistics that, whereas the social housing stock has increased by only 425 since March 2007, the number of privately rented dwellings has doubled from 7 per cent of the total number of homes in Wales to 14 per cent, largely driven, I think, by the slump in house prices over the past few years. Given that, many more people are now relying on privately rented accommodation. As a result, there are huge pressures with regard to the quality of and access to that accommodation, particularly finding bonds, and when you switch from accommodation to accommodation. What action is your Government taking to try to help those families who are relying in this way on privately rented accommodation, in order to offer a support network to enable them to remain mobile enough to find jobs and employment and to move in and out of education?

2.30 p.m.

Jocelyn Davies: There is no reason why the private rented sector should not be an affordable option. However, the proposed changes to housing benefit mean that, instead of five out of 10 of those properties being affordable, only three out of 10 will be affordable. What we want in Wales is a private rented sector that is well-managed and affordable and that offers good, decent accommodation. It would then perhaps be an option of choice. I do not believe that the changes that are afoot are likely to bring about that change. About 63 per cent of those who currently claim housing benefits have to make up the funding gap, which they do from their disposable income; of course, housing benefit is an in-work as well as an out-of-

Phensiynau o beth fydd yn digwydd. Byddwch yn gwybod bod ein strategaeth ddigartrefedd yn ceisio atal digartrefedd lle bynnag y gall. Bu gostyngiad enfawr yn y defnydd o lety gwely a brecwast oherwydd ein agenda. Rydym yn gwybod bod effaith enfawr ar fywyd a chyfleoedd bywyd plant os oes rhaid iddynt brofi digartrefedd. Mae unrhyw gamau a gymerir gan unrhyw un sy'n cynyddu digartrefedd yn gibddall ac yn anwybyddu'r canlyniadau hirdymor ar gyfer unigolion a chymdeithas.

Peter Black: Ddirprwy Weinidog, byddwch yn ymwybodol ar ôl gweld eich ystadegau eich hun, er bod y stoc tai cymdeithasol wedi cynyddu 425 yn unig ers mis Mawrth 2007, mae nifer yr adeiladau a rentir yn breifat wedi dyblu o 7 y cant o gyfanswm y cartrefi yng Nghymru i 14 y cant, a ysgogwyd i raddau helaeth, yn fy marn i, gan y cwmp mewn prisiau tai dros y blynyddoedd diwethaf. O ystyried hynny, mae llawer mwy o bobl bellach yn dibynnu ar lety rhent preifat. O ganlyniad, mae pwysau enfawr o ran ansawdd a mynediad i lety, yn enwedig dod o hyd i fondiau, a phan fyddwch yn newid o lety i lety. Pa gamau y mae'ch Llywodraeth yn eu cymryd i geisio helpu'r teuluoedd hynny sy'n dibynnu fel hyn ar lety rhent preifat, er mwyn cynnig rhwydwaith cefnogi i'w galluogi i aros yn ddigon symudol i ddod o hyd i swyddi a chyflogaeth, ac i symud i mewn ac allan o addysg ?

Jocelyn Davies: Nid oes unrhyw reswm pam na ddylai'r sector rhentu preifat fod yn opsiwn fforddiadwy. Fodd bynnag, mae'r newidiadau arfaethedig i'r budd-dal tai yn golygu, yn hytrach na bod pump allan o'r 10 eiddo hyn yn fforddiadwy, dim ond tri allan o 10 fydd yn fforddiadwy. Yr hyn rydym am ei gael yng Nghymru yw sector rhentu preifat sydd wedi'i reoli'n dda ac yn fforddiadwy ac sy'n cynnig llety da a safonol. Byddai wedyn, o bosibl, yn opsiwn o ddewis. Nid wyf yn credu bod y newidiadau sydd ar y gweill yn debygol o arwain at y newid hwnnw. Bydd yn rhaid i tua 63 y cant o'r rheini sy'n hawlio budd-daliadau tai ar hyn o bryd dalu am y bwlch cyllido. Bydd rhaid iddynt wneud hynny o'u hincwm gwario; wrth gwrs, mae

work benefit. I cannot see how people will be able to make up a bigger funding gap, and I believe that there will be difficulties. I hope that that does not result in poorer accommodation being on offer, or landlords not carrying out proper repairs.

Peter Black: Thank you for that answer, Minister. I was rather hoping that you would answer in respect of your own responsibilities, because that is how I directed the question. We are here to scrutinise your record, not the record of another Government. I wish to ask you about how the private sector is currently regulated in Wales. You will know that certain houses in multiple occupation are subject to licencing, and that, in certain areas of Wales—such as Swansea, Cardiff and other university towns—other privately rented properties are regulated. That regulation enables local councils to monitor the quality of that accommodation, and to offer some protection, not just to the tenant, but to the neighbours as well. Given the expansion of the privately rented sector, are you considering extending that licencing regime, to offer further protection to the many other people who are now using privately rented accommodation, much of which is sub-standard already, irrespective of housing benefit levels?

Jocelyn Davies: I am sure that you would prefer that we did not keep mentioning the changes to the housing benefit system that the UK Government is about to make. However, those changes will have a profound effect on the private rented sector all over the UK, and especially in Wales. You mention licencing, HMOs and so on. As you will know, we have very few legislative powers in relation to the private rented sector, although there is the licencing regime that you mentioned. We also have our accreditation scheme, which is now active in every local authority area. You will also know that the Communities and Culture Committee is doing a review into the private rented sector. I have given evidence to that committee, and have said that I would like to see a written tenancy agreement, which I would like to see being compulsory, but we do not have the powers to do that at present. We would like

budd-dal tai yn fudd-dal mewn gwaith yn ogystal â budd-dal allan o waith. Ni allaf weld sut y bydd pobl yn gallu llenwi bwlch cyllido mwy, a chredaf y bydd anawsterau. Rwy'n gobeithio na fydd hynny'n arwain at gynnig llety o safon is, neu landlordiaid yn gwrthod gwneud atgyweiriadau priodol.

Peter Black: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Roeddwn yn gobeithio y byddech yn ateb yng nghyswllt eich cyfrifoldebau eich hun, oherwydd dyna oedd fy nghwestiwn. Rydym yma i graffu ar eich gwaith chi, nid gwaith Llywodraeth arall. Hoffwn eich holi am sut mae'r sector preifat yn cael ei reoleiddio ar hyn o bryd yng Nghymru. Byddwch yn gwybod bod rhai tai amlfeddiannaeth yn gorfod cael trwydded, ac, mewn rhai ardaloedd o Gymru—megis Abertawe, Caerdydd a threfi prifysgol eraill—mae eiddo rhent preifat eraill yn cael eu rheoleiddio. Mae'r rheoliadau hynny'n galluogi cynghorau lleol i fonitro ansawdd y llety, a chynnig rhywfaint o ddiogelwch, nid dim ond i'r tenant, ond i'r cymdogion hefyd. O ystyried bod y sector rhentu preifat yn tyfu, a ydych yn ystyried ymestyn y gyfundrefn drwyddedu, er mwyn cynnig diogelwch pellach i'r bobl eraill sydd bellach yn defnyddio llety a rentir yn breifat, y mae llawer ohono eisoes yn is na safonol, waeth faint o fudd-dal tai a gânt?

Jocelyn Davies: Rwy'n siŵr y byddai'n well gennych ein bod yn peidio â sôn am y newidiadau i'r system budd-daliadau tai y mae Llywodraeth y DU ar fin eu gwneud. Fodd bynnag, bydd y newidiadau hynny'n cael effaith ddifrifol ar y sector rhentu preifat ar draws y DU, ac yn enwedig yng Nghymru. Rydych yn sôn am drwyddedu, tai amlfeddiannaeth ac yn y blaen. Fel y gwyddoch, dim ond ychydig o bwerau deddfwriaethol sydd gennym o ran y sector rhentu preifat, er bod gennym y gyfundrefn drwyddedu y gwnaethoch sôn amdani. Mae gennym ein cynllun achredu hefyd, sydd bellach ar waith ym mhob ardal awdurdod lleol. Byddwch hefyd yn gwybod bod y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn gwneud adolygiad i'r sector rhentu preifat. Rwyf wedi rhoi tystiolaeth i'r pwyllgor hwnnw, ac wedi dweud y byddwn yn hoffi gweld cytundeb tenantiaeth ysgrifenedig.

to ensure that there was a minimum standard of accommodation in the private rented sector; we do not have the powers to enforce that, other than through our accreditation scheme. Should there be a 'yes' vote in the referendum, we will have powers over the private rented sector and I look forward to seeing the Communities and Culture Committee's recommendations, to see how this could be taken forward in the future.

David Lloyd: Fel yr ydych wedi awgrymu, y cwstiwn mawr o ran y pwnc hwn yw'r newidiadau andwyol i fudd-dal tai. Yn dilyn yr hyn yr ydych wedi ei ddweud eisoes, ac o gofio nad yw budd-daliadau wedi eu datganoli, er eu bod yn effeithio ar filoedd o bobl Cymru, pa drafodaethau yr ydych wedi eu cael â Gweinidogion San Steffan i geisio lleihau effaith y toriadau hyn ym mudd-daliadau tai?

Jocelyn Davies: I have written to the UK Government, expressing the views that were expressed in the Assembly Chamber during a debate on this issue. I am shortly to have a telephone conversation with the UK Minister to put over our point of view. I will let you know how that goes. I do not think that there will be radical changes, although I hope that consideration will be given to the Welsh situation. I know that the Department for Work and Pensions' own assessment stated that the private rented sector is likely to shrink because some people will just not want to rent under those conditions, and that homelessness is likely to increase. I am concerned that the cost of that will mean more pressure being put on the public sector, and there could be costs that fall on the public purse. It is also worth noting that the Social Security Advisory Committee—the statutory committee set up to advise the Government—did recommend that these changes did not go ahead.

Mark Isherwood: I hope that you will agree that private rented sector access agencies can be part of the solution. You will be aware of Cefni social letting agency, working with the National Landlords Association, which delivered 87 supported tenancies over three years, only two of which have failed. I am

Byddwn yn hoffi gweld hwnnw'n orfodol, ond nid oes gennym y pwerau i wneud hynny ar hyn o bryd. Rydym yn awyddus i sicrhau bod safon ofynnol ar gyfer llety yn y sector rhentu preifat; nid oes gennym y pwerau i orfodi hynny, heblaw am drwy ein cynllun achredu. Pe byddai pleidlais gadarnhaol yn y refferendwm, bydd gennym bwerau dros y sector rhentu preifat ac edrychaf ymlaen at weld argymhellion y Pwyllgor Cymunedau Diwylliant, i weld sut y gellid datblygu hyn yn y dyfodol.

David Lloyd: As you have suggested, the big question on this topic concerns the appalling changes to housing benefit. Following on from what you have said, and bearing in mind that housing benefit is not a devolved matter, even though it affects thousands of people in Wales, what discussions have you had with Westminster Ministers to try to lessen the impact of these cuts to housing benefit?

Jocelyn Davies: Rwyf wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU yn mynegi'r farn a ddatganwyd yn Siambr y Cynulliad yn ystod dadl ar y mater hwn. Byddaf yn cael sgwrs dros y ffôn â Gweinidog y DU yn fuan i roi ein safbwynt. Byddaf yn rhoi gwybod ichi beth fydd yn digwydd. Nid wyf yn credu y bydd newidiadau radical, er fy mod yn gobeithio y bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i sefyllfa Cymru. Gwn fod asesiad yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi datgan bod y sector rhentu preifat yn debygol o grebachu gan na fydd rhai pobl am rentu o dan yr amodau hynny, a bod digartrefedd yn debygol o gynyddu. Rwy'n pryderu y bydd y gost yn golygu bod mwy o bwysau yn cael ei roi ar y sector cyhoeddus, a gallai costau ddisgyn ar bwrs y wlad. Mae hefyd yn werth nodi bod y Pwyllgor Ymgynghorol Nawdd Cymdeithasol—y pwyllgor statudol a sefydlwyd i gynghori'r Llywodraeth—wedi argymhell na ddylai'r newidiadau hyn fynd yn eu blaen.

Mark Isherwood: Rwy'n gobeithio y byddwch yn cytuno y gall asiantaethau'r sector rhentu preifat fod yn rhan o'r ateb. Byddwch yn ymwybodol o asiantaeth gosod tai cymdeithasol Cefni, sy'n gweithio gyda Chymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid, sydd wedi darparu 87 o denantiaethau â

told that Cefni Lettings has already built in the new reductions in local housing allowance. It has stated that it works and that landlords are now confident to come to the agency to identify the areas where properties are needed, the types of properties needed, and that it knows where and how to then go and acquire those properties and refurbish them up to standard. It states that the market will adjust if something is done now, but it also says that a new way of working is needed between the public and private sectors. Therefore, how do you respond to that call for a new way of working, which will maximise the potential for private sector funding and true partnership to meet broader social need at the standard required?

Jocelyn Davies: We do work closely with the National Landlords Association. As I say, we have been able to achieve an accreditation scheme for private landlords in every single local authority area. We are certainly not against the private rented sector. We like to see well-managed, affordable properties with good landlords. Social letting agencies certainly play an important role in that respect.

In terms of the market adjusting, as I mentioned earlier, 63 per cent of those claiming housing benefit must currently make up the funding gap between the benefit that they can claim and their rent. The market has not adjusted at present for the 63 per cent. I do not have the same confidence as you that, following the changes, the market will adjust even more.

Blaenoriaethau Tai

3. Lynne Neagle: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau tai ar gyfer gweddill y tymor Cynulliad hwn. OAQ(3)1530(ESH)*

Jocelyn Davies: My overall priorities are set out in our national housing strategy. My specific priorities now include the new proposed housing Measure, the implementation of recommendations from

chymorth dros dair blynedd, a dim ond dau ohonynt sydd wedi methu. Rwyf ar ddeall bod asiantaeth Cefni eisoes wedi ystyried y gostyngiadau newydd yn y lwfans tai lleol. Mae wedi datgan ei fod yn gweithio a bod landlordiaid bellach yn hyderus i ddod at yr asiantaeth i nodi'r ardaloedd lle mae angen eiddo, y mathau o eiddo sydd eu hangen, a'u bod yn gwybod lle a sut i fynd i gael eiddo a'i adnewyddu i gyrraedd y safon. Mae'n nodi y bydd y farchnad yn addasu os gwneir rhywbeth yn awr, ond mae hefyd yn dweud bod angen ffordd newydd o weithio rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Felly, sut ydych yn ymateb i'r alwad honno am ffordd newydd o weithio, a fydd yn gwneud y gorau o'r potensial ar gyfer cyllid sector preifat a gwir bartneriaeth er mwyn diwallu angen cymdeithasol ehangach yn unol â'r safon ofynnol?

Jocelyn Davies: Rydym yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid. Fel y dywedais, rydym wedi gallu cyflawni cynllun achredu ar gyfer landlordiaid preifat ym mhob ardal awdurdod lleol. Yn sicr, nid ydym yn erbyn y sector rhentu preifat. Rydym yn awyddus i weld eiddo fforddiadwy a reolir yn dda gyda landlordiaid da. Mae asiantaethau gosod tai cymdeithasol yn sicr yn chwarae rhan bwysig yn y cyswllt hwnnw.

O ran addasu'r farchnad, fel y soniais yn gynharach, mae'n rhaid i 63 y cant o'r rheini sy'n hawlio budd-dal tai ar hyn o bryd dalu am y bwlch ariannu rhwng y budd-dal y gallant ei hawlio a'u rhent. Nid yw'r farchnad wedi'i haddasu ar hyn o bryd ar gyfer y 63 y cant. Nid oes gennyf yr un hyder â chi y bydd y farchnad yn addasu mwy yn dilyn y newidiadau.

Housing Priorities

3. Lynne Neagle: *Will the Minister make a statement on her housing priorities for the remainder of this Assembly term. OAQ(3)1530(ESH)*

Jocelyn Davies: Mae fy mlaenoriaethau cyffredinol wedi'u nodi yn ein strategaeth dai genedlaethol. Mae fy mlaenoriaethau penodol bellach yn cynnwys y Mesur tai arfaethedig newydd, gweithredu

the independent review of the Supporting People programme, and continuing negotiations with the UK Treasury on the housing revenue account subsidy system.

Lynne Neagle: I know that you are well aware of my concerns about the proposed changes to housing benefit. As you know, nearly 1,000 residents in Torfaen are set to lose, on average, £500 per year due to changes to the local housing allowance. The draconian and pernicious plan to reduce housing benefit for long-term jobseekers by 10 per cent will seriously exacerbate the problems with homelessness. On top of this, we learned yesterday that the UK Government plans to scrap the financial inclusion fund—a move that will mean the loss of some 500 debt advice workers across the UK, including six advice workers in Torfaen alone. Do you agree, Deputy Minister, that as we face the escalation of debt and homelessness brought about by this Government's proposals, quality debt advice will be an absolute lifeline for our communities? Will you convey that view to the UK Government, and ask it to think again, at the same time as talking to colleagues here about what we can do to assist Citizens Advice in continuing to help people when facing this significant problem?

Jocelyn Davies: You have raised the issues of housing benefit and the jobseeker's allowance proposal with me on a number of occasions. To get jobseeker's allowance, you have to do all that you possibly can to get work. To reduce benefit for people who are doing all that they can just seems spiteful to me.

2.40 p.m.

I understand that there are reports that the financial inclusion fund will soon cease. I can confirm that I have not been consulted or informed about that. You are right to say that debt advice at this time is important, and I am sure that the charities and organisations giving debt advice will be concerned about that move. I will write to the UK Government to get clarification on that issue, and ask it to think again. You would not want

argymhellion yr adolygiad annibynnol ar y rhaglen Cefnogi Pobl, a thrafodaethau parhaus gyda Thrysorlys y DU ar y system cymhorthdal cyfrif refeniw tai.

Lynne Neagle: Gwn eich bod yn ymwybodol iawn o fy mhryderon ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r budd-dal tai. Fel y gwyddoch, mae bron i 1,000 o drigolion Torfaen yn mynd i golli, ar gyfartaledd, £500 y flwyddyn o ganlyniad i newidiadau yn y lwfans tai lleol. Bydd y cynllun didrugaredd a niweidiol i dorri 10 y cant oddi ar y budd-dal tai i geiswyr gwaith hirdymor yn golygu y bydd y problemau o fod yn ddigartref yn llawer gwaeth. Yn ogystal, dysgwyd ddoe bod Llywodraeth y DU yn bwriadu cael gwared ar y gronfa cynhwysiant ariannol, sy'n golygu colli tua 500 o weithwyr cynghori ar ddyledion ledled y DU, gan gynnwys chwe gweithiwr cynghori yn Nhorfaen yn unig. A ydych yn cytuno, Ddirprwy Weinidog, wrth inni wynebu'r cynnydd mewn dyled a digartrefedd a ddaw yn sgîl cynigion y Llywodraeth hon, y bydd cyngor ar ddyledion o safon yn achubiaeth hollbwysig i'n cymunedau? A wnewch chi gyfleu'r farn honno i Lywodraeth y DU, a gofyn iddi feddwl eto, tra'n siarad â chydweithwyr yma am yr hyn y gallem ei wneud i gynorthwyo Cyngor ar Bopeth i barhau i helpu pobl pan fyddant yn wynebu'r broblem sylweddol hon?

Jocelyn Davies: Rydych wedi codi'r materion sy'n ymwneud â budd-dal tai a chynnig y lwfans ceisio gwaith gyda mi sawl gwaith. I gael lwfans ceisio gwaith, rhaid i chi wneud popeth o fewn eich gallu i gael gwaith. Mae lleihau budd-dal i bobl sy'n gwneud popeth y gallant yn ymddangos yn sarhaus i mi.

Rwy'n deall bod adroddiadau y bydd y gronfa cynhwysiant ariannol yn dod i ben yn fuan. Gallaf gadarnhau nad wyf wedi bod yn rhan o ymgynghoriad nac wedi cael fy hysbysu am hynny. Rydych yn iawn i ddweud bod cyngor ar ddyledion yn bwysig ar hyn o bryd, ac rwy'n siŵr y bydd yr elusennau a'r sefydliadau sy'n rhoi cyngor ar ddyledion yn bryderus am y cam hwnnw. Byddaf yn ysgrifennu at Lywodraeth y DU i

to see people having to turn to companies that charge fees for debt advice, because the Office of Fair Trading has indicated that it intends to crack down on those companies because it found them to be riddled with bad practice. Therefore, I hope that people will still be able to access free debt advice, because the irony of companies riddled with bad practice charging fees for giving advice to people who are already in debt is amazing. We must ensure that that does not happen.

Rhodri Glyn Thomas: Ddirprwy Weinidog, mae'n rhyfedd bod rhai yn y Siambr wedi anghofio fod Llywodraeth Lafur wedi bod mewn grym ers 1997 tan y flwyddyn ddiwethaf, ac yn awgrymu bod pethau wedi newid yn sydyn. Mae gennyf gwestiwn penodol ar dreth ar werth. Mae Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr wedi dweud pe bai modd gostwng treth ar werth, y gallai hynny fod o fudd mawr i'r diwydiant adeiladu yng Nghymru. Fel y gwyddoch, nid oes treth ar werth ar geginau ac ystafelloedd byw, ond mae'n bodoli ar gyfer ystafelloedd gwely. A gawsoch unrhyw drafodaethau gyda'r Gweinidog yn San Steffan ynglŷn â threth ar werth er mwyn gwella adeiladau yng Nghymru?

Jocelyn Davies: I think that I can confirm that you are correct to say that there was a Labour Government at UK level, although it seems a long time ago to some of us, and I never thought that I would miss it, but I do. *[Laughter.]*

The Federation of Master Builders has been running a repeated campaign about VAT—there is no VAT on new build, but there is considerable VAT on certain improvements. There is a worry that the increase in VAT is causing those who operate legally to be undermined by those who operate in the black market, so that is something of which we have to be careful. This Government supports the calls by the Federation of Master Builders to reduce VAT on home improvements and maintenance work, and I would be happy to write to the UK Government to ask it to consider that. I will

gael eglurhad ar y mater hwnnw, a gofyn iddi feddwl eto. Nid ydych am weld pobl yn gorfod troi at gwmnïau sy'n codi ffioedd ar gyfer rhoi cyngor ar ddyledion, gan fod y Swyddfa Masnachu Teg wedi nodi ei bod yn bwriadu mynd i'r afael â'r cwmnïau hynny am eu bod yn frith o arferion gwael. Felly, gobeithiaf y bydd pobl yn dal i allu cael mynediad at gyngor ar ddyledion am ddim, oherwydd mae'r eironi bod cwmnïau sy'n frith o arferion gwael yn codi ffioedd am roi cyngor i bobl sydd eisoes mewn dyled yn anhygoel. Rhaid sicrhau nad yw hynny'n digwydd.

Rhodri Glyn Thomas: Deputy Minister, it is odd that some in the Chamber have forgotten that a Labour Government was in power from 1997 until last year, and suggest that things have changed quickly. I have a specific question on VAT. The Federation of Master Builders has said that if it were possible to reduce VAT, that could be of great benefit to the construction industry in Wales. As you know, VAT does not apply to kitchens and living rooms, but it does apply to bedrooms. Have you had any discussions with the Minister in Westminster about VAT in order to improve buildings in Wales?

Jocelyn Davies: Credaf y gallaf gadarnhau eich bod yn iawn i ddweud bod Llywodraeth Lafur wedi bod ar lefel y DU, er ei fod yn teimlo fel amser maith yn ôl i rai ohonom, ac ni feddyliais erioed y byddwn yn gweld ei heisiau, ond dyna sut rwy'n teimlo. *[Chwerthin.]*

Mae Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr wedi bod yn rhedeg ymgyrch reolaidd am TAW—nid oes unrhyw TAW ar adeiladau newydd, ond mae TAW sylweddol ar welliannau penodol. Mae pryder bod y cynnydd mewn TAW yn achosi i'r rhai sy'n gweithredu yn gyfreithiol gael eu tanseilio gan y rhai sy'n gweithredu ar y farchnad ddu, felly rhaid bod yn ofalus am hynny. Mae'r Llywodraeth hon yn cefnogi galwadau gan Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr i leihau TAW ar welliannau a gwaith cynnal a chadw i'r cartref, a byddwn yn hapus i ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ofyn iddi ystyried hynny.

place the reply in the Library for Members to see.

The Presiding Officer: You could also place it on the internet. 'In the Library' is a kind of Westminster expression, Deputy Minister.

Jocelyn Davies: If I receive an electronic copy, I will put it on the internet.

The Presiding Officer: Thank you, Deputy Minister.

Trosoglwyddwyd cwestiwn 4, OAQ(3)1527(ESH), i'w ateb yn ysgrifenedig.

Tynnwyd cwestiwn 5, OAQ(3)1542(ESH), yn ôl.

Prosiectau Ynni Cymunedol

6. Brian Gibbons: *Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i gynyddu nifer y prosiectau ynni cymunedol yng Nghymru. OAQ(3)1558(ESH)*

Jane Davidson: Community groups receive support from the Welsh Assembly Government's Ynni'r Fro programme, which has received 141 applications to date for support for projects throughout Wales. We will issue a revised version of 'Planning Policy Wales' by the end of February to provide further support for community energy schemes.

Brian Gibbons: Your reply touched on the two issues that I wanted to follow up. One of the projects to which you referred is in my constituency, in the upper Afan valley, which is being taken forward by Nadia Bogdan and the upper Afan forum. It is an encouraging project and I very much look forward to the outcome. You mentioned planning, and, with regard to renewable energy development in Wales, planning is frequently cited as one of the bottlenecks in the system. How do the announcements that you are planning to make contribute to addressing that concern?

Jane Davidson: One of the critical issues is to ensure that planning authorities themselves undertake an assessment of their potential for renewable energy, and use that as part of the

Byddaf yn rhoi'r ateb yn y Llyfrgell i'r Aelodau ei weld.

Y Llywydd: Gallech hefyd ei roi ar y rhyngwyd. Mae 'yn y Llyfrgell' yn ymadrodd San Steffan, Ddirprwy Weinidog.

Jocelyn Davies: Os byddaf yn derbyn copi electronig, byddaf yn ei roi ar y rhyngwyd.

Y Llywydd: Diolch, Ddirprwy Weinidog.

Question 4, OAQ(3)1527(ESH), was transferred for written answer.

Question 5, OAQ(3)1542(ESH), is withdrawn.

Community Energy Projects

6. Brian Gibbons: *What is the Minister doing to promote the uptake of community energy projects in Wales. OAQ(3)1558(ESH)*

Jane Davidson: Mae grwpiau cymunedol yn cael cefnogaeth gan raglen Ynni'r Fro Llywodraeth Cynulliad Cymru, sydd wedi derbyn 141 cais hyd yma am gymorth ar gyfer prosiectau ledled Cymru. Byddwn yn cyhoeddi fersiwn diwygiedig o 'Polisi Cynllunio Cymru' erbyn diwedd mis Chwefror i roi cefnogaeth bellach i gynlluniau ynni cymunedol.

Brian Gibbons: Mae eich ateb yn cyffwrdd â dau fater yr oeddwn am eu crybwyll. Mae un o'r prosiectau y sonioch amdano yn fy etholaeth, yn rhan uchaf cwm Afan, sy'n cael ei ddatblygu gan Nadia Bogdan a fforwm Afan uchaf. Mae'n brosiect calonogol ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at y canlyniad. Sonioch am gynllunio; o ran datblygu ynni adnewyddadwy yng Nghymru, mae cynllunio yn aml yn cael ei grybwyll fel un o'r tagfeydd yn y system. Sut fydd y cyhoeddiadau rydych yn bwriadu eu gwneud yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r pryder hwnnw?

Jane Davidson: Mae'n allweddol sicrhau bod awdurdodau cynllunio yn cynnal asesiad o'u potensial ar gyfer ynni adnewyddadwy, ac yn ei ddefnyddio fel rhan o'r sail

evidence base for their local development plans. We intend to announce that it will be necessary for planning authorities to plan positively for renewable energy, and, therefore, to put in place the appropriate assessment of the potential for renewable energy in their own areas. Regarding the project that you referred to in the upper Afan valley, the upper Afan forum successfully applied for Ynni'r Fro funding for a scoping report into the potential for hydroelectricity in the area, and, in Ynni'r Fro, we have this money that enables people to start right at the beginning of a process and apply for funding for such scoping reports. I had a meeting this morning with the British Hydropower Association and it was really interested in how active we were in supporting the development of hydropower in Wales.

Angela Burns: I seek some clarification, Minister. I was at a meeting last week where a member of your Government said that installing hydropower solutions in Wales will be difficult because we do not have control of our own water, and have to ensure that we do not do anything that impacts on any rivers that flow into England or contribute to any reservoirs. I notice that the Environment Agency's report on the possibility of small-scale hydroelectricity opportunities lists some 4,000 win-win situations throughout England and Wales, and I wanted to know how much further you had looked into the feasibility of some of those. It is of great interest to organisations such as Whitland Renewable Energy Group, which is very keen to look at hydropower, and to think that we may not be able to do it because we do not control our water is off-putting.

Jane Davidson: The majority of hydropower schemes that are likely to come through at community level will be high-head schemes in streams and small rivers rather than large rivers or reservoirs, which tend to have the low-head schemes installed. Working closely with the Minister for Rural Affairs, we have commissioned a review of the regulatory requirements for small-scale renewable energy generation, particularly hydro projects, involving the Environment Agency, the Countryside Council for Wales, and the

dystiolaeth ar gyfer eu cynlluniau datblygu lleol. Rydym yn bwriadu cyhoeddi y bydd yn ofynnol i awdurdodau cynllunio gynllunio'n gadarnhaol ar gyfer ynni adnewyddadwy, ac, felly, i roi ar waith yr asesiad priodol o'r potensial ar gyfer ynni adnewyddadwy yn eu hardaloedd. O ran y prosiect y cyfeiriodd ato yn rhan uchaf cwm Afan, gwnaeth fforwm Afan uchaf gais llwyddiannus am gyllid Ynni'r Fro ar gyfer adroddiad cwmpasu am y potensial ar gyfer trydan dŵr yn yr ardal, ac, yn Ynni'r Fro, mae gennym arian sy'n galluogi pobl i gychwyn ar ddechrau'r broses a gwneud cais am arian ar gyfer adroddiadau cwmpasu o'r fath. Cefais gyfarfod y bore yma gyda Chymdeithas Ynni Dŵr Prydain ac roedd gan y gymdeithas ddiddordeb gwirioneddol yn y ffordd weithgar rydym yn cefnogi datblygiad ynni dŵr yng Nghymru.

Angela Burns: Rwy'n chwilio am eglurder, Weinidog. Roeddwn mewn cyfarfod yr wythnos diwethaf pan ddywedodd aelod o'ch Llywodraeth y byddai gosod systemau ynni dŵr yng Nghymru yn anodd oherwydd nad oes gennym reolaeth dros ein dŵr, a rhaid i ni sicrhau nad ydym yn gwneud unrhyw beth sy'n effeithio ar unrhyw afonydd sy'n llifo i Loegr neu'n cyfrannu at unrhyw gronfeydd. Sylwaf fod adroddiad Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfleoedd ar gyfer trydan dŵr ar raddfa fach yn rhestru tua 4,000 posibilrwydd ledled Cymru a Lloegr, ac roeddwn eisiau gwybod faint rydych wedi ymchwilio ymhellach i'r posibilrwydd ar gyfer rhai o'r rheini. Mae o ddiddordeb mawr i sefydliadau megis Grŵp Ynni Adnewyddadwy Hendy-gwyn, sydd yn awyddus iawn i edrych ar ynni dŵr, ac mae meddwl efallai na fyddwn yn gallu ei wneud oherwydd nad ydym yn rheoli ein dŵr ein hunain yn annymunol.

Jane Davidson: Bydd y rhan fwyaf o gynlluniau ynni dŵr sy'n debygol o gael eu cyflwyno ar lefel gymunedol yn gynlluniau cwmp uchel mewn nentydd ac afonydd bach, yn hytrach nag afonydd mawr neu gronfeydd dŵr, sy'n tueddu i gael cynlluniau cwmp isel. Gan weithio'n agos gyda'r Gweinidog dros Faterion Gwledig, rydym wedi comisiynu adolygiad o'r gofynion rheoleiddio ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa fach, yn enwedig prosiectau ynni dŵr, gydag Asiantaeth yr

Forestry Commission, to look at how we can lift barriers. I recently launched 'Hydropower: a guide for you and your community', which was jointly commissioned by the Assembly Government, the Department for Energy and Climate Change, the Environment Agency and the Energy Saving Trust. There is a big incentive through feed-in tariffs at the moment. We know that the UK Government will review them, and, like me, you will want to ensure that everyone in Wales has an opportunity in the window before the tariffs are reviewed to ensure that there is the greatest possible incentive for any community scheme.

Bethan Jenkins: I was recently on a panel organised by National Energy Action on fuel poverty, and we had representations from a small windfarm in Pontardawe. My question is about how communities can benefit from these small energy projects. We hear a lot about the large windfarms run by multinational corporations, and that they do not give much back to communities. Could you expand on what these local projects could give back to communities, so that they can encourage more people to set up their own companies, and see the benefits in their everyday lives?

Jane Davidson: Our Ynni'r Fro programme, which has some £15 million of funding, is about exactly that: communities developing wind or hydro projects, as the two primary technologies, and looking at ways for these projects to bring back major income to the community using the feed-in tariffs. These are absolutely win-win situations, and there is substantial income there. As I said in response to Brian, many communities have already put in applications for support to get their bids off the ground, and there is also substantial capital investment that can come into play when the bids reach a final solution. There were some state-aid issues to resolve, but they are now almost completely resolved. We are, therefore, confident that the money that we have put in through Ynni'r Fro and the feed-in tariffs can work alongside each other in an incredibly positive way for communities in Wales.

Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, a'r Comisiwn Coedwigaeth, i edrych ar sut y gallwn ddileu rhwystrau. Yn ddiweddar, lanswyd 'Ynni dŵr: Canllaw ar eich cyfer chi a'ch cymuned', a gomisiynwyd ar y cyd gan Lywodraeth y Cynulliad, yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Mae cymhelliant mawr trwy'r tariffau cyflenwi trydan ar hyn o bryd. Gwyddom y bydd Llywodraeth y DU yn eu hadolygu, ac y byddwch chi, fel fi, am sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael cyfle, cyn i'r tariffau gael eu hadolygu, i sicrhau bod y cymhelliant mwyaf posibl yno ar gyfer unrhyw gynllun cymunedol.

Bethan Jenkins: Yn ddiweddar, roeddwn ar banel a drefnwyd gan National Energy Action ar dlodi tanwydd, a chawsom sylwadau gan fferm wynt fach ym Mhontardawe. Mae fy nghwestiwn yn ymwneud â sut y gall cymunedau elwa o'r prosiectau ynni bach hynny. Rydym yn clywed llawer am y ffermydd gwynt mawr sy'n cael eu rheoli gan gorfforaethau rhyngwladol, nad ydynt yn rhoi llawer yn ôl i gymunedau. A allech ymhelaethu ar yr hyn y gallai'r prosiectau lleol hyn roi yn ôl i gymunedau, fel y gallant annog mwy o bobl i sefydlu eu cwmnïau eu hunain, a gweld y buddion yn eu bywydau bob dydd?

Jane Davidson: Mae ein rhaglen Ynni'r Fro, gyda thua £15 miliwn o gyllid, yn ymwneud â hynny'n union: cymunedau yn datblygu prosiectau gwynt neu ynni dŵr, sef y ddwy brif dechnoleg, ac edrych ar ffyrdd i'r prosiectau hynny ddod ag incwm mawr yn ôl i'r gymuned drwy'r tariffau cyflenwi trydan. Mae'r rhain yn sefyllfaoedd buddiol, ac mae incwm sylweddol yno. Fel y dywedais mewn ymateb i Brian, mae llawer o gymunedau eisoes wedi gwneud ceisiadau am gymorth i ddechrau eu prosiectau, a bydd hefyd buddsoddiad cyfalaf sylweddol ar gael pan fydd cynigion yn cael eu gwireddu. Roedd rhai materion yn ymwneud â chymorth o'r wladwriaeth i'w datrys, ond maent bellach bron wedi'u datrys yn llwyr. Rydym, felly, yn hyderus fod yr arian yr ydym wedi'i roi drwy Ynni'r Fro a'r tariffau cyflenwi trydan yn gallu gweithio ochr yn ochr â'i gilydd mewn ffordd hynod o gadarnhaol i gymunedau yng Nghymru.

2.50 p.m.

Eleanor Burnham: We are all great supporters of community energy projects, but what progress have you alone, or the Government as a whole, made towards your microgeneration heating target of 20,000 units by 2012 and your micro-electricity target of 10,000 units by 2012?

Jane Davidson: It will be for a Minister in 2012 to report back on how targets are being achieved by 2012. It is important to say that, given the amount of investment and support that is coming in from this Assembly Government in developing renewable energy, I hope that every Member in the Chamber ensures that people across Wales take up the advantages, particularly of the feed-in tariff, which is the best and most immediate incentive introduced by the UK Government, which I strongly support.

Effeithlonrwydd Ynni

7. William Graham: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella effeithlonrwydd ynni yng nghartrefi Cymru. OAQ(3)1551(ESH)*

Jane Davidson: The main Assembly Government vehicle for improving energy efficiency in Welsh homes is the home energy efficiency scheme, which has helped over 124,000 households. Other initiatives, such as the Arbed programme and the Welsh housing quality standard, are also making a significant impact in supporting improvements in our housing stock. Our new fuel poverty strategy will come into play at the beginning of April.

William Graham: Thank you for your answer, Minister. You will know that a higher percentage of people in Wales live in pre-1920s accommodation compared with the rest of the United Kingdom. How is the Assembly Government encouraging people who live in older houses, which are often poorly insulated and inefficiently heated, to upgrade their present insulation? You have given some details of one of the schemes, but

Eleanor Burnham: Rydym i gyd yn cefnogi prosiectau ynni cymunedol yn frwd, ond pa gynnydd a wnaed gennych chi yn unig, neu gan y Llywodraeth yn ei chyfanrwydd, tuag at eich targedau, sef cael 20,000 o unedau gwresogi microgynhyrchu erbyn 2012, a 10,000 o unedau microdrydan erbyn 2012?

Jane Davidson: Bydd gofyn i'r Gweinidog yn 2012 adrodd yn ôl ar sut y mae'r targedau'n cael eu cyflawni erbyn 2012. O ystyried lefel y buddsoddiad a'r gefnogaeth a roddir gan Lywodraeth y Cynulliad o ran datblygu ynni adnewyddadwy, mae'n bwysig dweud fy mod yn gobeithio y bydd pob Aelod yn y Siambr yn sicrhau bod pobl ar draws Cymru yn manteisio ar y buddiannau, yn enwedig mewn perthynas â'r tariff cyflenwi trydan, sef y cymhelliant gorau a mwyaf uniongyrchol a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU—cymhelliant yr wyf yn ei gefnogi'n gryf.

Energy Efficiency

7. William Graham: *Will the Minister outline Welsh Assembly Government policies to improve energy efficiency in Welsh homes. OAQ(3)1551(ESH)*

Jane Davidson: Prif gyfrwng Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi yng Nghymru yw'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref, sydd wedi helpu dros 124,000 o aelwydydd. Mae mentrau eraill, fel y rhaglen Arbed a safon ansawdd tai Cymru, hefyd yn cael effaith sylweddol o ran cefnogi gwelliannau yn ein stoc dai. Bydd ein strategaeth tlodi tanwydd newydd yn dod i rym ar ddechrau mis Ebrill.

William Graham: Diolch am eich ateb, Weiniog. Gwyddoch fod canran uwch o bobl yng Nghymru yn byw mewn llety o'r cyfnod cyn y 1920au o gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig. Sut y mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog pobl sy'n byw mewn tai hŷn, sy'n aml wedi'u hinsiwleiddio'n wael ac wedi'u gwresogi'n aneffeithlon, i insiwleiddio eu tai i safon uwch? Rydych wedi rhannu rhai manylion am un o'r

do you not agree that opportunities exist for businesses in Wales to capitalise on the expertise required in providing insulation for older houses and to develop products that could be marketed further afield?

Jane Davidson: One way in which the Assembly Government's Arbed programme has been such an enormous success is that it is not only working in the lower super-output areas, the 15 per cent most deprived areas in our regeneration areas, and using renewable technologies and looking at issues such as external solution, where appropriate, which previous cavity wall insulation schemes did not cover, but also developing the Welsh supply chain. That is crucial in how we move forward. In addition, somewhere in every Arbed scheme is a Welsh company. There are also greater opportunities in the new fuel poverty strategy for there to be local supply chains, because the contract requires the scheme manager to develop local supply chains and to open up opportunities for small and medium-sized enterprises, including social enterprises, to bid for work arising from the programme.

Val Lloyd: Minister, many of my constituents have benefited from HEES, but given that it will not be accepting applications after 18 February, it is important that information regarding the new scheme is known. I note that there is yet no available information regarding the eligibility criteria—I hope that I have not missed it somewhere—so could you tell me when we can expect to learn of the precise qualifying criteria, as well as the application process?

Jane Davidson: We have been working closely with partners on managing the transition between HEES and the new fuel poverty strategy starting at the beginning of April. I will be making an announcement in support of the launch of the scheme very shortly. Therefore, I will be giving Members information as soon as possible.

cynlluniau sy'n bodoli, ond onid ydych yn cytuno bod cyfleoedd ar gael i fusnesau yng Nghymru fanteisio ar yr arbenigedd sy'n ofynnol o ran inswleiddio tai hŷn, ac i ddatblygu nwyddau y gellid eu marchnata ymhellach i ffwrdd?

Jane Davidson: Un ffordd y mae rhaglen Arbed Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn gymaint o lwyddiant yw ei bod nid yn unig yn gweithio yn yr ardaloedd cynnyrch ehangach haen is, sef y 15 y cant o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig o fewn ei hardaloedd adfywio, ac yn defnyddio technolegau adnewyddadwy ac yn edrych ar faterion fel atebion allanol, lle bo'n briodol, sef materion nad oedd cynlluniau blaenorol ar gyfer waliau ceudod yn eu cwmpasu, ond ei bod hefyd yn datblygu'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru. Mae hynny'n hanfodol o ran y modd y byddwn yn symud ymlaen. Yn ogystal, mae pob cynllun Arbed yn cynnwys cwmni Cymreig yn rhywle. Mae'r strategaeth tloidi tanwydd newydd yn cynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer cael cadwyni cyflenwi lleol, gan fod y contract yn ei gwneud yn ofynnol i reolwr y cynllun ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol a chynnig cyfleoedd i fentrau bach a chanolig eu maint, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, wneud ceisiadau ar gyfer gwaith sy'n codi o ganlyniad i'r rhaglen.

Val Lloyd: Weinidog, mae llawer o'm hetholwyr wedi elwa o'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref, ond o ystyried y ffaith na fydd ceisiadau'n cael eu derbyn ar ôl 18 Chwefror, mae'n bwysig bod gwybodaeth ar gael am y cynllun newydd. Nodaf nad oes unrhyw wybodaeth ar gael am y meini prawf cymhwysedd hyd yn hyn—gobeithiaf nad wyf wedi methu'r wybodaeth hon rhywsut. Felly, a allwch ddweud wrthyf ba bryd y gallwn ddisgwyl gwybodaeth am y meini prawf cymhwysedd penodol hyn, yn ogystal â'r broses o wneud cais?

Jane Davidson: Rydym wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid ar reoli'r cyfnod pontio rhwng y cynllun HEES a'r strategaeth tloidi tanwydd newydd a fydd yn cychwyn ar ddechrau mis Ebrill. Byddaf yn gwneud cyhoeddiad i gefnogi lansiad y cynllun yn fuan iawn. Felly, byddaf yn rhoi gwybodaeth i Aelodau cyn gynted â phosibl.

Gareth Jones: Mae fy nghwestiwn yn deillio o'ch ymateb i gwestiwn William Graham. A allwch ymhelaethu ychydig mwy ar hynny, Weinidog, a dweud wrthym ba fanteision economaidd fydd yn deillio o'r rhaglen o fesurau ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni o fewn cartrefi Cymru?

Jane Davidson: The economic impact assessment of the new fuel poverty scheme suggests that our investment in the scheme over the next five years will result in over £380 million-worth of benefits for Wales. Those benefits include energy bill savings, the economic value of reduced greenhouse gas emissions and improved local air quality, as well as the business opportunities. As I said in a response a few moments ago, the fact that we are requiring local supply chains and opening up opportunities for SMEs, which, I know, has been very dear to your heart, means that we will further develop the supply chain in Wales and provide local training and employment opportunities as well.

Brian Gibbons: I was at a Cut the Carbon event on Monday, organised by bodies such as the Federation of Master Builders and ConstructionSkills. The challenges of skill levels within the industry were highlighted, not only the lack of skills for things such as solar panels, but also the necessity to upgrade current skills. The example was given of plumbers or electricians who are not adequately trained in energy efficiency seriously damaging the energy efficiency that was built into a house. The Deputy Minister for Science, Innovation and Skills spoke at that meeting. Have you had any discussions with Lesley Griffiths, the Deputy Minister, on this matter so that we will have the necessary skills in construction to maintain an adequate level of energy efficiency in our homes?

Jane Davidson: The Deputy Minister for skills and I have met to discuss broadly the

Gareth Jones: My question emanates from your response to William Graham's question. Can you expand a little more, Minister, and tell us what economic benefits will flow from the programme of measures designed to improve home energy efficiency in Wales?

Jane Davidson: Mae'r asesiad o effaith economaidd y cynllun tiodi tanwydd newydd yn awgrymu y bydd ein buddsoddiad yn y cynllun dros y pum mlynedd nesaf yn arwain at fudd-daliadau o dros £380 miliwn i Gymru. Bydd y buddion hyn yn cynnwys arbedion ar filiau ynni, y gwerth economaidd a fydd yn deillio o gwtogi allyriadau nwyon tŷ gwydr a chael ansawdd aer lleol gwell, yn ogystal â chyfleoedd busnes. Fel y dywedais wrth ateb cwestiwn ychydig funudau yn ôl, mae'r ffaith ein bod yn ei gwneud yn ofynnol bod cadwyni cyflenwi lleol yn bodoli ac yn creu cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig—mater y gwn ei fod yn agos at eich calon—yn golygu y byddwn yn datblygu'r gadwyn gyflenwi ymhellach yng Nghymru ac yn darparu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth lleol.

Brian Gibbons: Roeddwn yn bresennol mewn digwyddiad *Cut the Carbon* ddydd Llun, sef digwyddiad a drefnwyd gan gyrff fel Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr a SgiliauAdeiladu. Tynnwyd sylw at heriau sy'n ymwneud â lefelau sgiliau o fewn y diwydiant—nid yn unig y diffyg sgiliau ar gyfer pethau fel paneli solar, ond yr angen hefyd i uwchraddio sgiliau presennol. Rhoddwyd yr enghraifft o blymeriaid neu drydanwyr nad ydynt wedi'u hyfforddi'n ddigonol ym maes effeithlonrwydd ynni, a'r ffaith bod hynny'n achosi difrod difrifol i'r effeithlonrwydd ynni a ymgorfforwyd i mewn i adeiladwaith tŷ. Siaradodd y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau yn ystod y cyfarfod hwnnw. A ydych chi wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Lesley Griffiths, y Dirprwy Weinidog, ar y mater hwn, er mwyn sicrhau y bydd gennym y sgiliau adeiladu sydd eu hangen i gynnal lefel ddigonol o effeithlonrwydd ynni yn ein cartrefi?

Jane Davidson: Mae'r Dirprwy Weinidog dros sgiliau a minnau wedi cwrdd i drafod yn

skills needs of the whole of my portfolio, and there are ongoing discussions between our departments as well as between us in the context of specific skills needs in the construction industry. You mentioned plumbers; the Assembly Government has been unique in developing a microgeneration support network to enable installers of the new technologies to get accreditation through the microgeneration certification scheme; they need such accreditation before the recipients can benefit from feed-in tariffs. We have supported that network by using a soft-loan mechanism to train up the installers to get the appropriate accreditation; I will be announcing the full figures for that in March. However, looking at where we are now, there has been a massive increase, for example, in the number of accredited installers for photovoltaics—it is up to 59—and in the number of solar thermal installers, which is up to 33. These numbers were very small when we started this process. We now have installers in Wales for everything apart from micro combined heat and power. We want to be able to build on the expertise of these installers to train others behind them, so that we can really benefit from the renewable technologies that are making our homes energy efficient.

Rhestrau Aros Tai Cymdeithasol

8. Jenny Randerson: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer yr aelwydydd yng Nghymru sydd ar restrau aros tai cymdeithasol. OAQ(3)1528(ESH)*

Jocelyn Davies: Statistics regarding households on social housing waiting lists are not collected by the Welsh Government. However, we have prioritised increasing the supply of affordable housing and exceeded our 6,500 target one year ahead of schedule. This should contribute towards easing pressure on waiting lists. Last year, we commissioned a report on housing needs in Wales, which I will be happy to send to you.

Jenny Randerson: As more social houses

fras anghenion sgiliau fy mhortffolio yn ei gyfanrwydd, ac mae trafodaethau ar y gweill rhwng ein hadrannau, yn ogystal â thrafodaethau rhyngom ni, yng nghyd-destun anghenion sgiliau penodol yn y diwydiant adeiladu. Soniasoch am blymeriaid; mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn unigryw o ran datblygu rhwydwaith cymorth microgynhyrchu i alluogi gosodwyr y technolegau newydd hyn gael achrediad drwy'r cynllun ardystio microgynhyrchu; mae angen achrediad o'r fath arnynt cyn y gall derbynwyr elwa o'r tariff cyflenwi trydan. Rydym wedi cefnogi'r rhwydwaith hwn drwy ddefnyddio mecanwaith benthyciadau meddal ar gyfer hyfforddi gosodwyr er mwyn iddynt gael yr achrediad priodol; byddaf yn cyhoeddi'r ffigurau llawn ar gyfer y cynllun hwn ym mis Mawrth. Fodd bynnag, gan ystyried ble yr ydym yn awr, bu cynnydd aruthrol, er enghraifft, yn nifer y gosodwyr achrededig ar gyfer systemau ffotofoltäig—mae'r rhif hwn wedi cynyddu i 59—a bu cynnydd hefyd yn nifer y gosodwyr ar gyfer systemau solar thermol i 33. Roed y niferoedd hyn yn isel iawn pan ddechreuwyd y broses hon. Erbyn hyn, mae gennym osodwyr yng Nghymru ar gyfer popeth ar wahân i wres a phŵer cyfunol micro. Hoffwn ddefnyddio arbenigedd y gosodwyr hyn er mwyn hyfforddi gosodwyr eraill, fel y gallwn elwa o'r technolegau adnewyddadwy sy'n gwneud ein cartrefi'n ynni-effeithlon.

Social Housing Waiting Lists

8. Jenny Randerson: *Will the Minister make a statement on the number of households in Wales on social housing waiting lists. OAQ(3)1528(ESH)*

Jocelyn Davies: Nid yw Llywodraeth Cymru'n casglu ystadegau ar aelwydydd sydd ar restrau aros am dai cymdeithasol. Fodd bynnag, rydym wedi blaenoriaethu ymdrechion i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy, ac rydym wedi rhagori ar ein targed o 6,500, a hynny flwyddyn yn gynt na'r disgwyl. Dylai hyn gyfrannu tuag at leddfu'r pwysau ar restrau aros. Y llynedd, comisiynwyd adroddiad gennym ar anghenion tai yng Nghymru, a byddaf yn hapus i anfon yr adroddiad hwn atoch.

Jenny Randerson: Wrth i ragor o dai

are built, the importance of good relations between tenants and housing associations becomes greater and greater. Therefore, I approve of, and appreciate, the measures taken in relation to tenant participation panels. Members of those panels have received training on what they can expect. What guidelines have you issued on how those panels should be run, and who should chair those panels? I have heard serious criticism levelled at the way in which some housing associations run their tenant participation panels, with meetings chaired by senior members of staff of the housing association rather than by tenants themselves.

Jocelyn Davies: Thank you for bringing that to my attention. You are quite correct that the relationship between the tenant and the housing association is vitally important, because the reason why housing associations exist is to provide services and homes to the tenants. The tenants are the important ones in the relationship. We have two national organisations—the Tenant Participation Advisory Service and the Tenants Federation—that are core funded by the Assembly Government.

3.00 p.m.

bynnag, mae llawer ohonynt yn wynebu heriau sylweddol.

Er bod yr adroddiad yn hwyl, mae'n cyfeirio at ardaloedd lle mae gennym ddarpariaeth anghyson yng Nghymru. Mae rhai pobl ifanc yng Nghymru yn hynod o ffodus o ran yr hyn y mae ganddynt fynediad ato, ond mae eraill yn llai ffodus. Mae gennym ddarpariaeth anghyson; mae gennym anawsterau o ran mynediad a thrafnidiaeth; ac mae anawsterau o ran canfyddiad ymhlith y plant a'r bobl ifanc nad ydynt, am ba reswm bynnag, am ddefnyddio'r cyfleusterau lleol. Pan gymerasom dystiolaeth, roedd yn amlwg bod y rhan fwyaf o bryderon pobl ifanc yn ymwneud â'r posibilrwydd o gael eu bwlio a gweld plant hŷn ac oedolion efallai yn yfed neu'n cymryd cyffuriau. Roedd y canfyddiad hwnnw o'r ffordd y mae ein mannau awyr agored wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf yn rhwystr sylweddol.

Fodd bynnag, mae cyfleoedd mawr os llwyddwn i wella'r sefyllfa. Dros nifer o flynyddoedd, galledd weld sefyllfa lle mae annibyniaeth a hyder ein pobl ifanc yn gwella. Rydym yn byw mewn cymdeithas sydd wedi mynd yn hynod wrth-risg, ac rydym yn gweld ac yn clywed am sut erchyllterau y bydd rhieni a phobl ifanc, yn naturiol, bron na theimlant yn gaeth yn eu cartrefi oherwydd eu bod yn teimlo'n ansicr am y byd tu allan. Rhaid goresgyn hynny drwy ymdrech benderfynol ar ran y Llywodraeth i sicrhau bod gennym fannau diogel a phleserus i blant chwarae ynddynt.

Rwyf am godi dau fater penodol. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r system gynllunio y cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog ati yn ei araith. Bydd y ffordd yr ydym yn cynllunio ein tai, ein trefi a'n pentrefi yn y dyfodol yn hanfodol i'r ffordd yr ydym yn rheoli ein mannau agored. Mae angen inni ddechrau edrych ar y tir, nid yn unig o safbwynt y gwerth i ni o'i werthu i roi tai yno, ond hefyd y gwerth a geir o'r hyn y gallwn ei wneud gydag ef i ddatblygu ac annog ein pobl ifanc. Mae angen i ni edrych ar ble y gallwn ddarparu'r tai hynny ar raddfa fawr yn y dyfodol, a sicrhau bod gennym fannau iawn y gellir eu rheoli. Mae'r gwaith y mae Dai Lloyd wedi ei wneud ar amddiffyn ein caeau chwarae yn anfon y neges gywir er mwyn

that children and young people need.

We also need to engage with the third sector. At lunchtime, I co-hosted an event with Helen Mary Jones, Lynne Neagle and Eleanor Burnham for Clybiau Plant Cymru. It supports thousands of after-school places in Wales, where pupils have the opportunity to play to develop positive messages about health and wellbeing. It demonstrated how successful it had been in improving the understanding of children and young people regarding nutritional expectations and how to improve their physical fitness levels; it was extremely innovative and encouraging. We have to develop that relationship with the third sector if we are to reach those parts of Wales that we have not yet been able to reach.

I hope that the Assembly Government will implement these recommendations, as it needs to demonstrate to the children of Wales that we value the role that they have played in the making of this report and the recommendations that we concluded.

Joyce Watson: I welcome the opportunity to debate this important report. I also thank the committee clerks and their staff, who have done incredible work. I pay tribute most of all to the young children who took time to meet us to give us their message. I also thank their teachers and support staff in schools, who empowered those young children to speak to us on an equal footing in a way that allowed that to happen. I just wanted to put that on the record at the beginning of my contribution.

The Welsh Assembly Government places great value on play and its importance in the lives of children across Wales. Its commitment to this agenda is clear, and there is no better example than my region, which has seen the recent opening of the youth centres in Llandrindod Wells and Milford Haven, both of which received considerable Assembly Government funding.

As a member of the committee looking at the provision of safe places to play, it was firmly recognised that the participation of young people in the decision-making process was

darparu'r manau agored y mae eu hangen ar blant a phobl ifanc.

Rhaid i ni hefyd ymgysylltu â'r trydydd sector. Amser cinio, cynhaliais ddigwyddiad ar y cyd â Helen Mary Jones, Lynne Neagle ac Eleanor Burnham ar gyfer Clybiau Plant Cymru. Mae'n cefnogi miloedd o leoedd ar ôl yr ysgol yng Nghymru, lle mae disgyblion yn cael cyfle i chwarae i ddatblygu negeseuon cadarnhaol am iechyd a lles. Dangosodd pa mor llwyddiannus yr oedd wedi bod yn gwella dealltwriaeth plant a phobl ifanc o ran disgwyliadau maeth a sut i wella lefelau eu ffitrwydd corfforol; roedd yn hynod arloesol ac yn galonogol. Rhaid i ni ddatblygu'r berthynas â'r trydydd sector os ydym i gyrraedd y rhannau hynny o Gymru nad ydym eto wedi gallu eu cyrraedd.

Gobeithio y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithredu'r argymhellion hyn, gan fod angen dangos i blant Cymru ein bod yn gwerthfawrogi'r rôl y maent wedi ei chwarae wrth unio'r adroddiad hwn a'r argymhellion a gutunwyd gennym.

Joyce Watson: Rwy'n croesawu'r cyfle i drafod yr adroddiad pwysig hwn. Diolchaf innau i glercod y pwyllgor a'u staff, gan eu bod wedi gwneud gwaith anhygoel. Rhoddaf hefyd deyrnged yn bennaf oll i'r plant ifanc a gymerodd amser i gwrdd â ni i roi eu neges. Hoffwn ddiolch hefyd eu hathrawon a staff cynorthwyol yr ysgolion am alluogi'r plant ifanc hynny i siarad â ni ar yr un tir mewn ffordd a oedd yn caniatáu i hynny ddigwydd. Yr oeddwn am roi hynny ar glawr ar ddechrau fy nghyfraniad.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi gwerth mawr ar chwarae a'i bwysigrwydd ym mywydau plant ar draws Cymru. Mae ei hymrwymiad i'r agenda hon yn glir, ac nid oes enghraifft well na fy rhanbarth, lle y gwelwyd agoriad y canolfannau ieuentid yn Llandrindod ac Aberdaugleddau, gyda'r ddwy yn cael gryn gyllid gan Lywodraeth y Cynulliad.

A minnau'n aelod o'r pwyllgor a edrychodd ar y ddarpariaeth o fannau diogel i chwarae ynddynt, cydnabuwyd yn gadarn bod cyfranogiad pobl ifanc yn y broses o wneud

vital. Recommendations 8 and 11 specifically recognise that. It has to be right that children and young people are best placed in directly communicating the obstacles that they face in their daily lives that prevent them from being able to play freely and safely in their communities.

As part of the evidence-gathering process for the report, I had the enormous pleasure of meeting pupils from Ysgol y Bedol in Carmarthenshire to seek their views on what stopped them from going out to play, or facilitated their being able to do so. I also spoke to the pupils of Ysgol Ardudwy in Harlech. Some of what came out of those responses is identified in the committee report, namely that children often felt, as was mentioned earlier, that cars and unsafe parking, along with bullies and a lack of designated places to play, were restricting their play opportunities. I strongly feel that road safety issues, and traffic in particular, must be tackled head on. It is unacceptable that a child who lives in a deprived area is many more times likely to be the victim of a road traffic accident than the national average. Will the Minister reaffirm the Assembly Government's commitment to involve children and young people in the decision-making process when considering those issues? Will the Minister also look at local authorities' provision, according to Welsh Assembly Government guidance on the use of 20 mph zones outside schools, and look at Ceredigion in particular, which has only two designated 20 mph zones and 75 schools?

3.30 p.m.

Eleanor Burnham: Some of us had a wonderfully playful childhood. I was fortunate in that I used to go for miles on my bike on my own. Compared with the average distance that many children go from their front door, which is so restricted, I was a fortunate person. I suppose that on the rural roads that Ieuan Wyn and I have discussed in the past, there were not as many cars, and perhaps they were not travelling as quickly as

penderfyniadau yn hanfodol. Mae argymhellion 8 ac 11 yn benodol yn cydnabod hynny. Rhaid ei bod yn iawn bod plant a phobl ifanc yn y lle gorau i gyfathrebu yn uniongyrchol am y rhwystrau sy'n eu hwynebu bob dydd sy'n eu hatal rhag gallu chwarae'n rhydd ac yn ddiogel yn eu cymunedau.

Fel rhan o'r broses i gasglu tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad, cefais y pleser aruthrol o gyfarfod â disgyblion o Ysgol y Bedol yn sir Gaerfyrddin i geisio eu barn am yr hyn a oedd wedi eu hatal rhag mynd allan i chwarae, neu'r hyn a oedd wedi hwyluso eu gallu i wneud hynny. Siaradais hefyd â disgyblion Ysgol Ardudwy yn Harlech. Mae rhywfaint o'r hyn a ddaeth allan yn yr ymatebion hynny wedi cael ei nodi yn adroddiad y pwyllgor, sef bod plant yn aml yn teimlo, fel y soniwyd yn gynharach, fod ceir a pharcio peryglus, ynghyd â bwllis a diffyg lleoedd dynodedig i chwarae, yn cyfyngu ar eu cyfleoedd i chwarae. Teimlaf yn gryf fod rhaid mynd i'r afael yn uniongyrchol â materion diogelwch ar y ffyrdd, a thraffig yn benodol. Mae'n annerbyniol bod y tebygolrwydd y bydd plentyn sy'n byw mewn ardal ddifreintiedig yn dioddef damwain ar y ffordd yn llawer yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. A wnaiff y Gweinidog ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i gynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau wrth ystyried y materion hynny? A wnaiff y Gweinidog hefyd yn edrych ar ddarpariaeth yr awdurdodau lleol, yn ôl cyfarwyddyd Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch defnyddio parthau 20 mya y tu allan i ysgolion, ac a wnaiff edrych ar Geredigion yn arbennig, sydd â dau barth 20 mya dynodedig a 75 ysgol?

Eleanor Burnham: Cafodd rhai ohonom blentyndod llawn chwarae rhyfeddol. Roeddwn yn ffodus gan yr awn am filltiroedd ar fy meic ar fy mhen fy hun. Un ffodus oeddwn i o gymharu hynny â chyfartaledd y pellter mor gyfyngedig y mae llawer o blant yn mentro o'u drws ffyrnt. Mae'n debyg nad oedd yr un nifer o geir ar y ffyrdd gwledig y mae Ieuan Wyn a minnau wedi eu trafod yn y gorffennol, ac efallai nad oeddent yn teithio

they do now. The Deputy First Minister and I have already discussed this issue—we were in the same place at the same time for some years.

The Presiding Officer: Order. I know where you were—you were in the old Meirionnydd.

Eleanor Burnham: I was therefore a fortunate child, and I worry about the current restrictions, which have been discussed at great length. I was pleased, along with colleagues, to be able to have such an interesting time in investigating these barriers. I would like to thank colleagues and staff, as other Members have done. It was pleasing to see the Australians; that was a fantastically entertaining interlude. I am particularly pleased to see that the report begins with a quote from David Lloyd George no less; what more could one want?

Having spent this year investigating the barriers that exist in our society, I thoroughly agree with the comments that have been made by colleagues, particularly about planning and design, and the management of open spaces. We have a lot to learn from the Europeans. We all travel around these days, and we see street games, for example, in many European towns and city centres. We must emulate some of the best practice that is to be found elsewhere. I believe that this report has challenged our understanding of play. As the Llywydd constantly reminds us, this place belongs to the people of Wales, and we are able to use it as a play area—that is an innovative idea. I wish to say ‘well done’ to our Chair and to everyone who was involved with that.

The report that was published by CHILDWISE yesterday shows that UK children watch an average of more than two and a half hours of television a day, and spend an hour and 50 minutes online a day. In the context of our report, it is frightening to think of all the sitting that some of our children do. As I have already said, some of us were fortunate enough to go out and play and have a lot of exercise. That is one of the reasons for the issues with the health and wellbeing of some of our youngsters, that they spend such a lot of time sitting rather

mor gyflym â cheir heddiw. Mae'r Dirprwy Brif Weinidog a minnau eisoes wedi trafod y mater hwn—roeddem yn yr un lle ar yr un pryd am rai blynyddoedd.

Y Llywydd: Trefn. Rwy'n gwybod ble oeddech chi—yn yr hen Feirionnydd.

Eleanor Burnham: Plentyn ffodus oeddwn felly, ac yr wyf yn poeni am y cyfyngiadau presennol, sydd wedi cael eu trafod yn helaeth iawn. Roeddwn yn falch, ynghyd â chyd-Aelodau, o gael amser mor ddiddorol yn ymchwilio i'r rhwystrau hyn. Hoffwn ddiolch i gyd-Aelodau a staff, fel y mae Aelodau eraill wedi'i wneud. Roedd yn braf gweld yr Awstraliaid; dyna saib hynod ddifyr. Rwy'n arbennig o falch o weld bod yr adroddiad yn dechrau gyda dyfyniad gan neb llai na David Lloyd George; pa beth yn rhagor a fynnwch?

Wedi treulio eleni yn ymchwilio i'r rhwystrau sy'n bodoli yn ein cymdeithas, yr wyf yn llwyr gytuno â'r sylwadau a wnaed gan gyd-Aelodau, yn enwedig ynghylch cynllunio a dylunio, a rheoli mannau agored. Mae gennym lawer i'w ddysgu gan yr Ewropeaid. Rydym i gyd yn teithio y dyddiau hyn, a gwelwn gemau stryd, er enghraifft, yn llawer o drefi a chanolau dinasoedd Ewrop. Rhaid i ni efelychu rhai o'r arferion gorau sydd i'w gael mewn mannau eraill. Credaf fod yr adroddiad hwn wedi herio ein dealltwriaeth o chwarae. Fel y mae'r Llywydd yn ein hatgoffa yn gyson, mae'r lle hwn yn perthyn i bobl Cymru, a chawn ei ddefnyddio fel maes chwarae—dyna syniad arloesol. Hoffwn ddweud 'da iawn' wrth ein Cadeirydd ac wrth bawb a oedd yn ymwneud â hynny.

Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd ddoe gan CHILDWISE yn dangos bod plant y DU yn gwylio ar gyfartaledd dros ddwy awr a hanner o deledu y dydd, ac yn treulio awr a 50 munud ar-lein y dydd. Yng nghyd-destun ein hadroddiad, mae'n frawychus meddwl am yr holl eistedd y mae rhai o'n plant yn ei wneud. Fel y dywedais eisoes, roedd rhai ohonom yn ddigon ffodus i fynd allan i chwarae a chael llawer o ymarfer corff. Dyna un o'r rhesymau dros y materion parthed iechyd a lles rhai o'n pobl ifanc, sef eu bod yn treulio cymaint o'u hamser yn eistedd yn

than playing. In response to the report, representatives of parents' lobby groups asked whether it is possible, in this day and age, for children to play out in the street on their own. As Helen Mary and others have mentioned, that is difficult in many streets. Joyce mentioned the problems that face children who live in disadvantaged areas, which is an issue. Cars, and parking, are a particular problem, as has been mentioned.

Our report's recommendations have not only raised new issues, but have also shown how important it is that Government policies and strategies are continually reviewed and updated. I know that this is dear to Huw Lewis's heart, and I look forward to hearing his comments. I am delighted that the Government has accepted the great majority of our recommendations. I worry that our media stereotypes people in relation to many of the issues that we have discussed, which does not help. We need to get away from stereotypes and think outside the box, as we have done in this report.

I am particularly pleased about recommendation 5, on road safety, which the Government has accepted. As I mentioned, I was very lucky as a young cyclist. For many young cyclists, it is pretty precarious these days. The delivery of road safety through personal and social education was mentioned earlier, but that is often dependent on the skills and the knowledge of the teachers, and perhaps the time available. I seek an assurance that the Minister is committed to monitoring the delivery of this recommendation.

I wonder about recommendation 19, on the provision of concessionary fares. I realise that it could be costly, and I saw that there was a pilot—I cannot remember exactly where, but I am sure that the Deputy Minister will remind me. I worry that 16 to 18-year-olds are concerned about access to places because of the travel costs. Apart from that, I look forward to the implementation of our recommendations, and I hope that future Governments take a view on the issue of transport costs in particular.

hytrach na chwarae. Yn eu hymateb i'r adroddiad, gofynnodd cynrychiolwyr grwpiau lobio ar ran rhieni a yw'n bosibl, y dyddiau hyn, i blant chwarae allan yn y stryd ar eu pen eu hunain. Fel y mae Helen Mary ac eraill wedi sôn, mae hynny'n anodd mewn llawer o strydoedd. Soniodd Joyce am y problemau sy'n wynebu plant sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, sy'n fater. Mae ceir, a pharcio, yn broblem benodol, fel y soniwyd.

Mae argymhellion ein hadroddiad nid yn unig wedi codi materion newydd, ond hefyd wedi dangos pa mor bwysig ydyw bod polisiau a strategaethau'r Llywodraeth yn cael eu hadolygu'n barhaus a'u diweddarau. Gwn fod hyn yn annwyl i Huw Lewis, ac rwy'n edrych ymlaen at glywed ei sylwadau. Rwyf wrth fy modd bod y Llywodraeth wedi derbyn y mwyafrif mawr o'n hargymhellion. Yr wyf yn poeni bod ein cyfryngau yn stereoteipio pobl o ran llawer o'r materion a drafodwyd gennym, gan nad yw'n helpu. Rhaid i ni symud oddi wrth stereoteipiau ac yn meddwl yn greadigol, fel y gwnaethom yn yr adroddiad hwn.

Rwy'n arbennig o falch o ran argymhelliad 5, ynghylch diogelwch ar y ffyrdd, y mae'r Llywodraeth wedi derbyn. Fel y soniais, roeddwn yn ffodus iawn fel beiciwr ifanc. I lawer o feicwyr ifanc, mae'n eithaf peryglus y dyddiau hyn. Soniwyd am ddarparu diogelwch ar y ffyrdd drwy addysg bersonol a chymdeithasol yn gynharach, ond mae hynny yn aml yn dibynnu ar sgiliau a gwybodaeth yr athrawon, ac efallai'r amser sydd ar gael. Gofynnaf am sicrwydd bod y Gweinidog wedi ymrwymo i fonitro darpariaeth yr argymhelliad hwn.

Mae argymhelliad 19, ar ddarparu tocynnau teithio rhad, yn gwneud i mi feddwl. Rwy'n sylweddoli y gallai fod yn gostus, a gwelais fod cynllun peilot—ni allaf gofio ble yn union, ond yr wyf yn siŵr y bydd y Dirprwy Weinidog yn fy atgoffa. Rwy'n poeni bod y rhai sy'n 16 i 18 oed yn poeni am gyrraedd lleoedd oherwydd y costau teithio. Ar wahân i hynny, rwy'n edrych ymlaen at weithredu ein hargymhellion, ac rwy'n gobeithio y bydd gan Lywodraethau'r dyfodol farn ar y mater o gostau cludiant yn arbennig.

Ann Jones: I thank Helen Mary and the committee for the comprehensive report. I took part as a substitute Member, and I had more than my two-penn'orth to say. I hope that I played my part on behalf of the children and young people in my constituency, and I notice that you took on board what I said about section 106 and planning. There is an important point about developing new estates in such a way that we plan the location of the play areas. As stated in the report, it makes it easier for families to decide which house to purchase—if they are able to purchase properties, given the financial constraints that we are in. However, if we get back to buying houses, then that will be an improvement. Older people will be able to buy a house away from the play area, so that we stop this negative stereotyping of kids always banging balls against walls. Designating play areas is the way forward, and local authorities can do a lot more on section 106 applications in that area.

I wanted to talk about the fact that the committee came out of Cardiff and visited Rhyl, and the children of Rhyl will forever be indebted to the committee for that. Many of them feel that they are left out, and although many in the Rhyl Adventure Playground Association have visited this Assembly, they go back and say, 'Well, it is a long way away'. However, now they know that the Assembly will work for them. That is because of the people in that play association who try to involve them in issues, and discuss what they would like to see, and how they would like the association to develop. It works, because the children now have structured play and free play in an area that is fairly safe and well-supervised, but at arm's length, which is important. Another group that you took evidence from was the Rhyl Youth Action Group, which has about a 1,000 children connected by e-mail, Facebook and whatever else. They are from some of the most disadvantaged communities, and they have a say in how they run their organisation.

You could not come to Rhyl and not talk about the football club and its work with

Ann Jones: Diolch i Helen Mary a'r pwyllgor am yr adroddiad cynhwysfawr. Cymerais ran yn lle Aelod arall, ac roedd gennyf fwy na'm dwy geiniogwerth i'w ddweud. Gobeithio fy mod wedi chwarae fy rhan ar ran y plant a phobl ifanc yn fy etholaeth i, ac yr wyf yn gweld eich bod wedi nodi'r hyn a ddywedais am adran 106 a chynllunio. Mae pwynt pwysig ynglŷn â datblygu ystadau newydd yn y fath fodd yr ydym yn cynllunio lleoliad y mannau chwarae. Fel y nodwyd yn yr adroddiad, mae'n ei gwneud yn haws i deuluoedd benderfynu pa dŷ i'w brynu—os ydynt yn gallu prynu rhywle, o ystyried y cyfyngiadau ariannol sydd arnom. Fodd bynnag, os gwelwn brynu tai eto, bydd hynny'n welliant. Bydd pobl hŷn yn gallu prynu tŷ i ffwrdd o'r man chwarae, fel ein bod yn rhoi stop ar y stereoteipio negyddol o blant yn taro peli yn erbyn waliau drwy'r amser. Dynodi ardaloedd chwarae yw'r ffordd ymlaen, a gall awdurdodau lleol wneud llawer mwy o ran ceisiadau adran 106 yn hynny o beth.

Roeddwn i am siarad am y ffaith i'r pwyllgor fynd o Gaerdydd ac ymweld â'r Rhyl, a bydd plant y Rhyl yn ddyledus i'r pwyllgor am byth am hynny. Mae llawer ohonynt yn teimlo eu bod yn cael eu gadael allan, ac er bod llawer yng Nghymdeithas Meysydd Chwarae Antur y Rhyl wedi ymweld â'r Cynulliad, maent yn mynd yn ôl a dweud, 'Wel, mae'n bell oddi yma'. Fodd bynnag, maent yn gwybod bellach y bydd y Cynulliad yn gweithio ar eu cyfer. Mae hynny oherwydd y bobl yn y gymdeithas chwarae honno sy'n ceisio eu cynnwys mewn materion gan drafod yr hyn yr hoffent ei weld a pha fodd y byddent yn hoffi i'r gymdeithas ddatblygu. Mae'n gweithio, am fod y plant yn awr yn cael chwarae strwythuredig a chwarae rhydd mewn ardal sydd yn weddol ddiogel ac sydd dan oruchwyliaeth dda, ond eto ar hyd braich, sy'n bwysig. Grŵp arall y cymerasoch dystiolaeth ganddo oedd Grŵp Gweithredu Ieuenctid y Rhyl, sydd â thua 1,000 o blant yn gysylltiedig drwy e-bost, Facebook a beth bynnag y bo. Maent yn dod o rai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig, ac mae ganddynt lais yn y ffordd maent yn rhedeg eu sefydliad.

Ni allech ddod i'r Rhyl a pheidio â siarad am y clwb pêl-droed a'i waith gyda phlant drwy

children through its academy, and the way that it gets young people involved. It has a fantastic mascot scheme whereby they are involved in the match day and are treated properly, as grown-ups. They thoroughly enjoy it. So, there is a lot happening in Rhyl.

I want to touch briefly, if I may, on issues where local authorities could serve children better than at present. They could go to associations like the Rhyl Youth Action Group, or the Rhyl Adventure Playground Association, and talk to these people about what they can do with their budgets. I was interested to hear the views of disabled children, and we have to listen to them about what they want. I would have thought that they would all want to be included, but there is an issue about them wanting separate play, so that they do not feel that they are different. We have to listen, and if it fits in one area but not another, then we should be brave enough to tailor services to them, or to others.

I feel that Helen Mary and the committee have done a great service to young people and I think that this report will stand for many years to come. It will make local authorities and other agencies sit up and listen to what young people really want for their areas. I thank you for the work that you have done.

3.40 p.m.

Andrew R.T. Davies: I welcome the opportunity to speak on this report. I was not a committee member, but, as a parent of four children, when I saw the title, I was instantly led into reading more of the report, particularly its recommendations. The foreword alone shows the extent of the work that the committee undertook; it took evidence from 1,200 children, which is no mean feat in any country, but in a country the size of Wales, taking such a vast amount of evidence really provides a good cross-section of the views that are out there.

It is vital that we have a co-ordinated approach to play and places to hang out for the benefit of social inclusion. I represent

ei academi, a'r ffordd y mae'n gwneud pobl ifanc yn rhan o bethau. Mae ganddo gynllun masgotiaid gwych lle maent yn cymryd rhan ar ddydd y gêm ac yn cael eu trin yn briodol, fel oedolion. Maent yn mwynhau y tu hwnt. Felly, mae llawer iawn yn digwydd yn y Rhyl.

Rwyf a, grybwyll yn fyr, os caf, faterion lle y gallai awdurdodau lleol wasanaethu plant yn well nag y maent ar hyn o bryd. Gallent fynd i gymdeithasau fel Grŵp Gweithredu Ieuenctid y Rhyl, neu Gymdeithas Meysydd Chwarae Antur y Rhyl, a siarad â'r bobl hyn am yr hyn y gallant ei wneud gyda'u cyllidebau. Roedd yn ddiddorol gennyf glywed barn plant anabl, a rhaid i ni wrando arnynt ynghylch yr hyn y mae ei eisiau arnynt. Byddwn wedi meddwl y byddai pob un am gael ei gynnwys, ond mae problem yn eu cylch parthed chwarae ar wahân, fel nad ydynt yn teimlo eu bod yn wahanol. Mae'n rhaid i ni wrando, ac os yw'n ffitio yn y naill ardal ond nid yn y llall, yna dylem fod yn ddigon dewr i deilwra gwasanaethau iddynt, neu i bobl eraill.

Rwy'n teimlo bod Helen Mary a'r pwyllgor wedi gwneud cymwynas wych â phobl ifanc a chredaf y bydd yr adroddiad hwn yn sefyll am flynyddoedd lawer i ddod. Bydd yn peri i awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill godi ar eu heistedd a gwranddo ar yr hyn y mae ar bobl ifanc ei eisiau yn eu hardaloedd. Diolch i chi am y gwaith yr ydych wedi ei wneud.

Andrew R.T. Davies: Croesawaf y cyfle i siarad am yr adroddiad hwn. Nid oeddwn yn aelod o'r pwyllgor, ond, fel rhiant i bedwar o blant, pan welais y teitl, cefais fy arwain yn syth i ddarllen mwy o'r adroddiad, yn enwedig ei argymhellion. Mae'r rhagair ei hun yn dangos maint y gwaith y bu i'r pwyllgor ymgymryd ag ef; cymerodd dystiolaeth gan 1,200 o blant, sy'n dipyn o gamp mewn unrhyw wlad, ond mewn gwlad o faint Cymru, mae cymryd y fath swm o dystiolaeth yn darparu trawstoriad da o'r safbwyntiau sydd i'w cael.

Mae'n hanfodol bod gennym agwedd gyd-drefnus tuag at chwarae a llefydd i gymdeithasu er budd cynhwysiad

South Wales Central, which probably has a more diverse ethnic mix than any other part of Wales. If young people can mix socially, then social inclusion begins at that young age, along with an understanding of the needs of others within the community. I want to touch on a few of the recommendations, because having 26 recommendations is extensive, to say the least. Someone, like me, who prefers a lighter touch may think that a few of these recommendations are somewhat intrusive, but I appreciate that that is my own view.

First, I would like to touch on the recommendation about planning, which has been touched on a little by other Members, given that, in the next couple of months, many of us will be going around delivering leaflets and all sorts of paraphernalia to housing estates. If you look at many of the modern estates, you will see that there seems to be a lack of thought being put into the provision of play and community spaces. In every estate that I seem to go to, the roads seem to get increasingly smaller, yet the number of cars that each house has seems to increase. Therefore, the area that people have to meet, congregate and socialise is greatly condensed into an ever decreasing area. A lot of that is also down to the value of the land, given that developers pay so much for it. I appreciate that the Deputy Minister in his response touched on various Welsh Assembly Government guidance and technical advice notes that go to planning authorities, but it still concerns me that housing density per acre in recent years has greatly increased, which therefore means that you are cutting down on the areas designated for recreation and play for young people.

The 106 agreements, which are a tool that many local authorities are increasingly using to extract assets and money from developers, are a useful tool to try to create those community facilities. However, I would also like to see some legacy funding, because it is all well and good putting these recreational areas in place, but the maintenance of those areas is also of critical importance as we go forward. For example, I own a farm in the

cymdeithasol. Rwy'n cynrychioli Canol De Cymru, sydd, yn ôl pob tebyg, yn cynnwys cymysgedd ethnig fwy amrywiol nag unrhyw ran arall o Gymru. Os gall pobl ifanc gymysgu'n gymdeithasol, yna mae cynhwysiant cymdeithasol yn dechrau yn ifanc iawn, ynghyd â dealltwriaeth o anghenion pobl eraill o fewn y gymuned. Hoffwn grybwyll ychydig o'r argymhellion, oherwydd mae 26 argymhelliad yn swm helaeth, a dweud y lleiaf. Efallai y bydd rhywun, fel fi, sy'n well ganddynt ddynesiad ysgafnach yn credu bod rhai o'r argymhellion hyn braidd yn ymwithiol, ond sylweddolaf mai safbwynt personol yw hynny.

Yn gyntaf, hoffwn sôn am yr argymhelliad ynghylch cynllunio, sydd wedi ei grybwyll ychydig gan Aelodau eraill, o gofio y bydd nifer ohonom, dros yr ychydig fisoedd nesaf, yn mynd o gwmpas yn dosbarthu taflenni a phob math o geriach i ystadau tai. Os edrychwch ar nifer o'r ystadau modern, fe welwch yr ymddengys bod diffyg ystyriaeth o ran darpariaeth manau chwarae a chymunedol. Ym mhob ystâd rwyf yn mynd iddo, fe ymddengys bod y ffyrdd yn mynd yn gynyddol lai, er bod nifer y ceir sydd gan bob tŷ yn cynyddu. Felly, mae'r ardal sydd gan bobl i gwrdd, ymgynnull a chymdeithasu yn cael ei grynhoi i mewn i ardal sy'n raddol leihau. Mae llawer o hynny hefyd fel canlyniad i werth y tir, o gofio bod datblygwyr yn talu cymaint amdano. Rwy'n sylweddoli i'r Dirprwy Weinidog grybwyll yn ei ymateb yr amrywiol ganllawiau a nodiadau cyngor technegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n mynd i awdurdodau cynllunio, ond mae'n dal i'm mhoeni bod dwysedd tai yr erw yn y blynyddoedd diwethaf wedi cynyddu'n fawr, sydd felly'n golygu eich bod yn torri i lawr ar yr ardaloedd dynodedig ar gyfer hamdden a chwarae ar gyfer pobl ifanc.

Mae cytundebau adran 106, sy'n arf y mae nifer o awdurdodau lleol yn defnyddio'n gynyddol i dynnu asedau ac arian oddi wrth ddatblygwyr, yn arf defnyddiol i geisio creu rhai cyfleusterau cymunedol. Fodd bynnag, hoffwn hefyd weld rhywfaint o gyllid etifeddiaeth, oherwydd er ei bod yn dda datblygu'r ardaloedd hamdden hyn, mae cynnal a chadw'r ardaloedd hynny hefyd yn bwysig wrth inni symud ymlaen. Er

village of St Nicholas, and we have had instances of children coming up from Ely and going onto the land and into sheds, causing a few problems. When I have spoken to those children, they have told me that the areas where they would normally hang out are being wrecked by 'the big kids'. It is regrettable that communities give into social exclusion and do not fight harder for our community assets. There is scope, therefore, when section 106 agreements are developed, to acquire funding not just for the principal set-up costs for community spaces, but also the legacy costs and the maintenance, so that those places can be seen as attractive places for young people to go to and interact with each other.

I would also like to touch on the recommendations around public transport, and in particular recommendation 20. I speak again from personal experience to say that my daughter, who is 17, makes great use of the bus into Cardiff and the Vale of Glamorgan, yet, virtually every time, she ends up having a discussion, shall we say, with a driver over her age. She offers photo identification—a provisional driving licence—but that is not deemed good enough for her to be classed as a child, so she ends up paying the adult rate. She was told that she has to make an application to the local authority to get the pass that the bus company will accept, which, I think, costs around £10 to £15. Surely, if you had an official form of identification, and a provisional licence is a form of photo identification, that would enhance the ability of young people to travel around. A greater understanding by our public transport network of the needs of young people when those facilities are in place for them to access, particularly in rural areas, would be greatly appreciated.

I wholeheartedly agree with the committee's endorsement of the work on intergenerational understanding, in particular with regard to respect for older generations, but also with regard to older generations' understanding of the positive role that so many young people play in our society. One of the key organisations that I have had the privilege

enghraifft, rwy'n berchen ar fferm ym mhentref Sain Nicolas, ac rydym wedi cael achosion o blant yn dod i fyny o Drelái ac yn mynd ar y tir ac i mewn siediau, gan achosi ychydig o broblemau. Pan wyf wedi siarad â'r plant hynny, maent wedi dweud wrthyf bod yr ardaloedd lle y byddent fel arfer yn treulio amser yn cael eu dryllio gan 'y plant mawr'. Mae'n anffodus bod cymunedau yn plygu i allgau cymdeithasol, heb ymladd yn galetach dros ein asedau cymunedol. Mae lle, felly, pan fydd cytundebau adran 106 yn cael eu datblygu, i gael arian nid yn unig ar gyfer y prif gostau sefydlu ar gyfer mannau cymunedol, ond hefyd ar gyfer y costau etifeddiaeth a chynnal a chadw, fel y gall y llefydd hynny gael eu gweld fel llefydd deniadol i bobl ifanc fynd iddynt ac i ryngweithio â'i gilydd.

Byddwn hefyd yn hoffi cyffwrdd â'r argymhellion ynghylch trafndiaeth gyhoeddus, ac argymhelliad 20 yn arbennig. Rwyf yn siarad eto o brofiad personol wrth ddweud bod fy merch, sy'n 17, yn gwneud defnydd eang o'r bws i mewn i Gaerdydd a Bro Morgannwg, ac eto, bron bob tro, mae hi'n cael trafodaeth, dyweder, gyda'r gyrrwr ynghylch ei hoedran. Mae'n cynnig ffurf ar fodd adnabod—trwydded yrru dros dro—ond ni ystyrir hynny'n ddigon da iddi gael ei hystyried yn blentyn, felly mae'n gorfod talu ar gyfer tocyn oedolyn. Dywedwyd wrthi fod yn rhaid iddi wneud cais i'r awdurdod lleol am docyn y bydd y cwmni bws yn gallu'i dderbyn, sy'n costio, mi gredaf, tua £10 i £15. Siawns y byddai cyflwyno ffurf swyddogol ar fodd adnabod, ac mae trwydded yrru dros dro yn ffurf ar fodd adnabod llun, yn gwella gallu pobl ifanc i deithio. Bydd gwell dealltwriaeth o anghenion pobl ifanc gan ein rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus pan fydd y cyfleusterau hynny yn eu lle er mwyn iddynt gael mynediad, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Cytunaf yn llwyr â chymeradwyaeth y pwyllgor o'r gwaith ar ddealltwriaeth rhwng y cenedlaethau, yn enwedig o ran parchu cenedlaethau hŷn, ond hefyd o ran dealltwriaeth cenedlaethau hŷn o'r rôl gadarnhaol y mae nifer o bobl ifanc yn ei chwarae yn ein cymdeithas. Mae un o'r sefydliadau allweddol rwyf wedi cael y fraint

and pleasure to have been associated with—the young farmers’ movement—encapsulates many of the great dynamics that we would wish to see in young people in our society.

I thank the committee for putting this report together. It encapsulates much good work. The onus is now on the Deputy Minister to implement these recommendations, and I am sure that the spirit with which the Deputy Minister has responded will see those recommendations going forward.

The Deputy Minister for Children (Huw Lewis): I have very much enjoyed this debate on an important area of work, and I thank Members for their contributions. I hope that the responses to the recommendations that have already been made show that the Assembly Government is working across all its policy areas to ensure that children and young people are afforded their rights according to the United Nations Convention on the Rights of the Child.

I now turn to some of the specific points raised during the debate. Andrew is quite right to mention the importance of inter-generational work and Joyce is perfectly right to underscore the importance of the involvement of children and young people. We will keep that at the forefront of our work and our minds. Eleanor touched upon road safety, which is not only an area of concern because of the health and safety aspects of these issues, but as an issue of social justice—the deprivation link to road safety problems is clear and stark. Ann is quite right to talk about the central role of planning and how we move forward from here in terms of section 106 and so on. Ann is also correct, as always, to demand that we take notice of the central role of Rhyl in all these issues.

More specifically, points were raised about recommendations 10, 13 and 16 regarding lighting, risk and negative stereotypes. I will take another look at the specific points raised by Helen Mary regarding those recommendations, and I will try to make sure that we are doing all that we can on those points. I will undertake to speak to the Deputy First Minister concerning

a’r pleser o fod yn gysylltiedig ag ef—mudiad y ffermwyr ifanc—yn crisialu llawer o’r ddeinameg y byddem yn dymuno ei gweld mewn pobl ifanc yn ein cymdeithas.

Diolch i’r pwyllgor am lunio’r adroddiad hwn. Mae’n crynhoi llawer o waith da. Mae’r cyfrifoldeb yn awr ar y Dirprwy Weinidog i weithredu’r argymhellion hyn, ac rwy’n siŵr y bydd ysbryd ymateb y Dirprwy Weinidog yn sicrhau y caiff yr argymhellion hyn eu gweithredu yn y dyfodol.

Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis): Rwyf wedi mwynhau yn fawr iawn y ddadl hon ar faes pwysig o waith, a diolch i’r Aelodau am eu cyfraniadau. Gobeithio y bydd yr ymatebion i’r argymhellion sydd eisoes wedi’u gwneud yn dangos bod Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio ar draws ei holl feysydd polisi i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn yr hawliau a osodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn.

Trof yn awr at rai o’r pwyntiau penodol a godwyd yn ystod y ddadl. Mae Andrew yn hollol iawn i sôn am bwysigrwydd gwaith rhwng y cenedlaethau ac mae gan Joyce berffaith hawl i danlinellu pwysigrwydd cynnwys plant a phobl ifanc. Byddwn yn cadw hynny mewn golwg yn ein gwaith ac yn ein meddyliau. Cyffyrddodd Eleanor â diogelwch ar y ffyrdd, sydd nid yn unig yn destun pryder oherwydd agweddau iechyd a diogelwch y materion hyn, ond fel mater o gyfiawnder cymdeithasol—mae’r ddolen amddifadedd o ran problemau diogelwch ar y ffyrdd yn glir ac yn llwm. Mae Ann yn hollol iawn i siarad am rôl ganolog cynllunio a sut rydym i symud ymlaen o’r fan hon o ran adran 106 ac yn y blaen. Mae Ann hefyd yn gywir, fel bob amser, i fynnu ein bod yn cymryd sylw o rôl ganolog Rhyl yn yr holl faterion hyn.

Yn fwy penodol, codwyd pwyntiau ynghylch argymhellion 10, 13 ac 16 ynghylch goleuadau, risg a stereoteipiau negyddol. Byddaf yn ailedrych ar y pwyntiau penodol a godwyd gan Helen Mary ynghylch yr argymhellion hynny, a byddaf yn ceisio sicrhau ein bod yn gwneud popeth a allwn ar y pwyntiau hynny. Byddaf yn ymgymryd i siarad â’r Dirprwy Brif Weinidog ynghylch

recommendations 19 and 21 about transport and transport costs. Regarding recommendation 24 on pricing, the new child poverty legislation that is now in force will demand of local authorities that they produce a child poverty strategy of their own. I would expect to see that consideration has been given, at local level, to pricing and what that means for young people in terms of accessibility to services.

I look forward to continuing this work with all our stakeholders in making our communities safer and more conducive to children's opportunities to play and hang out. This report has certainly been a very worthwhile milestone along the road.

Helen Mary Jones: I thank all Members who have contributed to this debate. I only have time to touch on a few of the points raised. I can reassure Jonathan Morgan that there is photographic evidence of his basketball-playing skills, which has been published in the newsletter that our committee produces for children. You can take it home, Jonathan, and demonstrate that it is true that you shot that basket.

Jonathan is right to highlight the patchy nature of provision. We found some excellent practice, particularly in the voluntary sector, as he says, but I know that the Minister would agree that there are too many gaps and that the aim must be to drive all areas up to the highest standards. The points made by Jonathan Morgan, Ann Jones and Andrew R.T. Davies and others about the planning system are very well-made and we are glad that the Deputy Minister accepts our recommendations in full or in principle in that regard. I add my thanks to the point raised by Joyce Watson about the adults who supported the children and young people who participated in our inquiry. We owe them a great debt. It is not always easy as an adult to step aside and let the children speak for themselves. We were very grateful to all of those who did that. Joyce is also right to raise—as others did—the issue of participation in decision making. We saw how badly things can go wrong without it, with skate parks put in the wrong place, expensive facilities built that the children

argymhellion 19 a 21 ynghylch cludiant a chostau cludiant. O ran argymhelliad 24 ar brisio, bydd y ddeddfwriaeth newydd ar dlodi plant sydd bellach mewn grym yn galw ar awdurdodau lleol i gynhyrchu strategaeth tloidi plant eu hunain. Disgwyliaf weld bod ystyriaeth wedi'i rhoi, yn lleol, i brisio a beth y mae hynny'n ei olygu ar gyfer pobl ifanc o ran hygrychedd i wasanaethau.

Rwy'n edrych ymlaen at barhau â'r gwaith gyda phob un o'n rhanddeiliaid wrth wneud ein cymunedau'n fwy diogel ac yn fwy addas ar gyfer cyfleoedd plant i chwarae a chymdeithasu. Mae'r adroddiad hwn yn sicr wedi bod yn garreg filltir werthfawr iawn ar hyd y ffordd.

Helen Mary Jones: Diolch i'r holl Aelodau sydd wedi cyfrannu at y ddadl hon. Gallaf ond cyfeirio yn yr amser sydd gennyf at rai o'r pwyntiau a godwyd. Gallaf sicrhau Jonathan Morgan bod tystiolaeth ffotograffig o'i sgiliau pêl-fasged, sydd wedi'i chyhoeddi yn y cylchlythyr mae ein pwyllgor yn ei gynhyrchu ar gyfer plant. Gallwch fynd ag ef adref, Jonathan, a dangos ei bod yn wir eich bod wedi 'saethu'r fasged'.

Mae Jonathan yn iawn i dynnu sylw at natur dameidiog y ddarpariaeth. Canfuwyd rhywfaint o arfer rhagorol gennym, yn enwedig yn y sector gwirfoddol, fel y dywedodd, ond gwn y byddai'r Gweinidog yn cytuno bod gormod o fylchau ac mai'r nod yw cyrraedd y safon uchaf. Mae'r pwyntiau a wnaed gan Jonathan Morgan, Ann Jones ac Andrew R.T. Davies ac eraill am y system gynllunio yn dda iawn ac rydym yn falch bod y Dirprwy Weinidog yn derbyn ein hargymhellion yn llawn neu mewn egwyddor yn hynny o beth. Hoffwn ategu fy niolch i'r pwynt a godwyd gan Joyce Watson ynghylch yr oedolion a gefnogodd y plant a'r bobl ifanc a gymerodd ran yn ein hymchwiliad. Mae ein dyled yn fawr iddynt. Nid yw bob amser yn hawdd fel oedolyn i gamu o'r neilltu a gadael i'r plant siarad drostynt eu hunain. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a wnaeth hynny. Mae Joyce yn iawn hefyd i godi—fel y bu i eraill—y mater o gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. Gwelsom pa mor wael y gall pethau fynd o chwith heb wneud hynny, gyda pharciau

were never going to use or statutory youth clubs that were empty because they were open on the wrong nights while the voluntary sector ones were full. We must listen to children and young people's voices, not only because it is right but because it makes things more effective.

sglefrïo yn cael eu rhoi yn y lle anghywir, cyfleusterau drud a adeiladwyd er nad oedd y plant yn mynd i'w defnyddio neu glybiau ieuenctid statudol a oedd yn wag oherwydd eu bod yn agored ar y nosweithiau anghywir tra bod clybiau'r sector gwirfoddol yn llawn. Rhaid inni wrando ar leisiau plant a phobl ifanc, nid yn unig oherwydd ei fod yn iawn, ond oherwydd ei fod yn gwneud pethau yn fwy effeithiol.

3.50 p.m.

Eleanor Burnham is right to highlight how much has changed since many of our childhoods. Traffic is a major constraint in that regard, both in respect of where it is a genuine danger, as Ann Jones and others have said, but also in respect of the fear that it induces in adults. The best way of dealing with that is to deal with the traffic, and to ensure that our young people know how to cope in the changed environment.

Mae Eleanor Burnham yn iawn i amlinellu gymaint sydd wedi newid ers plentyndod llawer ohonom. Mae traffig yn broblem fawr yn yr ystyr honno, o ran ble y mae'n berygl gwirioneddol, ac fel mae Ann Jones ac eraill wedi dweud, o ran yr ofn y mae'n ei feithrin mewn oedolion. Y ffordd orau o ddelio â hynny yw delio â'r traffig, a sicrhau bod ein pobl ifanc yn gwybod sut i ymdopi mewn amgylchedd sydd wedi newid.

I am grateful to Ann Jones for her participation in producing the report, as I am to Sandy Mewies and Angela Burns, who were also members of the committee during this long process. I am also grateful to Ann for her suggestions about who we might visit in Rhyl. The committee is indebted to the children and young people of Rhyl, and to the adults who supported them. They gave us excellent evidence. It was a committee road trip that we will never forget, and we all learned a great deal.

Yr wyf yn ddiolchgar i Ann Jones am ei chyfraniad wrth gynhyrchu'r adroddiad, ac i Sandy Mewies ac Angela Burns, a oedd hefyd yn aelodau o'r pwyllgor yn ystod y broses hir hon. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i Ann am ei hawgrymiadau ynghylch pwy y gallem ymweld â nhw yn y Rhyl. Mae'r pwyllgor yn ddyledus i blant a phobl ifanc y Rhyl, ac i'r oedolion a'u cefnogodd. Rhoesant dystiolaeth ragorol i ni. Roedd yn daith pwyllgor na anghofiwn byth, ac fe ddysgodd pawb cryn dipyn.

I thank Andrew R.T. Davies for his kind words about the process and the report itself. I should perhaps let him know that the number of recommendations and their sheer volume is deliberate. We on the Children and Young People Committee like to pin the Government down and give it a lot to respond to, so that was not accidental. I am very interested indeed in the point that he made about section 106 agreements and maintenance costs, and I hope that Ministers will have heard that and will look to act upon it.

Diolch i Andrew RT Davies am ei eiriau caredig am y broses a'r adroddiad ei hun. Efallai y dylwn roi gwybod iddo fod nifer yr argymhellion, a'u cynnwys anferthol, yn fwriadol. Rydym ni ar y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn hoffi hoelio'r Llywodraeth a rhoi llawer iddo ymateb iddo, felly nid oedd hynny'n ddamweiniol. Mae gennyf ddiddordeb mawr iawn yn y pwynt a wnaeth am gytundebau adran 106 a chostau cynnal a chadw, a gobeithiaf y bydd Gweinidogion wedi clywed hynny ac yn edrych i weithredu arno.

As a committee, we very much welcome the Government's commitment to these issues, and are pleased with the way in which it responded in a cross-departmental manner.

Fel pwyllgor, rydym yn croesawu'n fawr iawn ymrwymiad y Llywodraeth i'r materion hyn, ac rydym yn falch gyda'r ffordd y mae'n ymateb mewn modd trawsadrannol. Nid dim

This is not just a matter for Huw Lewis, as the Deputy Minister for Children; it is a matter for every Minister. We welcome the way in which the response makes that clear.

I am grateful to the Deputy Minister for the comments that he has made about looking again at some of the specifics raised, particularly with regard to those recommendations that he has accepted in principle. We as a committee are very pleased about the sufficient play opportunities duties, and feel that that will make a great deal of difference.

The strength of cross-party consensus in the Assembly on issues relating to children and young people has been demonstrated once again today, and that reflects the values of the community that we represent. As our Assembly draws to a close, the Children and Young People Committee is now working on its legacy report, and we will recommend to a future children's committee—in the fervent hope that the next Assembly will decide to have one—that it scrutinises the Government's delivery of its play commitments closely. I am sure that the next Assembly Government will welcome that scrutiny, and that it will agree with us as a committee that our children deserve no less. Diolch yn fawr.

Y Llywydd: Y cwestiwn yw bod y Cynulliad yn nodi adroddiad y pwyllgor. Yr wyf yn sicr nad oes neb yn gwrthwynebu. Felly, yr wyf yn datgan bod y cynnig wedi'i basio, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 3.52 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 3.52 p.m.*

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

Gwasanaethau Cyhoeddus Public Services

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt and amendment 2 in the name of Peter

ond mater i Huw Lewis, fel y Dirprwy Weinidog dros Blant yw hyn; mae'n fater i bob Gweinidog. Rydym yn croesawu'r ffordd y mae'r ymateb yn gwneud hynny'n glir.

Yr wyf yn ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am ei sylwadau ynglŷn ag edrych eto ar rai o'r pethau penodol a godwyd, yn enwedig o ran yr argymhellion hynny y mae wedi'u derbyn mewn egwyddor. Rydym fel pwyllgor yn falch iawn am y dyletswyddau digonol o ran cyfleuon chwarae, ac yn teimlo y bydd hynny'n gwneud llawer o wahaniaeth.

Mae cryfder consensws trawsbleidiol yn y Cynulliad ar faterion yn ymwneud â phlant a phobl ifanc wedi cael ei ddangos unwaith eto heddiw, ac yn adlewyrchu gwerthoedd y gymuned yr ydym yn ei gynrychioli. Wrth i'n Cynulliad dynnu at ei therfyn, mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc bellach yn gweithio ar ei adroddiad etifeddiaeth, a byddwn yn argymhell i bwyllgor plant yn y dyfodol bwyllgor—yn y gobaith brwd y bydd y Cynulliad nesaf yn penderfynu cael un—ei fod yn craffu'n ofalus ar gyflwyniad y Llywodraeth o'i ymrwymadau chwarae. Yr wyf yn siŵr y bydd y Llywodraeth nesaf yn croesawu'r craffu hwnnw, ac y bydd yn cytuno gyda ni fel pwyllgor nad yw ein plant yn haeddu dim llai. Diolch yn fawr.

The Presiding Officer: The question is that the Assembly notes the committee report. I am sure that there is no objection. Therefore, I declare that the motion is agreed, in accordance with Standing Order No. 7.35.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt a gwelliant 2 yn enw Peter Black.

Black.

Cynnig NDM4651 Nick Ramsay

Motion NDM4651 Nick Ramsay

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi dinasyddion wrth galon llywodraeth leol drwy gynnwys cymunedau yn fwy wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Calls on the Welsh Assembly Government to put citizens at the centre of local government by creating greater community involvement in the delivery of public services.

Jonathan Morgan: I move the motion.

Jonathan Morgan: Cynigiaf y cynnig.

I am delighted to open the debate. To me, the principle of localism and the need for the Government to engage the people of Wales in how their communities function and how their services are provided is vital. I do not know where the governing parties sit on the issue of localism, but we as a party believe strongly in it. We believe in it because we know that there is an imbalance of power and responsibility. In recent years, men and women in communities across Wales and the UK have felt anger, frustration and disenchantment with a system of government that they believe has ignored their concerns and stifled their voice. In Wales specifically, over the past 13 years of Labour rule, we have seen Governments resolved on creating not an empowering state, where Welsh citizens have a real say and a greater voice on how they would like the Government to operate and their services run, but an overpowering state, where blind political dogma is the ideology and command and control is the ethos, across policy areas, from those of health to local government.

Mae'n bleser gen i agor y ddadl. I mi, mae'r egwyddor o leoliaeth a'r angen i'r Llywodraeth gynnwys pobl Cymru yn y modd y mae eu cymunedau'n gweithio, a sut mae eu gwasanaethau'n cael eu darparu, yn hanfodol. Nid wyf yn gwybod beth yw barn y partiön llywodraethol ynglŷn â lleoliaeth, ond yr ydym ni fel plaid yn credu yn gryf ynddo. Rydym yn credu ynddo gan ein bod yn gwybod bod yna anghydbwysedd grym a chyfrifoldeb. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae dynion a menywod mewn cymunedau ar draws Cymru a'r DU wedi teimlo dichter, rhwystredigaeth a dadrithiad gyda system o lywodraeth y mae nhw'n credu sydd wedi anwybyddu eu pryderon a thawelu eu llais. Yng Nghymru yn benodol, yn ystod y 13 mlynedd diwethaf o lywodraeth Lafur, rydym wedi gweld Llywodraethau yn mynnu creu nid gwladwriaeth rymus, lle byddai gan ddinasyddion Cymru lais gwirioneddol ar sut yr hoffent i Lywodraeth weithredu a rhedeg eu gwasanaethau, ond gwladwriaeth orlethol, ble mae dogma ddall wleidyddol yn ideoleg a gorchymyn a rheoli yw'r ethos, ar draws meysydd polisi, o iechyd i lywodraeth leol.

Under successive Labour Governments, we have seen the rise of top-down central Government control, which has undermined local councils and allowed people too little say over decisions that affect them locally. The lack of real local democracy in Wales has made communities weaker, while social responsibility has deteriorated, civic involvement has declined, and the inclusion of vulnerable people in social life has been inhibited.

O dan un Llywodraeth Lafur ar ôl y llall, yr ydym wedi gweld cynnydd o reolaeth Llywodraeth ganolog o'r brig i lawr, sydd wedi tanseilio cynghorau lleol ac heb ganiatáu i bobl ddweud digon ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn lleol. Mae'r diffyg democratiaeth leol gwirioneddol yng Nghymru wedi gwneud cymunedau yn wannach, tra bod cyfrifoldeb cymdeithasol wedi dirywio, cyfranogiad dinesig wedi gostwng, a chynnwys pobl agored i niwed mewn bywyd cymdeithasol wedi cael ei rwystro.

In England, under the new coalition

Yn Lloegr, o dan y Llywodraeth glymblaid

Government, a transformation has begun whereby individuals, families and communities are having the reins of power and accountability restored to them, house by house and street by street. The UK Government is doing that because it believes that localism holds the key to economic, social and political success in the future. The Localism Bill is the first major attempt to empower citizens—to give them more say and more opportunity to be involved. I do not know whether the Minister is a fan of localism, and I do not know whether the Minister feels that the Localism Bill should extend its provisions to Wales. However, I would like to see the people of Wales enjoying the same rights and opportunities as people across the border.

Our vision is to see a radical shift of control, by taking power from the national Government and returning it to local communities. Only by achieving this vision will we see services improve and evolve, and choice and accountability expand. Only by giving power and financial incentives for local authorities to foster growth will we start to move towards a Welsh economy that is built on strong, vibrant, local economies, and an economy that is far less vulnerable to the failures of a few dominant industries. Only by giving people more power and control over the services that are delivered in their areas will we start to inspire a new spirit of civic pride in those communities. Only by making local government more accountable, and by bringing people closer to the levers of power, will we start to restore the trust that has been lost in our political system.

With the time allocated this afternoon, I will take the opportunity to outline some of the areas where we feel that political decentralisation could occur and could revitalise democracy and strengthen community life—a five-pillar strategy to shift power away from the central state and back to local people. The first pillar is the concept of directly elected mayors. Most people in the Chamber know where this party stands, and where I stand personally, on this issue. I would like to see our main cities and towns developing the system of directly elected

newydd, mae trawsnewidiad wedi dechrau lle mae unigolion, teuluoedd a chymunedau yn cymryd yr awennau yn ôl o ran grym ac atebolrwydd, tŷ wrth dŷ a stryd fesul stryd. Mae Llywodraeth y DU yn gwneud hynny am ei fod yn credu mai lleoliaeth yw'r allwedd i lwyddiant economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol yn y dyfodol. Y Bil Lleoliaeth yw'r ymgais fawr gyntaf i roi grym i ddinasyddion—i roi cyfle iddynt ddweud mwy a mwy o gyfle i gymryd rhan. Nid wyf yn gwybod a yw'r Gweinidog yn gefnogwr o leoliaeth, ac nid wyf yn gwybod a oedd y Gweinidog yn teimlo y dylai'r Mesur Lleoliaeth ymestyn ei ddarpariaethau i Gymru. Fodd bynnag, hoffwn weld pobl Cymru yn mwynhau'r un hawliau a chyfleoedd â phobl ar draws y ffin.

Ein gweledigaeth yw gweld newid radical o reolaeth, trwy gymryd pŵer oddi wrth Llywodraeth genedlaethol a'i ddychwelyd i gymunedau lleol. Dim ond trwy gyflawni'r weledigaeth hon y gwelwn wasanaethau yn gwella ac yn esblygu, a dewis ac atebolrwydd yn ehangu. Dim ond drwy roi pŵer a chymhellion ariannol i awdurdodau lleol i feithrin twf y dechreuwn symud tuag at economi Cymru sydd wedi ei hadeiladu ar economïau lleol cryf a bywiog, ac economi sy'n llawer llai agored i fethiannau ychydig o ddiwydiannau dominyddol. Dim ond drwy roi mwy o bŵer a rheolaeth i bobl dros y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn eu hardaloedd y dechreuwn ysbrydoli ysbryd newydd o falchder dinesig yn y cymunedau hynny. Dim ond drwy wneud llywodraeth leol yn fwy atebol, a thrwy ddod â phobl yn nes at lyw pŵer, y dechreuwn adfer yr ymddiriedaeth sydd wedi cael ei golli yn ein system wleidyddol.

Gyda'r amser a ddyrennir y prynhawn yma, byddaf yn cymryd y cyfle i amlinellu rhai o'r meysydd lle rydym yn teimlo y gallai datganoli gwleidyddol ddigwydd ac adfywio democratiaeth a chryfhau bywyd cymunedol—strategaeth bum piler i symud pŵer i ffwrdd oddi wrth y wladwriaeth ganolog ac yn ôl i bobl leol. Y golofn gyntaf yw'r cysyniad o feiri wedi'u hethol yn uniongyrchol. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn y Siambr yn gwybod lle mae'r blaid hon yn sefyll, a lle yr wyf innau'n sefyll, yn bersonnol, ar y mater hwn. Hoffwn weld ein

mayors. I believe that they could transform many localities in Wales. Providing the opportunity for citizens in our largest cities, like Wrexham, Newport, Cardiff and Swansea, to vote for a directly elected mayor, offers such potential for these cities and areas. The case, of course, will have to be made. However, I believe that adopting this governance model will ensure improved accountability and transparency, public re-engagement, the reinvigoration of local politics and a greater degree of strategic and innovative thinking. This is exactly what the principal areas of Wales need to expand in the decade to come.

The second pillar is to enable greater public scrutiny of Assembly Government and public sector spending. Increasing non-transparency in terms of how public money is spent is one of the greatest frustrations of taxpayers. We want to reverse that trend. We believe that we should unleash an army of armchair auditors to scrutinise Assembly and local government accounts, in a bid to make it easier for people to hold public bodies, Ministers, executive leaders and their departments to account. We want to ensure that there is no easy way out for those spending public money to cut services, when all the options and priorities have not been fully explored. The only way that individuals, opposition parties and the media have been able to scrutinise what the Government spends is through the freedom of information process. A lot of waste and flagrant abuse of taxpayers' money has been exposed in this way, but it is certainly not the easiest tool to use to ensure transparency in spending. That is why we would like to see all public bodies in Wales publish all expenditure over £500 online, so that all Welsh taxpayers can see whether government is delivering value for money. Rather than creating a new financial burden, this greater transparency and accountability will help reduce wasteful expenditure and allow the Assembly Government and local authorities to become more aware of best practice in other areas.

prif ddinasoedd a threfi yn datblygu'r system o ethol meiri yn uniongyrchol. Yr wyf yn credu y gallent drawsnewid sawl ardal yng Nghymru. Mae rhoi'r cyfle i ddinasyddion yn ein dinasoedd mwyaf, fel Wrecsam, Casnewydd, Caerdydd ac Abertawe, i bleidleisio ar gyfer maer wedi'i ethol yn uniongyrchol, yn cynnig gymaint o botensial ar gyfer y dinasoedd a'r ardaloedd hyn. Bydd rhaid i'r achos, wrth gwrs, gael ei wneud. Fodd bynnag, yr wyf yn credu y bydd mabwysiadu'r model llywodraethu hwn yn sicrhau gwell atebolrwydd a thryloywder, ??? y cyhoedd a'r adfywiad o wleidyddiaeth leol a lefel uwch o feddwl strategol ac arloesol. Dyma'n union beth mae prif ardaloedd Cymru ei angen i ehangu yn y degawd sydd i ddod.

Yr ail golofn yw galluogi mwy o graffu cyhoeddus o Lywodraeth y Cynulliad a gwariant y sector cyhoeddus. Diffyg tryloywder o ran y modd y caiff arian cyhoeddus ei wario yw un o rwystredigaethau mwyaf trethdalwyr. Rydym am wrthdroi'r duedd honno. Rydym yn credu y dylem ryddhau byddin o archwilwyr cadair freichiau i graffu ar gyfrifon y Cynulliad a llywodraeth leol, mewn ymgais i'w gwneud yn haws i ddal cyrff cyhoeddus, Gweinidogion, arweinwyr gweithredol a'u hadrannau i gyfrif. Rydym am sicrhau nad oes unrhyw ffordd hawdd allan ar gyfer y rhai sy'n gwario arian cyhoeddus i dorri gwasanaethau, pan nad yw'r holl opsiynau a blaenoriaethau wedi eu harchwilio'n llawn. Yr unig ffordd y mae unigolion, gwrthbleidiau a'r cyfryngau wedi gallu craffu ar yr hyn mae'r Llywodraeth yn gwario trwy'r broses rhyddid gwybodaeth. Mae llawer o wastraff a chamdrin digywilydd o arian y trethdalwyr wedi cael ei ddatgelu yn y modd hwn, ond yn sicr nid yr offeryn hawsaf i'w ddefnyddio ydyw i sicrhau tryloywder mewn gwariant. Dyna pam y byddem yn hoffi gweld pob corff cyhoeddus yng Nghymru yn cyhoeddi eu holl wariant dros £500 ar-lein, fel y gall holl drethdalwyr Cymru weld a yw llywodraeth yn cyflawni gwerth am arian. Yn hytrach na chreu baich ariannol newydd, bydd y tryloywder a'r atebolrwydd ehangach hwn yn helpu i leihau gwariant gwastraffus ac yn caniatáu i Lywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol i ddod yn fwy ymwybodol o arferion gorau mewn ardaloedd eraill.

The third pillar is cutting the use of hypothecated grants for local government. This is about getting rid of the administration process and ensuring the delivery of outcomes. In the final local government revenue and capital settlement for 2010-11, there were 61 direct grants, some of which amount to a council receiving as little as £10,000 or even less. When the costs of administering and distributing the grant are taken into account, in some instances, the council will lose money by receiving the grant. This cannot be right. Local authorities must be given the flexibility to make decisions on what their local priorities are, and must be allowed the budget for those priorities accordingly. Getting rid of this additional bureaucratic burden would help save around £60 million a year—vital money that could be reinvested in front-line services.

The fourth pillar is enhancing the power of town and community councils. These 735 bodies in Wales are the true voice of the Welsh citizen. They are the conduit for public engagement and consultation, and the tier of government closest to the people.

4.00 p.m.

They do so much to improve the environment and wellbeing of local communities, but they could be allowed to do so much more. The Beecham review was clear. In the final report, he said:

‘It is...important for local organisations to demonstrate accountability for their stewardship of the total local budget, and to encourage citizens to share ownership of the choices which have to be made’.

The report recommended that the Assembly Government take the lead in encouraging greater citizen engagement, working with the third sector, community health councils and other citizen advocates. This simply has not happened. In fact we have seen the reverse, as 17 of the 19 community health councils, as they were, have been abolished, and the new boards made smaller, all hampering the representation and scrutiny functions they were designed to discharge. We believe that

Mae'r drydedd golofn yn ddefnyddio llai o grantiau wedi'u neilltuo ar gyfer llywodraeth leol. Mae hyn yn ymwneud â chael gwared ar y broses weinyddu a sicrhau gweithredu canlyniadau. Yn y setliad llywodraeth leol refeniw a chyfalaf ar gyfer 2010-11, roedd 61 o grantiau uniongyrchol, yr oedd rhai ohonynt yn gyfystyr â chyngor yn cael cyn lleied â £10,000 neu hyd yn oed yn llai. Pan fydd y costau gweinyddu a dosbarthu'r grant yn cael eu hystyried, mewn rhai achosion, bydd y cyngor yn colli arian drwy dderbyn y grant. Ni all hyn fod yn iawn. Rhaid i awdurdodau lleol gael yr hyblygrwydd i wneud penderfyniadau ar beth yw eu blaenoriaethau lleol, a rhaid caniatáu cyllideb ar gyfer y blaenoriaethau hynny. Byddai cael gwared ar y biwrocratiaeth ychwanegol hwn yn helpu arbed tua £60 miliwn y flwyddyn—arian hanfodol y gellid ei ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau rheng flaen.

Y pedwerydd colofn yw sicrhau pŵer y cynghorau tref a chymuned. Y 735 corff hyn yng Nghymru yw gwir lais dinasyddion Cymru. Y rhain yw'r cyfrwng ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgynghori, a'r haen o lywodraeth sydd agosaf at y bobl.

Maent yn gwneud cymaint i wella'r amgylchedd a lles cymunedau lleol, ond gallent gael yr hawl i wneud llawer mwy. Yr oedd adolygiad Beecham yn glir. Yn yr adroddiad terfynol, dywedodd:

‘Mae'n...bwysig i sefydliadau lleol ddangos atebolrwydd ar gyfer eu gwarchodaeth o'r holl gyllideb leol, ac i annog dinasyddion i rannu perchnogaeth o'r dewisiadau y mae'n rhaid eu gwneud’.

Mae'r adroddiad yn argymhell bod Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd yr awennau o ran annog mwy o ymgysylltu â dinasyddion, gweithio gyda'r trydydd sector, cynghorau iechyd cymuned ac eiriolwyr dinasyddion eraill. Nid yw hyn wedi digwydd. Yn wir, rydym wedi gweld y gwrthwyneb, gan fod 17 o'r 19 o gynghorau iechyd cymuned, fel ag yr oeddent, wedi cael eu dileu, a'r byrddau newydd wedi'u gwneud yn llai, i gyd yn amharu ar y gynrychiolaeth

the role of town and community councils should be expanded and that they should have the ability to take on certain functions like planning at their own request, which would offer local people a greater say and greater control.

The final pillar is that we believe that communities should have a greater say on things that affect them. This is essentially about putting more power in the hands of local people and making councillors more accountable to their citizens. This level of accountability could be direct and it should be as visible as possible, so that citizens have the ability to see clearly and exercise real influence over what their elected representatives are doing with the power they have. It is about giving people the power and the tools to lead the political and economic agendas locally. For example, if voters are unhappy that something is not being done in their area, then I would like to see them have the ability to force it onto the agenda. If people want to challenge a significant policy and widen the debate, then I would like to see it made easier for them to instigate local referenda to help guide decisions. If people are unhappy about council tax or business rate increases, then they should be able to unite together to vote them down.

This is direct democracy in action. To coin a phrase from Robert Lindsay, this is giving real 'power to the people'. As we look forward to the crucial referendum on 3 March, I believe that we should be talking less about powers for the Assembly and more about powers for local people and their communities. Is there any wonder that there is such disengagement and such a lack of enthusiasm out there for how we want to see Wales developing if there is a 'yes' vote on 3 March? I am terrified that we will see a record low turnout. We do not want to see that. We want people engaged in the process. We want them to have ownership, we want them to be at the centre of decisions and for them to be the individuals who benefit as a result of a 'yes' vote. We have to convince them by telling them how they will be empowered, not by lecturing them as to what it means to us as politicians. Our plans for

a'r swyddogaethau craffu yr oeddent wedi eu cynllunio i'w gweithredu. Rydym yn credu y dylai rôl y cynghorau tref a chymuned gael ei ehangu ac y dylent gael y gallu i ymgymryd â swyddogaethau penodol fel cynllunio ar eu cais eu hunain, a fyddai'n cynnig mwy o lais a mwy o reolaeth i bobl leol.

Y golofn olaf yw ein bod yn credu y dylai cymunedau gael mwy o lais ar bethau sy'n effeithio arnynt. Yn ei hanfod, mae hyn yn ymwneud â rhoi mwy o bŵer yn nwylo'r bobl leol a gwneud cynghorwyr yn fwy atebol i'w dinasyddion. Gallai'r lefel hyn o atebolrwydd fod yn uniongyrchol a dylai fod mor weladwy â phosib, fel bod dinasyddion yn gallu gweld yn glir ac chael dylanwad gwirioneddol dros yr hyn y mae eu cynrychiolwyr etholedig yn gwneud gyda'r pŵer sydd ganddynt. Mae'n ymwneud â rhoi'r grym a'r offer i bobl i arwain yr agendâu gwleidyddol ac economaidd yn lleol. Er enghraifft, os yw pleidleiswyr yn anhapus nad yw rhywbeth yn cael ei wneud yn eu hardal, yna hoffwn eu gweld â'r gallu i orfodi hynny ar yr agenda. Os yw pobl am herio polisi sylweddol ac ehangu'r ddadl, yna hoffwn ei weld yn cael ei gwneud yn haws iddynt gychwyn refferenda lleol i helpu i wyro penderfyniadau. Os yw pobl yn anfodlon am gynnydd yn y dreth gyngor neu ardrethi busnes, yna dylent fod yn gallu uno gyda'i gilydd i bleidleisio yn eu herbyn.

Mae hyn yn ddemocratiaeth uniongyrchol ar waith. A defnyddio ymadrodd gan Robert Lindsay, mae hyn yn rhoi 'pŵer go iawn i'r bobl'. Wrth edrych ymlaen at y refferendwm hanfodol ar 3 Mawrth, credaf y dylem fod yn siarad llai am bwerau i'r Cynulliad a mwy am bwerau ar gyfer pobl leol a'u cymunedau. A yw'n syndod bod datgysylltu o'r fath a chymaint o ddiffyg brwdfrydedd ynglŷn â sut rydym am weld Cymru yn datblygu os oes pleidlais 'ie' ar 3 Mawrth? Yr wyf yn ofni'n fawr y bydd a ganran sy'n pleidleisio yn rhyfeddol o isel. Nid ydym am weld hynny. Rydym am i bobl fod yn rhan o'r broses. Rydym am iddynt gael perchnogaeth, rydym am iddynt fod yn ganolog i'r penderfyniadau ac iddynt fod yn unigolion sy'n elwa o ganlyniad i bleidlais 'ie'. Mae'n rhaid i ni eu hargyhoeddi trwy ddweud wrthynt sut y byddant yn cael eu grymuso, nid drwy ddarlithio iddynt ynglŷn a beth mae'n ei

decentralising responsibility and power will trust people to manage their affairs in a way that responds to local needs. Our vision of a more decentralised country, economy, society and politics is an essential part of our progressive vision for the good life and the good society that we all wish to see.

Gwelliant 1 Jane Hutt

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu'r camau sy'n cael eu cymryd ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi dinasyddion yn y canol wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant): I move amendment 1.

Gwelliant 2 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu, yn ogystal â chael eu cynnwys yn fwy wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, y dylid ymgynghori â dinasyddion, a dylid eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau posibl i uno awdurdodau lleol, oherwydd gallai hyn gael effaith ddramatig ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn eu hardal.

Veronica German: I move amendment 2.

What is local government if it is not about putting citizens at the centre of everything that it does, be it in ensuring that there are simple and straightforward ways for people to have their voices heard, or in ensuring that their local communities can shape and even deliver the services that they require themselves? I do not think that anyone disagrees with citizen-centred services, but perhaps we do not all agree exactly on how that should be done. I am glad to see the conversion of the Conservatives to localism over the years, because it is something that

olygu i ni fel gwleidyddion. Bydd ein cynlluniau ar gyfer datganoli cyfrifoldeb a grym yn ymddiried mewn pobl i reoli eu materion mewn ffordd sy'n ymateb i anghenion lleol. Mae ein gweledigaeth o economi wlad, economi, cymdeithas a gwleidyddiaeth mwy datganoledig yn rhan hanfodol o'n gweledigaeth flaengar ar gyfer y bywyd da a'r gymdeithas dda yr ydym i gyd am ei weld.

Amendment 1 Jane Hutt

Delete all and replace with:

The National Assembly for Wales:

Welcomes the steps being taken across the Welsh Assembly Government to put citizens at the centre of public service delivery.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant): Cynigiau welliant 1.

Amendment 2 Peter Black

Add as new point at end of motion:

Believes that, as well as having greater involvement in the delivery of public services, citizens should be involved in, and consulted on, any potential amalgamation of local authorities, as this could have a dramatic effect on the delivery of public services in their area.

Veronica German: Cynigiau welliant 2.

Beth yw llywodraeth leol os nad yw'n ymwneud â rhoi dinasyddion yn ganolog i bopeth y mae'n ei wneud, boed hynny o ran sicrhau bod ffyrdd syml a hawdd i bobl gael dweud eu dweud, neu o ran sicrhau y gall eu cymunedau lleol lunio a hyd yn oed ddarparu'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt eu hunain? Nid wyf yn credu bod neb yn anghytuno â gwasanaethau wedi'u canolbwyntio ar y dinesydd, ond efallai nad ydym i gyd yn cytuno ar sut yn union y dylid gwneud hynny. Yr wyf yn falch o weld y troedigaeth y Ceidwadwyr i leoliaeth dros y

we have believed in as a party for a long time. We may not agree completely with everything that Jonathan has just said, but we do believe—particularly with regard to elected mayors—in bringing more transparency to spending. We have called in the past in the Chamber for the publication of spending in Wales on a website, as happens in England and Scotland. In particular, specific grants should be cut, as they are a huge waste of money and they do not allow local government to be local.

It is about local people working together with local elected members, voluntary organisations and community groups—the people who really understand the needs of their communities. They are the people who should be able to deliver for their communities. The Proposed Local Government (Wales) Measure aims to enhance engagement between councils and their citizens, and those particular parts of the proposed Measure are very welcome. The aims and principles of the proposed Measure have been widely welcomed. We do not always agree exactly on how it is being done, but there has been general agreement on the thinking behind it. We want to strengthen local democracy, we want to empower councils, and we want to empower communities. So, we felt total amazement when we heard that, last week, last-minute amendments had been tabled to give Ministers absolutely sweeping powers to merge—

The Deputy Presiding Officer: Order. This is not a debate about the Proposed Local Government (Wales) Measure. Detailed discussion of any amendments is a matter for the appropriate legislation committee.

Veronica German: The amendments have been tabled.

The Deputy Presiding Officer: Excuse me. You are to talk to your amendment. Stick to your amendment, thank you.

Veronica German: Right, okay. I thought that I was sticking to my amendment. It is about giving local people a say in whether councils can be amalgamated. We believe

blynyddoedd, oherwydd ei fod yn rhywbeth yr ydym ni fel parti wedi credu ynddo am amser hir. Efallai nad ydym yn cytuno'n llwyr â phopeth mae Jonathan newydd ei ddweud, ond rydym yn credu—yn enwedig o ran meiri etholedig—mewn dod â mwy o drloywder i wariant. Rydym wedi galw yn y gorffennol yn y Siambr am gyhoeddi gwariant yng Nghymru ar wefan, fel sy'n digwydd yn Lloegr a'r Alban. Yn benodol, dylai grantiau penodol gael eu torri, gan eu bod yn wastraff enfawr o arian ac nid ydynt yn caniatáu i lywodraeth leol fod yn lleol.

Mae'n ymwneud â phobl leol yn cydweithio gydag aelodau etholedig lleol, mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol—y bobl sydd wir yn deall anghenion eu cymunedau. Y rhain yw'r bobl a ddylai fod yn gallu darparu ar gyfer eu cymunedau. Mae'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) arfaethedig yn anelu at wella ymgysylltu rhwng cynghorau a'u dinasyddion, ac mae'r rhannau penodol hynny o'r Mesur arfaethedig yn cael croeso mawr. Mae nodau ac egwyddorion y Mesur arfaethedig wedi cael croeso eang. Nid ydym bob amser yn yn cytuno'n union ar sut y mae'n cael ei wneud, ond cafwyd cytundeb cyffredinol ar y meddylfryd y tu ôl iddo. Rydym yn awyddus i gryfhau democratiaeth leol, rydym am rymuso cynghorau, ac rydym am roi grym i gymunedau. Felly, yr oeddem wedi'n synnu'n llwyr pan glywsom funud olaf, yr wythnos diwethaf, fod gwelliannau wedi eu cyflwyno i roi pwerau cwbl ysgubol i Gweinidogion i uno-

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Nid dadl am y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) arfaethedig yw hon. Mae trafodaeth fanwl am unrhyw welliannau yn fater i'r pwyllgor deddfwriaeth briodol.

Veronica German: Mae'r gwelliannau wedi cael eu cyflwyno.

Y Dirprwy Lywydd: Esgusodwch fi. Rydych i siarad i'ch gwelliant. Cadwch at eich gwelliant, diolch.

Veronica German: Iawn. Roeddwn i'n meddwl fy mod yn cadw at fy ngwelliant. Mae'n ymwneud â rhoi cyfle i bobl leol gael llais yn pa un ai all cynghorau gael eu

that it would be an absolute disgrace if Ministers were to take sweeping powers to amalgamate councils without full consultation and scrutiny with regard to how it is done. We have had six months of consultation and scrutiny on other parts of the legislation that would allow local people to have their say, and now we have come to a point where this is not allowed to happen because of the way that proposals have been put forward. We believe that there should be full consultation with communities, and we believe that this Assembly should be able to fully scrutinise on behalf of our citizens and communities. So, we believe that this demonstrates breathtaking arrogance on the part of this Government. We find it completely unacceptable that these proposals could be railroaded through in this way with no suggestion in anybody's manifesto or in the coalition agreement that this is what they proposed to do.

So, these proposals make a mockery of the Government's commitment to local government and the original proposed Measure, because they do not allow local people to have a say. We are not talking about what you intend to do; we are talking about the process and letting local people have a say. We believe that this is a dreadful advert for devolution—

The Deputy Presiding Officer: Can you wind up, please?

Veronica German: It plays into the hands of the 'no' campaigners. If these proposals are for certain authorities only, as has been suggested, why not consult those particular people in those local authorities—if you are talking about Anglesey and Gwynedd?

The Deputy Presiding Officer: Order. I am sorry, but you really are wandering away from your amendment and your time is coming to an end. Please come to a conclusion on the amendment that you moved.

Veronica German: We believe that this is completely unacceptable. It is not the way to make legislation or to consult with our communities, because communities here in

cyfuno. Rydym yn credu y byddai'n warth llwyr os byddai Gweinidogion yn cymryd pwerau ysgubol i uno cynghorau heb ymgynghori'n llawn a chraffu o ran sut y mae'n cael ei wneud. Rydym wedi cael chwe mis o ymgynghori a chraffu ar rannau eraill o'r ddeddfwriaeth a fyddai'n galluogi pobl leol i gael dweud eu dweud, ac yn awr rydym wedi dod i bwynt lle nad yw hyn yn cael digwydd oherwydd y modd y mae cynigion wedi cael eu cyflwyno. Rydym yn credu y dylid cael ymgynghoriad llawn gyda chymunedau, ac rydym yn credu y dylai'r Cynulliad hwn allu craffu'n llawn ar ran ein dinasyddion a'n cymunedau. Felly, rydym yn credu bod hyn yn dangos trahauster syfrdanol ar ran y Llywodraeth hon. Mae'n gwbl annerbyniol y gallai'r cynigion hyn gael eu gorfodi drwyddo yn y ffordd hon heb unrhyw awgrym yn maniffesto unrhyw un neu yn y cytundeb clymblaid mai dyma oeddent yn bwriadu ei wneud.

Felly, mae'r cynigion hyn yn gwawdio ymrwymiad y Llywodraeth i lywodraeth leol a'r Mesur arfaethedig gwreiddiol, am nad ydynt yn galluogi pobl leol i gael llais. Nid ydym yn sôn am yr hyn yr ydych yn bwriadu ei wneud; yr ydym yn sôn am y broses a gadael i bobl leol gael dweud eu dweud. Credwn fod hyn yn hysbyseb ofnadwy ar gyfer datganoli—

Y Dirprwy Lywydd: Allwch chi ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

Veronica German: Mae'n chwarae i ddwylo'r ymgyrchwyr 'na'. Os yw'r cynigion hyn ar gyfer awdurdodau penodol yn unig, fel yr awgrymwyd, pam nad ymgynghori gyda'r bobl benodol hynny yn yr awdurdodau lleol hynny—os ydych yn sôn am Ynys Môn a Gwynedd?

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae'n ddrwg gennyf, ond yr ydych wir yn crwydro i ffwrdd oddi wrth eich gwelliant ac mae'ch hamser yn dod i ben. Dewch at gasgliad ar y gwelliant y gwnaethoch ei symud os gwelwch yn dda.

Veronica German: Rydym yn credu bod hyn yn gwbl annerbyniol. Nid dyma'r ffordd i wneud deddfwriaeth neu i ymgynghori gyda'n cymunedau, gan fod cymunedau yma

Wales deserve better.

Mark Isherwood: We must empower rather than overpower local people, giving them a say in the running of public services. This socialist Welsh Government presumes that the public sector is the only option for delivering services. We must ask why it imagines that it must do the same thing with less money, when the same thing is not working.

4.10 p.m.

The public sector sometimes has a tendency to distort the aims of voluntary sector groups and foster a dependency that stifles initiatives. The voluntary sector has greater reach, more flexibility and is generally better at more intensive, personalised support. Our big Welsh society holds many opportunities for independent, voluntary and charitable sector organisations and the more diverse providers of public services, and greater power for communities to make local decisions. However, there are too many barriers to these types of organisations doing Government business, which is why the UK coalition Government is seeking to create a level playing field for charities, voluntary groups and social enterprises that want to bid for public service contracts.

The devolution dividend and European billions would have allowed an effective Welsh Government to drive sustainable growth and prosperity in Wales. However, 12 years of socialist Welsh Government has blown this, subsidising rather than tackling the deep-rooted causes of the problems in Wales today, leaving Wales at the bottom of every social and economic league table that matters.

The Communities First programme is the Welsh Government's multi-million pound flagship programme in disadvantaged communities. However, as we know, the Wales Audit Office found that the programme was blighted from the start by an absence of basic human resource and financial planning—in other words, by ministerial dereliction of duty. The Joseph

yng Nghymru yn haeddu gwell.

Mark Isherwood: Rhaid inni rymuso pobl leol yn hytrach na'u llethu, gan roi llais iddynt wrth redeg gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Llywodraeth Cymru sosialaidd hwn yn rhagdybio mai'r sector cyhoeddus yw'r unig ddewis ar gyfer darparu gwasanaethau. Rhaid i ni ofyn pam ei fod yn dychmygu y gall wneud yr un peth gyda llai o arian, pan nad yw'r un peth yn gweithio.

Mae gan y sector cyhoeddus duedd weithiau i ystumio amcanion grwpiau sector gwirfoddol a meithrin dibynniaeth sy'n mygu mentrau. Mae gan y sector gwirfoddol mwy o allu i gyrraedd a mwy o hyblygrwydd ac mae'n well yn gyffredinol o ran cymorth mwy dwys a phersonol. Mae llawer o gyfleoedd yn ein cymdeithas fawr Gymraeg i sefydliadau yn y sector annibynnol, gwirfoddol ac elusennol ac i'r darparwyr mwyaf amrywiol o wasanaethau cyhoeddus, a mwy o rym i gymunedau i wneud penderfyniadau lleol. Fodd bynnag, mae gormod o rwystrau i'r mathau hyn o sefydliadau wneud busnes y Llywodraeth, a dyna pam mae Llywodraeth glymblaid y DU yn ceisio sicrhau chwarae teg ar gyfer elusennau, grwpiau gwirfoddol a mentrau cymdeithasol sydd am wneud cais am gontractau gwasanaethau cyhoeddus.

Byddai'r difidend datganoli a'r biliynau Ewropeaidd wedi caniatáu Llywodraeth Cymru effeithiol i yrru twf cynaliadwy a ffyniant yng Nghymru. Fodd bynnag, mae 12 mlynedd o Lywodraeth Cymru sosialaidd wedi chwalu hyn, yn rhoi cymorth yn hytrach na mynd i'r afael ag achosion y problemau sylfaenol yng Nghymru heddiw, gan adael Cymru ar waelod pob tabl cynghrair cymdeithasol ac economaidd pwysig.

Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yw rhaglen flaengar, werth miliynau o bunnoedd, Llywodraeth Cymru mewn cymunedau difreintiedig. Fodd bynnag, fel y gwyddom, canfu Swyddfa Archwilio Cymru fod y rhaglen wedi dioddef o'r cychwyn o ddiffyg adnoddau dynol sylfaenol a chynllunio ariannol—mewn geiriau eraill, gan esgeuluso o'u dyletswydd gan Weinidogion. Canfu

Rowntree Foundation found that Communities First had led to marginal improvements only, while positive changes were mainly down to a mix of housing tenures and younger populations with higher skills moving in. The Wales Council for Voluntary Action found that the initial enthusiasm of local people for the programme was hampered by design flaws, stating that the missing link in achieving significant community ownership is the lack of a longer term vision in the programme, which enables communities to move beyond programmes to establish their own independent institutions, which can then, in turn, work as equal partners in delivering real outcomes, which the community values, owns and is willing to mobilise around.

The Sustainable Communities Act 2007 (Amendment) Act 2010 recognises that local people know best what needs to be done to promote the sustainability of their area, but Labour and Plaid Cymru have refused to implement this in Wales.

Participatory budgeting directly involves local people in making decisions on the spending and priorities for a defined public budget, increasing transparency, accountability, understanding and social inclusion in local government affairs. We must recognise that, if you give people more power, they will behave more responsibly, and that Government, at all levels, cannot solve all of our problems on its own. I therefore welcome the participatory budget projects delivered in north Wales by Together Creating Communities. We must now support the Wales participatory budgeting unit, recently incorporated as a social enterprise.

Directly elected mayors accountable to the public could improve the performance and delivery of local public services. If Mansfield and Bedford can have them, then why not Wrexham and Bangor, to deliver real local change? Citizens must be consulted on any potential amalgamation of local authorities. The Welsh Government must not be allowed to bury the problems of failing councils by exporting them rather than dealing with them.

Sefydliad Joseph Rowntree bod Cymunedau yn Gyntaf wedi arwain at welliannau ymylol yn unig, tra bod newidiadau cadarnhaol yn bennaf oherwydd cymysgedd o ddaliadaethau tai a phoblogaethau iau â sgiliau uwch yn symud i mewn. Canfu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fod brwdfrydedd cychwynnol pobl leol ar gyfer y rhaglen wedi ei lesteirio gan ddiffygion yn y dyluniad, gan ddatgan mai'r ddolen goll i gyflawni perchnogaeth gymunedol sylweddol yw'r diffyg gweledigaeth tymor hir yn y rhaglen, sy'n galluogi cymunedau i symud y tu hwnt i raglenni i sefydlu eu sefydliadau annibynnol eu hunain, a all wedyn, yn eu tro, weithio fel partneriaid cyfartal wrth gyflwyno canlyniadau go iawn, y mae'r gymuned yn eu gwerthfawrogi, yn berchen arnynt ac yn barod i ymgasglu o'u cwmpas.

Mae Deddf Cymunedau Cynaliadwy 2007 (Diwygio) Deddf 2010 yn cydnabod bod pobl leol yn gwybod orau beth sydd angen ei wneud i hybu cynaliadwyedd eu hardal, ond mae'r Blaid Lafur a Phlaid Cymru wedi gwrthod gweithredu hyn yng Nghymru.

Mae cyllidebu cyfranogol yn cynnwys pobl leol yn uniongyrchol wrth wneud penderfyniadau ar wariant a blaenoriaethau ar gyfer cyllideb cyhoeddus wedi'i ddiffinio, cynyddu tryloywder, atebolrwydd, dealltwriaeth a chynhwysiad cymdeithasol mewn materion llywodraeth leol. Rhaid inni gydnabod, os byddwch yn rhoi mwy o bŵer i bobl, y byddant yn ymddwyn yn fwy cyfrifol, ac na all y Llywodraeth, ar bob lefel, ddatrys ein holl broblemau ar ei ben ei hun. Rwyf felly'n croesawu'r prosiectau cyllideb cyfranogol yng ngogledd Cymru gan Trefnu Cymunedol Cymru. Rhaid i ni bellach gefnogi uned cyllidebu cyfranogol Cymru, a ymgorfforwyd yn ddiweddar fel menter gymdeithasol.

Gallai meiri a'u hetholwyd yn uniongyrchol sy'n atebol i'r cyhoedd wella perfformiad a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus lleol. Os gall Mansfield a Bedford eu cael, yna beth am Wrecsam a Bangor, i gyflawni newid lleol go iawn? Rhaid ymgynghori â dinasyddion ar unrhyw uno posibl o awdurdodau lleol. Ni ddylai Llywodraeth Cymru gael yr hawl i gladdu problemau cynghorau sy'n methu drwy eu hallforio yn

The Welsh Government must not be allowed either to use the excuse of failing councils as a Trojan horse for the further centralisation of ministerial power.

At UK level, the localism Bill will herald a groundbreaking shift in power to councils and communities, overturning decades of central government control and starting a new era of people power. For too long, everything has been controlled from the centre, and look where it has got us. We must allow community enterprises to ask the public sector how they can help it to save money, delivering more for less. By getting out of the way and letting citizens and communities run their own affairs, we can restore civic pride, democratic accountability and economic growth, and build a stronger, fairer Wales in a stronger, fairer Britain. Let this be the end of big Government laying the foundations of the big Welsh society. After all, it does not matter who delivers the services; what matters is how well they are delivered.

David Lloyd: I am pleased to contribute to this debate on community involvement in local government. I was going to concentrate on that aspect of community involvement and that particular interface between individual residents, householders, council tax payers and local government, deriving from my experiences over the years as a community campaigner, county councillor and Assembly Member in trying to develop a philosophy about how we can improve communication between local government and individual citizens. There is a lot of talk about organisations being person-centred, but we need to find ways of improving that because it is certainly, sadly, lacking at times.

I was going to try to illustrate this with my experiences over the last three years of passing legislation in my name in the Assembly, namely the Playing Fields (Community Involvement in Disposal Decisions) (Wales) Measure 2010 that Jonathan Morgan kindly alluded to in an earlier debate. This involved a new concept of pre-sale consultation, which is a unique

hytrach na mynd i'r afael â hwy. Ni ddylai Llywodraeth Cymru chwaith ddefnyddio'r esgus o gynghorau'n methu fel ceffyl Trojan ar gyfer canoli pellach o rym gweinidogol.

Ar lefel y DU, bydd y Bil Lleoliaeth yn cyhoeddi newid arloesol mewn grym i gynghorau a chymunedau, yn gwirdroi degawdau o reolaeth llywodraeth ganolog a dechrau ar gyfnod newydd o bŵer i'r bobl. Am gyfnod rhy hir, mae popeth wedi cael ei reoli o'r canol, ac edrychwch lle mae hynny wedi mynd â ni. Mae'n rhaid i ni ganiatáu i fentrau cymunedol i ofyn i'r sector cyhoeddus sut y gallant helpu i arbed arian, gan gyflwyno mwy am lai. Drwy symud allan o'r ffordd a chaniatáu i ddinasyddion a chymunedau redeg eu materion eu hunain, gallwn adfer balchder dinesig, atebolrwydd democrataidd a thwf economaidd, ac adeiladu Cymru cryfach a thecach mewn Prydain gryfach, decach. Gadewch i hyn fod yn ddiwedd ar Lywodraeth fawr yn gosod sylfeini'r gymdeithas Gymreig fawr. Wedi'r cyfan, nid yw o bwys pwy sy'n cyflwyno'r gwasanaethau; yr hyn sy'n bwysig yw pa mor dda y maent yn cael eu darparu.

David Lloyd: Yr wyf yn falch o gyfrannu at y ddadl hon ar gyfranogiad y gymuned i llywodraeth leol. Roeddwn yn mynd i ganolbwyntio ar yr agwedd honno o gyfranogiad y gymuned a'r cysylltiad penodol rhwng preswylwyr unigol, deiliaid tai, talwyr y dreth gyngor a llywodraeth leol, yn deillio o fy mhrofiadau dros y blynyddoedd fel ymgyrchydd cymunedol, cynghorydd sir ac Aelod Cynulliad wrth geisio datblygu athroniaeth am sut y gallwn wella cyfathrebu rhwng llywodraeth leol a dinasyddion unigol. Mae llawer o sôn am sefydliadau'n canolbwyntio ar y person, ond mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd o wella hynny oherwydd ei bod yn sicr, yn anffodus, yn ddiffygiol ar brydiau.

Roeddwn yn mynd i geisio egluro hyn drwy fy mhrofiadau dros y tair blynedd diwethaf o basio deddfwriaeth yn fy enw yn y Cynulliad, sef y Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2010 y cyfeiriodd Jonathan Morgan yn garedig atynt mewn dadl yn gynharach. Roedd hyn yn cynnwys cysyniad newydd o werthu cyn-

feature—it does not happen anywhere else in these islands. I am grateful to the Minister and to the previous Minister, Brian Gibbons, for agreeing the passage of the Measure. However, they and other Members will know that a fair amount of compromise had to be reached along the way, and after hours of consultation and discussions—much of it involving the Welsh Local Government Association and local authorities—it became obvious that local authorities were not keen on what was seen as the intensive community involvement of individual residents in the potential community disposal decisions regarding their playing fields that I wanted to see happen.

Members will recall that I originally wanted to write to every householder who would be affected by the disposal decision. I compromised by agreeing to insert a paragraph or an advertisement in free council newspapers. The local householders that we consulted liked the idea of direct community involvement by their local authority in a decision that directly affected them. That was felt to be disproportionate by local government, and the advice to Welsh Assembly Government Ministers reflected that. However, our people liked that idea, but as discussions went along, we needed to tighten up and move on, otherwise the Measure would have fallen.

It might be a moot point, but, before the playing fields Measure received Royal Assent on 15 December 2010, public consultation in relation to the disposal of a playing field could only happen as part of the planning process after a decision had been made to dispose of that playing field. In other words, the decision about what to do with a playing field had already been taken without open consultation with local residents. Consultation would happen as part of planning law when the decision to dispose had already been taken. As I and others have said in our debates on the Measure, such consultation was frequently viewed as a sham or a stitch-up by local residents. That is why I felt that involving individual householders

ymgyngori, sy'n nodwedd unigryw—nid yw'n digwydd yn unrhyw le arall yn yr ynysoedd hyn. Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog, ac i'r Gweinidog blaenorol, Brian Gibbons, am gytuno ar hynt y Mesur. Fodd bynnag, byddan nhw, ac Aelodau eraill, yn gwybod bod yn rhaid cael cryn dipyn o gyfaddawd ar hyd y ffordd, ac ar ôl oriau o ymgynghori a thrafodaethau—llawer ohono yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol—daeth yn amlwg nad oedd awdurdodau lleol yn awyddus ar yr hyn a'i ystyriwyd yn gyfranogiad cymunedol dwys gan drigolion unigol yn y penderfyniadau gwaredu cymunedol posibl o ran eu meysydd chwarae yr oeddwn am ei weld yn digwydd.

Bydd yr Aelodau'n cofio fy mod yn wreiddiol eisiau ysgrifennu at bob deiliad tŷ a fyddai'n cael eu heffeithio gan y penderfyniad gwaredu. Fe gyfaddawdais drwy gytuno i fewnosod paragraff neu hysbyseb ym mhapurau newydd rhad ac am ddim y cyngor. Mae deiliaid tai lleol y buom yn ymgynghori â hwy yn hoffi'r syniad o'u hawdurdod lleol yn cynnwys y gymuned yn uniongyrchol mewn penderfyniadau sy'n effeithio yn uniongyrchol arnynt. Yr oedd llywodraeth leol yn teimlo bod hynny'n anghymesur, ac roedd y cyngor i Weinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adlewyrchu hynny. Fodd bynnag, yr oedd ein pobl ni yn hoffi'r syniad hwnnw, ond fel yr aeth trafodaethau yn eu blaen, roedd angen i ni dynhau a symud ymlaen, neu byddai'r Mesur wedi methu.

Gallai fod yn bwynt dadleuol, ond, cyn I'r Mesur caeau chwarae cael Cydsyniad Brenhinol ar 15 Rhagfyr 2010, gallai ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â gwaredu cae chwarae ddigwydd dim ond fel rhan o'r broses gynllunio ar ôl i benderfyniad gael ei wneud i waredu'r cae chwarae hwnnw. Mewn geiriau eraill, mae'r penderfyniad ynghylch beth i'w wneud gyda cae chwarae eisoes wedi ei gymryd heb ymgynghori agored â thrigolion lleol. Byddai ymgynghori yn digwydd fel rhan o gyfraith gynllunio pan fydd y penderfyniad i waredu eisoes wedi'i wneud. Fel yr wyf innau ac eraill wedi dweud yn ein dadleuon ar y Mesur, yr oedd ymgynghori o'r fath yn cael ei ystyried yn aml fel un ffug neu dwyll gan y

before the decision was made about whether or not to dispose of a playing field was a significant way forward in the two-way consultation between the relevant local authority and local citizens, and could potentially open the way for a new respect between residents and local authorities. We compromised, and I am pleased that the unique feature of pre-sale consultation remains. Residents will now be informed that their local authority is considering disposing of a playing field in their ward. That exercise over the last three years demonstrated how we had to move, discuss, cajole some people and compromise to make sure that we got this unique piece of legislation through in time.

In conclusion, the lesson is that we can talk a lot about public engagement and making sure that the householder is at the centre of everything, but trying to plan that out is difficult in practice.

4.20 p.m.

Mohammad Asghar: Local people must be given a say in the running of the public services that are in place to serve them. In Wales, we should be looking to ensure that we have a situation that empowers people, giving them a real say in the way in which their local services are run and developed. On this side of the Chamber, we have a number of proposals that would ensure that that happens, delivering real devolution to the people of Wales and giving communities the voice that they deserve.

First, I would like to talk about directly-elected mayors, who would be the single, democratically elected face of a particular town or city. They would act as recognisable ambassadors for their vicinity and would be under pressure to perform and deliver improvements in their area, or face losing their position at the next election. Elected mayors have proved to be popular and highly visible figures in many parts of the world, such as in New York, some European countries and in Australia. For example, the independent candidate Ray Mallon in Middlesbrough—who was been nicknamed

trigolion lleol. Dyna pam yr oeddwn yn teimlo bod cynnwys deiliaid tai unigol cyn i'r penderfyniad gael ei wneud ynghylch pa un ai i gael gwared o faes chwarae yn ffordd sylweddol ymlaen yn yr ymgynghoriad ddwy-ffordd rhwng yr awdurdod lleol perthnasol a dinasyddion lleol, a gallai agor y ffordd am barch newydd rhwng preswylwyr ac awdurdodau lleol. Fe wnaethom gyfaddawdu, ac yr wyf yn falch bod y nodwedd unigryw o ymgynghori cyn gwerthu yn parhau i fod. Bydd preswylwyr yn awr yn cael eu hysbysu bod eu awdurdod lleol yn ystyried gwaredu cae chwarae yn eu ward. Dangosodd y gwaith hyn yn ystod y tair blynedd diwethaf sut yr oedd yn rhaid symud, trafod, cymell rhai pobl a chyfaddawdu er mwyn sicrhau ein bod yn cael y darn unigryw hwn o ddeddfwriaeth trwyddo mewn pryd.

I gloi, y wers yw ein bod ni'n gallu siarad llawer am ymgysylltu â'r cyhoedd a gwneud yn siŵr bod y deiliad tŷ yn ganolog i bopeth, ond mae ceisio cynllunio hynny yn ymarferol yn anodd.

Mohammad Asghar: Rhaid i bobl leol gael llais yn y gwaith o redeg y gwasanaethau cyhoeddus sy'n bodoli i'w gwasanaethu. Yng Nghymru, dylem geisio sicrhau bod y sefyllfa yn un sy'n grymuso pobl, gan roi llais go iawn iddynt yn y ffordd y mae eu gwasanaethau lleol yn cael eu rhedeg a'u datblygu. Ar ochr hon y Siambr, mae gennym nifer o gynigion a fyddai'n sicrhau bod hynny'n digwydd, gan ddarparu datganoli gwirioneddol i bobl Cymru a rhoi llais haeddiannol i gymunedau.

Yn gyntaf, hoffwn siarad am feiri sy'n cael eu hethol yn uniongyrchol, a fyddai'n un wyneb a etholwyd yn ddemocrataidd i dref neu ddinas benodol. Byddent yn gweithredu fel llysgenhadon adnabyddus dros eu bröydd, o dan bwysau i roi gwelliannau ar waith yn eu hardaloedd, neu yn wynebu colli eu swydd yn yr etholiad nesaf. Mae meiri etholedig wedi profi'n boblogaidd ac yn ffigurau amlwg iawn mewn llawer rhan o'r byd, er enghraifft yn Efrog Newydd, rhai o wledydd Ewrop ac yn Awstralia. Er enghraifft, cafodd yr ymgeisydd annibynnol Ray Mallon yn Middlesbrough—a gafodd y llysenw,

'Robocop'—won plaudits from the public by exchanging the mayoral limousine for a two-seater Smart car because of financial constraints. In Mansfield, the mayor has been praised for orchestrating and co-ordinating effective partnership working. With their mandate, directly-elected mayors are ideally placed to break down institutional barriers to successfully facilitate change and development.

With regard to armchair auditors, it is also essential we empower local people to seize opportunities to monitor the performance of their local services. The Beecham review emphasised the importance of citizen-centred scrutiny, noting that the public should be able to track the performance of local service providers over time. Members on this side of the Chamber want to see public bodies publishing all expenditure above and beyond £500 online, which would be acceptable to the public at large. It would give citizens the chance to scrutinise whether taxpayers' money is being spent effectively. Such openness and accountability could save money. Local authorities already deal with many freedom of information requests for such information, so making it all publicly available could help to reduce costs. Quotes from the Greater London Authority highlight how data release can reduce fraud and curb unnecessary spending.

I also want to highlight the importance of removing ring-fenced grants to local authorities. The Assembly Government seems to have ignored Beecham's advice and, in 2009-10, distributed almost £679 million of hypothecated grants to local authorities. Estimates from the Welsh Local Government Association suggest that 10 per cent of costs associated with these grants are swallowed up by administrative costs. Removing hypothecation would mean that local authorities could have more funds, while over £60 million could be freed up each year to help to protect front-line services. The TaxPayers' Alliance, for example, notes that by giving local authorities greater flexibility to shape their budgets, they will have the chance to use their local knowledge and expertise to make sure that every penny is properly prioritised.

'Robocop'—glod gan y cyhoedd am gyfnewid limousine y maer am gar Smart, dwy sedd, oherwydd cyfyngiadau ariannol. Ym Mansfield, mae'r maer wedi cael ei ganmol am drefnu a chydlynu gwaith partneriaeth effeithiol. Gyda'u mandad, mae meiri etholedig mewn sefyllfa ddelfrydol i chwalu rhwystrau sefydliadol er mwyn hwyluso newid a datblygiad.

O ran archwilwyr cadair freichiau, mae'n hanfodol hefyd ein bod yn grymuso pobl leol i fanteisio ar gyfleoedd i fonitro perfformiad eu gwasanaethau lleol. Pwysleisiodd adolygiad Beecham bwysigrwydd roi'r dinesydd yn y canol wrth graffu, gan nodi y dylai'r cyhoedd allu olrhain perfformiad darparwyr gwasanaethau lleol dros gyfnod o amser. Mae Aelodau'r ochr hon o'r Siambr am weld cyrff cyhoeddus yn cyhoeddi'r holl wariant dros £500 ar-lein. Byddai hyn yn dderbyniol i'r cyhoedd yn gyffredinol. Byddai'n rhoi cyfle i ddinasyddion graffu, a gweld a yw arian trethdalwyr yn cael ei wario'n effeithiol. Byddai bod yn agored ac yn atebol, yn y modd hwn, yn gallu arbed arian. Mae awdurdodau lleol eisoes yn ymdrin â llawer o geisiadau rhyddid gwybodaeth ar gyfer y fath wybodaeth, felly pe bai'r cyfan ar gael yn gyhoeddus gallai arbed arian. Mae amcangyfrifon Awdurdod Llundain Fawr yn amlygu sut y gall rhyddhau data leihau twyll a ffrwyno gwariant diangen.

Yn ogystal, rwyf eisiau pwysleisio pwysigrwydd cael gwared ar grantiau wedi eu neilltuo i awdurdodau lleol. Mae'n ymddangos bod Llywodraeth y Cynulliad wedi anwybyddu cyngor Beecham, ac, yn 2009-10, wedi dosbarthu bron £679 miliwn o grantiau wedi'u neilltuo i awdurdodau lleol. Mae amcangyfrifon Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn awgrymu bod 10 y cant o'r costau sy'n gysylltiedig â'r grantiau hyn wedi eu llyncu gan gostau gweinyddol. Byddai cael gwared ar grantiau wedi eu neilltuo yn golygu y gallai awdurdodau lleol gael mwy o arian, gan ryddhau £60 miliwn bob blwyddyn er mwyn helpu i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen. Mae Cynghrair y Trethdalwyr, er enghraifft, yn nodi, drwy roi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol lunio eu cyllidebau, byddant yn cael y cyfle i ddefnyddio eu gwybodaeth leol a'u

harbenigedd i sicrhau bod pob ceiniog yn cael ei blaenoriaethu yn briodol.

Finally, I wanted to touch on the role that the 735 community and town councils in Wales play. These councils are ideally placed to provide an invaluable view and expertise on local issues, and opportunities should be in place to utilise that fully. By giving community councils the opportunity to take on additional functions at their own request—as we propose—there is potential to increase community activity and the representation of truly local interests. In conclusion, it is time that we put citizens at the heart of local government and encourage, where possible, community involvement in public service delivery, and I urge Members to support this motion.

Nick Ramsay: The reasoning behind this motion is simple: it is about creating greater community involvement in local service delivery and truly putting the citizen at the centre of public services. We hear that phrase too often without thinking about what it means in practice. That is not just a party political point; it is too easy to use the phrase in that way, so I am grateful for the opportunity this afternoon to give my views on what it really means.

This issue came to prominence with the Beecham review of 2005. That identified many of the problems that we face with regard to local engagement. It said that there was too much of a culture of compliance in public services, and, too often, they were waiting for instruction from the Government. This provides an example of non-performance, when what is needed is political leadership based on community engagement. That does not necessarily mean community engagement coming from above or from the centre, but political leadership coming from the grass roots and from communities. The question is: how do you do this on the ground? As many speakers have said this afternoon, the Welsh Conservatives have called for directly elected mayors. We believe that this would energise local democracy and provide the sort of tangible leadership that would enable citizens to feel

Yn olaf, roeddwn i eisiau sôn am y rôl sydd gan y 735 o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru. Mae'r cynghorau mewn sefyllfa ddelfrydol i roi barn amhrisiadwy ac arbenigedd ar faterion lleol, a dylai cyfleoedd fod ar gael i wneud y mwyaf o hynny. Drwy roi cyfle i gynghorau cymuned ymgymryd â swyddogaethau ychwanegol, ar eu cais—yn unol â'n cynnig ni—mae potensial i gynyddu gweithgarwch cymunedol a chynrychiolaeth o fuddiannau gwirioneddol leol. I gloi, mae'n bryd inni roi dinasyddion wrth galon llywodraeth leol ac annog, lle bo modd, cynnwys y gymuned wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, ac rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi'r cynnig hwn.

Nick Ramsay: Mae'r rhesymeg y tu ôl i'r cynnig hwn yn syml: mae a wnelo â chreu mwy o ymwneud cymunedol wrth ddarparu gwasanaethau lleol gan roi'r dinesydd yn wirioneddol wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus. Rydym ni'n clywed yr ymadrodd hwnnw yn rhy aml heb feddwl am yr hyn mae'n ei olygu yn ymarferol. Nid yw hwnnw'n bwynt gwleidyddol yn unig; mae'n rhy hawdd defnyddio'r ymadrodd yn y ffordd honno, felly rwy'n ddiolchgar am y cyfle'r prynhawn yma i roi fy marn am beth mae'n ei olygu mewn gwirionedd.

Daeth y mater hwn i amlygrwydd yn adolygiad Beecham, 2005. Roedd yr adroddiad yn nodi llawer o'r problemau sy'n ein hwynebu o ran ymgysylltu â'r gymuned leol. Nododd fod gormod o ddiwylliant o gydymffurfio yn y gwasanaethau cyhoeddus, ac, yn rhy aml, maent yn aros am gyfarwyddyd gan y Llywodraeth. Mae hyn yn enghraifft o ddiffyg perfformiad, pan mae'r hyn sydd ei angen yw arweinyddiaeth wleidyddol yn seiliedig ar ymgysylltu â'r gymuned. Nid yw hynny o reidrwydd yn golygu ymgysylltu â'r gymuned yn tarddu oddi uchod neu o'r canol, ond arweinyddiaeth wleidyddol yn tarddu o lawr gwlad ac o gymunedau. Y cwestiwn yw: sut mae gwneud hyn ar lawr gwlad? Fel mae llawer o siaradwyr wedi dweud y prynhawn yma, mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi galw am feiri wedi eu hethol yn uniongyrchol. Rydym yn credu y byddai hyn yn symbylu

at the centre of local processes.

The mayoral idea is not new. In fact, it was the Local Government Act 2000 that provided the means for people to have a directly elected mayor through a referendum process. This is about mayors with power. If they do not have the necessary power, then there is no point. It is not about window dressing, but about people feeling that they can elect and engage with an individual who truly represents them and has a mandate. As Jon Morgan said in his opening remarks, different powers could be given to mayors, but areas such as planning, regeneration, highways, and even policing, to an extent, might all be appropriate. We believe that mayors have the potential to provide greater visibility, engagement and accountability.

'Partnership working' is another term that is often used in local government, and by the Assembly Government in telling local authorities how they should act. However, if that is to happen, mayors could have a role in energising the process. It is about better performance and delivery, and at the end of the day, that is what local democracy and local government is about. There is also a chance that mayors can break the old political stalemates that we see in too many areas. I remind people that the former mayor of London, Ken Livingstone, was first elected as an independent. That goes to show that you do not always have the old party boundaries operating in mayoral elections; they provide an opportunity for something beyond what has gone before, and maybe a new way of working in the future. Beecham said that it is essential that citizens contract performance from local service providers, and this is how they can see that things are improving, and can have confidence in the system to which they are electing people.

I am afraid to say that I will mention Communities First, because although I think that it had many good aspects, and there are many good schemes within it, the Public Accounts Committee review of Communities

democratiaeth leol ac yn darparu'r math o arweiniad pendant a fyddai'n galluogi dinasyddion i deimlo eu bod wrth wraidd prosesau lleol.

Nid yw'r syniad hwn am feiri yn newydd. Yn wir, roedd Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn darparu modd i ethol meiri yn uniongyrchol drwy broses refferendwm. Mae hyn yn ymwneud â meiri â phŵer. Os nad oes ganddynt y pŵer angenrheidiol, nid oes diben iddynt. Nid yw'n ymwneud â sioe, ond am bobl yn teimlo eu bod yn gallu dewis a chysylltu gydag unigolyn sydd wir yn eu cynrychioli a bod ganddo fandad. Fel y dywedodd Jon Morgan yn ei sylwadau agoriadol, byddai modd rhoi pwerau gwahanol i feiri, ond gallai meysydd fel cynllunio, adfywio, priffyrdd, a hyd yn oed plismona, i raddau, i gyd fod yn briodol. Credwn fod gan feiri'r potensial i ddarparu mwy o welededd, ymgysylltu ac atebolrwydd.

Mae 'gweithio mewn partneriaeth' yn derm arall a ddefnyddir yn aml mewn llywodraeth leol, a chan Lywodraeth y Cynulliad, wrth ddweud wrth awdurdodau lleol sut y dylent ymddwyn. Fodd bynnag, os yw hynny'n digwydd, gallai meiri gael rôl wrth rymuso'r broses. Mae'n ymwneud â gwell perfformiad a darparu'n well, ac yn y pendraw, dyna yw pwrpas democratiaeth leol a llywodraeth leol. Yn ogystal, mae posibilrwydd y gall meiri ddatrys yr hen sefyllfaedd gwleidyddol diddatrys sydd mewn llawer o ardaloedd. Hoffwn eich atgoffa yr etholwyd Ken Livingstone, cyn faer Llundain, yn gyntaf yn ymgeisydd annibynnol. Mae hynny'n dangos nad yw'r hen ffiniau pleidiol bob amser yn bodoli wrth ethol meiri; maent yn gyfle i weld sefyllfa newydd na fu o'r blaen, ac efallai i weld ffordd newydd o weithio yn y dyfodol. Dywedodd Beecham y mae'n hanfodol bod dinasyddion yn contractio perfformiad darparwyr gwasanaethau lleol, a dyma sut y gallant weld bod pethau'n gwella, a chael hyder yn y system y maent yn ethol pobl i weithio ynddi.

Rwy'n ofni dweud y byddaf yn sôn am Cymunedau yn Gyntaf, oherwydd er fy mod o'r farn bod llawer o agweddau da yn perthyn iddo, a bod llawer o gynlluniau da yn rhan ohono, mae adolygiad y Pwyllgor Cyfrifon

First shows what can go wrong with individual schemes despite the good intentions of many of the people involved. If there is no sense of local ownership of those schemes, then they can go awry. As that review found, there was a substantial amount of wasted resource in Communities First, so localism is not just about local democracy, but about value for money for the taxpayer.

Before I finish, I will just say a little on the issue of ring fencing, which was mentioned by Mohammad Asghar and comes up in different debates in this Chamber. On this side of the Chamber, we think that the process by which ring fencing is currently happening in terms of this year's final local government revenue and capital settlement is not an ideal way of doing things. There are 61 direct grants, and some of them involve sums as small as £10,000.

4.30 p.m.

A tenth of grants are absorbed by administration, and that was an estimate by the Welsh Local Government Association. Removing hypothecation is not a way of getting rid of all the problems; no-one is pretending that it is. However, we ask that the Minister and the Government consider hypothecation and the issue of how money is allocated to local authorities.

Finally, localism and decentralisation is the only way to go. You can only go forward with localising; if you stop, then you go backwards. As with devolution, you cannot stand still. I am grateful to have had a chance to contribute to this debate. Many important issues have been raised, and I look forward to hearing what the Minister for Social Justice and Local Government has to say on many of those important issues.

The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant): I am very surprised that the Conservatives still feel that there is a need and any mileage in laying down a motion calling on the Welsh

Cyhoeddus o Cymunedau yn Gyntaf yn dangos yr hyn a all fynd o'i le â chynlluniau unigol, er gwaethaf bwriadau da llawer o'r rhai sy'n ymwneud â'r gwaith. Os nad oes ymdeimlad o berchnogaeth leol o'r cynlluniau hynny, gallant fynd o chwith. Fel y canfu'r adolygiad, roedd gwastraff sylweddol o adnoddau yn Cymunedau yn Gyntaf, felly nid yw brogarwch yn ymwneud â democratiaeth leol yn unig, ond am roi gwerth am arian i'r trethdalwr.

Cyn i mi orffen, byddaf yn dweud ychydig am y mater o neilltuo grantiau, a grybwyllwyd gan Mohammad Asghar, ac sy'n codi mewn dadleuon gwahanol yn y Siambr hon. Ar yr ochr hon o'r Siambr, rydym o'r farn nad yw'r broses o neilltuo arian, sy'n digwydd ar hyn o bryd o ran setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol, yn ffordd ddelfrydol o wneud pethau. Mae 61 grant uniongyrchol, ac mae rhai ohonynt yn cynnwys symiau mor fach â £10,000.

Mae degfed o'r grantiau'n cael eu hamsugno gan weinyddiaeth, a dyna oedd amcangyfrif Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Nid yw cael gwared ar neilltuo yn ffordd o gael gwared ar yr holl broblemau; nid oes neb yn cymryd arno mai dyna sut y mae. Fodd bynnag, rydym yn gofyn i'r Gweinidog a'r Llywodraeth i ystyried neilltuo a'r mater o sut mae arian yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol.

Yn olaf, gweithredu'n lleol a thrwy ddatganoli yw'r unig ffordd. Gallwch ond symud ymlaen drwy weithredu'n lleol; os byddwch yn rhoi'r gorau i hyn, byddwch yn mynd yn ôl. Fel gyda datganoli, ni allwch aros yn llonydd. Rwy'n falch y cefais gyfle i gyfrannu at y ddadl hon. Mae nifer o faterion pwysig wedi eu codi, ac edrychaf ymlaen at glywed yr hyn sydd gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i'w ddweud ar lawer o'r materion pwysig hynny.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant): Rwy'n synnu'n fawr fod y Ceidwadwyr yn dal i deimlo bod angen a phwrpas cyflwyno cynnig yn galw ar

Assembly Government to put citizens at the centre of local government through greater community involvement. Building on a strong, proud Welsh tradition of community identity and self-help, we have achieved significant community involvement and continue to work to improve and develop the ways in which people and communities are involved in public services.

Putting people and communities at the heart of public services is at the core of our programme for public service improvement, and it always has been. Community engagement and involvement has never been in doubt in Wales. We do not need to reinvent it as the 'big society' or 'localism'. We have a long and proud history of mutuals, co-operatives, social enterprises and of the public sector joining forces with the third sector to ensure that people are the focus of services, not the needs of providers.

I am interested in the big society debate that one of the opposition parties has drawn to the Assembly's attention today. Let us take a look at what the big society means. We have people protesting on the streets on student fees, education maintenance allowance payments, VAT and fuel tax. The Government is trying to introduce police and crime commissioners here in Wales and in the rest of the UK. It is said that that is about localism, and Nick Ramsay rightly says that localism is about democracy and good value. The cost of an election for a PCC is around £6 million, when we are to lose 2,000 police officers. Therefore, that is not localism; it is actually taking police off the streets of Wales. That is not a good place to be.

Some of our housing associations, such as RCT Homes, are organising themselves as community mutuals and demonstrating what can be done to stimulate local regeneration. From Dŵr Cymru to local development trusts and co-operatives, we are proud of our different forms of social enterprises. These approaches understand the value of putting communities, not bureaucracies, at the heart

Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi dinasyddion yn ganolog i lywodraeth leol drwy gynnwys y gymuned yn helaethach. Gan adeiladu ar draddodiad cryf yng Nghymru o hunaniaeth gymunedol a hunangymorth, rydym wedi cyflawni cyfranogiad cymunedol sylweddol ac yn parhau i weithio i wella a datblygu'r ffyrdd y mae pobl a chymunedau yn ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus.

Mae rhoi pobl a chymunedau yn ganolog i wasanaethau cyhoeddus wrth wraidd ein rhaglen ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus, ac felly y bu bob amser. Ni fu erioed amheuaeth am gyfranogiad y gymuned yng Nghymru. Nid oes angen inni ailddyfeisio 'cymdeithas fawr' na 'lleoliaeth'. Mae gennym hanes hir a balch o gymdeithasau cydfuddiannol, mentrau cydweithredol a chymdeithasol a'r sector cyhoeddus yn gweithio â'r trydydd sector i sicrhau mai pobl yw canolbwynt gwasanaethau yn hytrach nag anghenion darparwyr.

Mae gennyf ddiddordeb yn y ddadl ynghylch 'y gymdeithas fawr' y bu i un o'r gwrthbleidiau hawlio sylw'r Cynulliad arno heddiw. Gadewch inni edrych ar yr hyn y mae'r gymdeithas fawr yn ei olygu. Mae pobl yn protestio ar y strydoedd dros ffioedd myfyrwyr, taliadau cynhaliaeth addysg, TAW a threth tanwydd. Mae'r Llywodraeth yn ceisio cyflwyno comisiynwyr yr heddlu a throseddu yng Nghymru ac yng ngweddill y DU. Dywedir bod hynny yn ymwneud â bod yn lleol. Mae Nick Ramsay'n gywir wrth ddweud bod lleoliaeth yn ymwneud â democratiaeth a gwerth da. Cost cynnal etholiad ar gyfer PCC yw tua £6 miliwn, wrth i ni golli 2,000 o heddweision. Felly, nid yw hynny'n lleoliaeth; mewn gwirionedd, tynnu heddlu oddi ar strydoedd Cymru yw hynny. Nid yw hynny'n sefyllfa dda i fod ynddi.

Mae rhai o'n cymdeithasau tai, er enghraifft Cartrefi RhCT, yn trefnu eu hunain yn sefydliadau cymunedol cydfuddiannol ac yn dangos beth mae modd ei wneud i ysgogi adfywio lleol. O Dŵr Cymru i ymddiriedolaethau datblygu lleol a mentrau cydweithredol, rydym yn falch o'n gwahanol fathau o fentrau cymdeithasol. Mae'r dulliau hyn yn deall gwerth roi cymunedau, nid

of service delivery. Co-operatives, as I said, are not new to Wales. For example, two years ago, we marked the hundred and fiftieth anniversary of the death of Robert Owen, the grandfather of the co-operative movement, and we also marked the sixtieth anniversary of Aneurin Bevan's NHS, which was modelled on the Tredegar Workmen's Medical Aid Society. Nearly 10 years ago, Glas Cymru was formed, which is a company with no shareholders that reinvests its profits for the benefit of its customers or to support charitable activities. Far from being new to Wales, our research has shown that social enterprises account for over 28,000 full time jobs, over 20,000 part-time jobs and over 100,000 volunteering opportunities in Wales. I am not quite sure where the opposition parties have been for the past few years; they just do not recognise a good place when they see one.

The Assembly Government believes strongly in putting people and communities at the centre of service design and delivery, for example, through Funky Dragon, patient involvement and tenant participation schemes. Involvement also takes place through the democratic process in relation to scrutiny, through Estyn, the Care and Social Services Inspectorate Wales and Healthcare Inspectorate Wales, which all place great value on the views of service users.

Local authorities and their partners across the public services are also fully engaged with people and communities, to ensure that they are involved in their planning and design and to use the enormous talent that we have in our communities to support delivery. I rarely support what Mark Isherwood says, but I agree that importance is put on the voluntary sector in Wales. We embrace the voluntary sector, and work with it, not against it. That is something that I am keen to promote.

The Proposed Local Government (Wales) Measure, which is currently going through the Assembly, will provide opportunities for

biwrocratiaethau, yn ganolog i ddarparu gwasanaethau. Nid yw mentrau cydweithredol, fel y dywedais, yn newydd i Gymru. Er enghraifft, dwy flynedd yn ôl, bu i i ni nodi cant a hanner o flynyddoedd ers marwolaeth Robert Owen, taid y mudiad cydweithredol, a bu i ni hefyd nodi trigain mlynedd ers sefydlu GIG Aneurin Bevan, a gafodd ei fodelu ar Gymdeithas Cymorth Meddygol Tredegar. Bron 10 mlynedd yn ôl, sefydlwyd Glas Cymru, cwmni, heb gyfranddeiliaid, sy'n ail-fuddsoddi ei elw er lles ei gwsmeriaid neu i gefnogi gweithgareddau elusennol. Ymhell o fod yn newydd i Gymru, mae ein gwaith ymchwil wedi dangos bod mentrau cymdeithasol yn rhoi cyfrif am dros 28,000 o swyddi amser llawn, dros 20,000 o swyddi rhan-amser a dros 100,000 o gyfleoedd gwirfoddoli yng Nghymru. Nid wyf yn hollol siŵr lle y bu'r gwrthbleidiau yn ystod y blynyddoedd diwethaf; dydyn nhw ddim yn gallu cydnabod sefyllfa dda pan mae un yn bodoli.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn credu yn gryf y dylid rhoi pobl a chymunedau wrth wraidd cynllunio a darparu gwasanaethau, er enghraifft, drwy'r Ddraig Ffynici, cynnwys cleifion a chynlluniau cyfranogiad tenantiaid. Yn ogystal, mae cynnwys pobl a chymunedau'n digwydd drwy'r broses ddemocrataidd wrth graffu, drwy Estyn, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, sydd i gyd yn rhoi gwerth mawr ar farn defnyddwyr gwasanaethau.

Mae awdurdodau lleol a'u partneriaid ar draws y gwasanaethau cyhoeddus hefyd yn ymgysylltu'n llawn â phobl a chymunedau, er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn eu gwaith cynllunio a dylunio ac i ddefnyddio'r dalent enfawr sydd gennym yn ein cymunedau i gefnogi darpariaeth. Anaml y byddaf yn cefnogi'r hyn y mae Mark Isherwood yn ei ddweud, ond rwyf yn cytuno bod pwysigrwydd yn cael ei roi ar y sector gwirfoddol yng Nghymru. Rydym yn croesawu'r sector gwirfoddol, ac yn gweithio gydag ef, nid yn ei erbyn. Rwy'n awyddus i hyrwyddo hynny.

Bydd y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru), arfaethedig, sydd ar hyn o bryd yn mynd trwy'r Cynulliad, yn darparu cyfleoedd i fwy

more people to get engaged in the democratic process through co-option to scrutiny committees. I know that, while it is not directly in the same vein as what you are asking for in your five-point plan, we are supporting more opportunities for people to be involved in the scrutiny process through the co-option of members to scrutiny committees, by making provision for youth representatives on community councils and making it easier for a more diverse range of people to come forward and stand for election to local councils.

Communities First engages and empowers communities to find long-term solutions. This is a prime example of how Wales has harnessed the powers of its own big society. It is interesting to note that, while the Tories claim to support the community ownership and involvement programme, the fact is that they plan to scrap the programme. We have invested significantly in our community development workforce, our volunteers and our programmes.

Darren Millar: We have made no such commitment to scrap the Communities First programme, and I would appreciate it if you could correct that remark.

Carl Sargeant: Nick Bourne has been on television making reference to the Communities First programme. When he was asked from where in his budget he would save money, his answer was from the Communities First programme. That is on the record. We had a similar exchange last week with Leighton Andrews on the education element. If you would like to explore that further, I am more than happy to do so.

To conclude, we are not complacent, and we continue to look at ways of improving quality and extending the involvement of our communities. There is compelling evidence that the Welsh Assembly Government is putting people at the heart of public service planning, design and delivery. This would include any proposals to amalgamate local authorities, through external consultation and discussions here at the Assembly. Again, Veronica seems to have read the

o bobl ymwneud â'r broses ddemocrataidd trwy eu cyfethol i bwyllgorau craffu. Er nad yw'n gwbl unol â'r hyn rydych yn gofyn amdano yn eich cynllun pum pwynt, rydym yn cefnogi mwy o gyfleoedd i bobl gymryd rhan yn y broses graffu drwy gyfethol aelodau i bwyllgorau craffu, drwy wneud darpariaeth ar gyfer cynrychiolwyr o bobl ifanc ar gynghorau cymuned a'i gwneud yn haws i ystod fwy amrywiol o bobl i ddod ymlaen a sefyll etholiad i gynghorau lleol.

Mae Cymunedau yn Gyntaf yn grymuso ac yn ymgysylltu â chymunedau i ddod o hyd i atebion tymor hir. Mae hon yn enghraifft wych o sut y mae Cymru wedi meithrin pwerau ei chymdeithas fawr ei hun yn awr. Mae'n ddiddorol nodi, er bod y Torïaid yn honni eu bod yn cefnogi'r rhaglen berchnogaeth ac ymglymiad, y ffaith yw, maen nhw'n bwriadu cael gwared ar y rhaglen. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn ein gweithlu datblygu cymunedol, ein gwirfoddolwyr a'n rhaglenni.

Darren Millar: Nid ydym wedi gwneud unrhyw ymrwymiad o'r fath, i gael gwared ar y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, a byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech gywiro'r sylw hwnnw.

Carl Sargeant: Bu Nick Bourne ar y teledu yn cyfeirio at raglen Cymunedau yn Gyntaf. Pan ofynnwyd o ble yn ei gyllideb y byddai'n arbed arian, ei ateb oedd, o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae hynny wedi ei gofnodi. Cawsom gyfnewid tebyg yr wythnos diwethaf gyda Leighton Andrews ar yr elfen addysg. Os hoffech archwilio hynny ymhellach, rwy'n fwy na bodlon i wneud hynny.

I gloi, nid ydym yn hunanfodlon, ac rydym yn parhau i edrych ar ffyrdd o wella ansawdd, ac ymestyn cyfranogiad, ein cymunedau. Mae tystiolaeth gymhellgar fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi pobl wrth galon cynllunio, dylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Byddai hyn yn cynnwys unrhyw gynigion i uno awdurdodau lleol, drwy ymgynghori allanol a thrafodaethau yma yn y Cynulliad. Unwaith eto, mae'n ymddangos bod Veronica wedi

amendments, but it appears that she does not fully understand them.

As the First Minister said last year, the big society is no big deal. We do not have to rediscover society in Wales. We have always been there, we always will be a real community, and we always will put the public at the heart of public service delivery in Wales.

Nick Bourne: It is a great privilege to reply to the debate. There was—at least until the Minister got up—broad support for the notion that we need to involve people much more in service delivery and in decisions that affect their lives, and that people rise to the responsibility of power. That point was made by Mark Isherwood and Veronica German, and we had good contributions on the same lines from Oscar and Nick Ramsay. We also had a thoughtful contribution from Dai Lloyd, who used the specific point about the disposal of playing fields and some of the difficulties of people-centred politics, which is absolutely right.

The Minister then got up to respond the debate—or nominally in response to the debate—with a speech that had obviously been written for a completely different debate. It was a very entertaining and diverting *tour d' horizon* about Robert Owen, co-ops, mutuals and social enterprises. I can assure him that we are in favour of all of those. We are so much in favour of the NHS, which he also mentioned, that we would put more money into it than the Labour Party would—a £1 billion over three years. Let me make that absolutely clear.

Carl Sargeant: On the money that you would put into the NHS, are you still committed to taking 20 per cent out of the education budget?

Nick Bourne: I am grateful for the opportunity to say that I have never said that we would take 20 per cent out of the education budget. Let it also be said that we published our figures, unlike the leader of the opposition at Westminster, Mr Ed Miliband, who has published no figures on an

darllen y gwelliannau, ond mae'n ymddangos nad yw hi'n eu deall yn llawn.

Fel y dywedodd y Prif Weinidog y llynedd, nid yw'r gymdeithas fawr yn ddim o beth. Nid oes rhaid i ni ailddarganfod cymdeithas yng Nghymru. Rydym bob amser wedi bod yno, byddwn bob amser yn gymuned go iawn, a byddwn ni bob amser yn rhoi'r cyhoedd wrth galon darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Nick Bourne: Mae'n fraint fawr cael ymateb i'r ddadl. Roedd—o leiaf tan i'r Gweinidog godi i'w draed—cefnogaeth eang i'r syniad bod angen cynnwys pobl yn llawer mwy wrth ddarparu gwasanaethau ac wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, a bod pobl yn ymateb i'r cyfrifoldeb o gael pŵer. Gwnaethpwyd y pwynt hwnnw gan Mark Isherwood a Veronica German, a chafwyd cyfraniadau da ar yr un syniadau gan Oscar a Nick Ramsay. Yn ogystal, cawsom gyfraniad ystyriol gan Dai Lloyd, a ddefnyddiodd y pwynt penodol am waredu caeau chwarae a rhai o anawsterau gwleidyddiaeth sy'n rhoi pobl yn ganolog iddi, sy'n gwbl gywir.

Yna, cododd y Gweinidog i ymateb i'r ddadl—neu mewn enw o leiaf i ymateb i'r ddadl—gydag araith a ysgrifennwyd, yn amlwg, ar gyfer dadl hollol wahanol. Roedd yn ddifyr iawn ac yn dargyfeirio *tour d' horizon* am Robert Owen, mentrau cydweithredol, cydfuddiannol a cymdeithasol. Gallaf ei sicrhau ein bod o blaid hynny i gyd. Rydym gymaint o blaid y GIG, a soniodd amdano hefyd, y byddem yn rhoi mwy o arian tuag ato na'r Blaid Lafur—£1 biliwn dros dair blynedd. Gadewch i mi wneud hynny'n gwbl glir.

Carl Sargeant: Ar yr arian y byddech yn buddsoddi yn y GIG, a ydych yn dal wedi ymrwymo i dynnu 20 y cant allan o'r gyllideb addysg?

Nick Bourne: Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i ddweud nad wyf erioed wedi dweud y byddem yn cymryd 20 y cant o'r gyllideb addysg. Gadewch i mi ddweud hefyd y bu i ni gyhoeddi ein ffigurau, yn wahanol i arweinydd yr wrthblaid yn San Steffan, Mr Ed Miliband, nad yw wedi cyhoeddi unrhyw

alternative budget. We have been clear: you would cut 8 per cent out of education, we would cut 12 per cent, with the difference made up by the fact that we trust people and that money would go directly to schools. That is what this debate is about: trusting people.

Brian Gibbons *rose—*

Nick Bourne: I will give way in a minute. I expected that you would be next, Brian. The Minister has paid lip service to localism, but other than mentioning that there were five things that we were putting forward, we did not hear anything about what you would do on directly elected mayors, which was brought in by a Labour Government. Do you think that that is a good thing?

David Lloyd *rose—*

Nick Bourne: Wait a minute; you are in the queue, Dai. Would you extend it? On armchair auditors, do you think that it is a good idea that invoices are there for people to see, whether they vote Labour or Conservative, so that they can see how their money is being spent? I think that it is a good idea. Let us hear from Brian Gibbons.

4.40 p.m.

Brian Gibbons: Thanks, Nick. I wonder whether you remember saying on the *Politics Show* a couple of months ago that the Assembly Government would have to make some difficult decisions on how the cuts are interpreted in Wales. You said that you would have to look at some of the big programmes to make savings, and that Communities First was an obvious one. Did you make that statement?

Nick Bourne: As you have said, I made no statement about abolishing Communities First. The only reference that our party has made to it in this debate was when Nick Ramsay mentioned that it has good features. We know that there are also bad features; we have heard the Minister say so himself. Therefore, yes, we would look at how the

fffigurau ar gyllideb amgen. Rydym wedi bod yn glir ar hyn: byddech chi'n torri 8 y cant ar y gyllideb addysg, byddem ni'n torri 12 y cant, gyda'r gwahaniaeth o ganlyniad i'r ffaith ein bod yn ymddiried mewn pobl ac y byddai arian yn mynd yn uniongyrchol i ysgolion. Dyna yw sylwedd y ddadl hon: ymddiried mewn pobl.

Brian Gibbons *a gododd—*

Nick Bourne: Ildiaf mewn munud. Roeddwn yn disgwyl mai chi fyddai nesaf, Brian. Mae'r Gweinidog yn esgus cefnogi lleoliaeth, ond ar wahân i sôn fod yna bum peth yr oeddem yn eu cyflwyno, ni chlywsom unrhyw beth am yr hyn y byddech yn ei wneud ar feiri a etholwyd yn uniongyrchol, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Lafur. A ydych yn credu bod hynny'n beth da?

David Lloyd *a gododd—*

Nick Bourne: Arhoswch funud; rydych chi yn y ciw, Dai. A fyddech chi'n ei ymestyn? Ar archwilwyr cadair freichiau, a ydych yn meddwl ei fod yn syniad da bod anfonebau i bobl gael gweld, boed eu bod yn pleidleisio dros Lafur neu'r Ceidwadwyr, fel y gallant weld sut y mae eu harian yn cael ei wario? Rwy'n credu bod hynny'n syniad da. Gadewch inni glywed gan Brian Gibbons.

Brian Gibbons: Diolch, Nick. Tybed a ydych yn cofio dweud ar y *Politics Show* ychydig fisoedd yn ôl y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn gorfod gwneud rhai penderfyniadau anodd ar sut y dehonglir y toriadau yng Nghymru. Gwnaethoch ddweud y byddai'n rhaid i chi edrych ar rai o'r rhaglenni mawr i wneud arbedion, a bod Cymunedau yn Gyntaf yn un amlwg. A wnaethoch chi wneud y datganiad hwnnw?

Nick Bourne: Fel y dywedaso, nid wyf wedi gwneud unrhyw ddatganiad ar ddiddymu Cymunedau yn Gyntaf. Yr unig gyfeiriad y mae ein plaid wedi'i wneud i hynny yn y ddadl hon oedd pan wnaeth Nick Ramsay sôn bod gan y rhaglen nodweddion da. Rydym yn gwybod bod nodweddion drwg hefyd; rydym wedi clywed y Gweinidog yn

money is spent on Communities First, but that is very different from abolishing it, which we would not do—any more than you would abolish the health service, although you are cutting the spending on it.

David Lloyd *rose*—

Nick Bourne: I will give way in a minute, Dai. Let me continue first, and then you can come in.

I want to go through the other three points that have not been dealt with by the Minister. The first is the importance of abolishing hypothecation, or cutting back on hypothecated grants, so that the money can go to local authorities, whom we trust to make the decisions that affect them. Secondly, on community and town councils, of which we have 735 in Wales, let us trust them more and give them some more power—again, you did not mention that, Minister. You are the Minister for local government, so why did you not respond to the debate and the points that were put? The third is the importance of local referenda, whereby people can decide how the money is spent in their own area.

David Lloyd: My point is on elected mayors. Are you perchance related to Nick Bourne, the Assembly Member, who, in 2004, while campaigning against having an elected mayor in Ceredigion, said that there was a danger in concentrating powers in the hands of one elected mayor?

Nick Bourne: That was an isolated quote. In that particular election, along with representatives of all the political parties—Plaid Cymru, the Labour Party and the Liberal Democrats—I thought, in the context of that election, that having a mayor was wrong for Ceredigion. [*Interruption.*]

The Deputy Presiding Officer: Order. I am very interested in what Nick Bourne is saying, but I cannot hear. Therefore, could you please be a little quieter?

Nick Bourne: In answer to David Lloyd's

dweud hynny ei hun. Felly, mae hynny'n wir, byddem yn edrych ar sut y mae'r arian yn cael ei wario ar Cymunedau yn Gyntaf, ond mae hynny'n wahanol iawn i'w diddymu, ac ni fyddem yn gwneud—yn yr un modd â na fyddech yn diddymu'r gwasanaeth iechyd, er eich bod yn torri ei wariant.

David Lloyd *a gododd*—

Nick Bourne: Gwnaf ildio mewn munud, Dai. Gadewch i mi barhau yn gyntaf, ac yna cewch gyfle.

Rwyf am sôn am y tri phwynt arall nad yw'r Gweinidog wedi ymdrin â nhw. Y cyntaf yw pwysigrwydd dileu'r broses neilltuo, neu dorri'n ôl ar grantiau wedi'u neilltuo, fel gall yr arian fynd at awdurdodau lleol, yr ydym yn ymddiried ynddynt i wneud y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Yn ail, o ran cynghorau cymuned a thref, y mae gennym 735 ohonynt yng Nghymru, gadewch inni ymddiried yn fwy ynddynt a rhoi mwy o bŵer iddynt—eto, ni wnaethoch sôn am hynny, Weinidog. Chi yw'r Gweinidog dros lywodraeth leol, felly pam na wnaethoch ymateb i'r ddadl a'r pwyntiau a roddwyd? Y trydydd pwynt yw pwysigrwydd refferenda lleol, lle gall pobl benderfynu sut y caiff arian ei wario yn eu hardal eu hunain.

David Lloyd: Mae fy mhwynt yn ymwneud â meiri etholedig. Tybed a ydych yn perthyn i Nick Bourne, yr Aelod Cynulliad, a ddywedodd, yn 2004, wrth ymgyrchu yn erbyn cael maer etholedig yng Ngheredigion, fod yna berygl i ganolbwyntio pwerau yn nwylo un maer etholedig?

Nick Bourne: Un dyfyniad ar ei ben ei hun oedd hwnnw. Yn yr etholiad penodol hwnnw, ynghyd â chynrychiolwyr o'r holl bleidiau gwleidyddol—Plaid Cymru, y Blaid Lafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol—yr oeddwn o'r farn, yng nghyd-destun yr etholiad hwnnw, bod cael maer yn anghywir ar gyfer Ceredigion. [*Torri ar draws.*]

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae gennyf diddordeb yn yr hyn y mae Nick Bourne yn ei ddweud, ond ni allaf ei glywed. Felly, a fyddech crystal â bod ychydig yn dawelach?

Nick Bourne: Wrth ateb pwynt David Lloyd,

point, we are talking about a referendum, and people do not have to support the existence of a mayor. It gives people the opportunity to say 'yea' or 'nay', as they did in Ceredigion, where I stood alongside representatives of the other parties here. We did not think that it was right in that context. We had the ability to say 'yea' or 'nay'—what is wrong with that?

It is difficult to say something in response to the Minister because he seemed to be in a completely different debate about co-ops and mutuals and so on, all of which are very good ideas. However, he said, in a very telling phrase, 'We are not being complacent'. I am afraid that that is exactly how it came across. He did not deal with a single substantive point that was put to him about how we could extend people power and give all people in Wales the right to decide about local services and decisions that affect them. That is the way that we need to go. We do not want centralised power, whether it lies with you or any other Minister; we need to see how we get the power out there. You said nothing constructive about how you thought that that could be done. I urge Members, therefore, to vote in support of the motion. All the contributions, other than that of the Minister, supported giving more power to individuals throughout Wales, and that is what we want to see.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there are objections. Therefore, I will defer voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.
Voting deferred until voting time.*

Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats Debate

Addysg Education

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1 and 2 in the name of Nick Ramsay.

rydym yn sôn am refferendwm, ac nid oes rhaid i bobl fod o blaid cael maer. Mae'n rhoi cyfle i bobl ddweud 'ie' neu 'na', fel y gwnaethant yng Ngheredigion, lle sefais ochr yn ochr â chynrychiolwyr y pleidiau eraill yma. Nid oeddem yn credu bod hynny'n iawn yn y cyd-destun hwnnw. Cawsom gyfle i ddweud 'ie' neu 'na'—beth sydd o'i le ar hynny?

Mae'n anodd dweud rhywbeth mewn ymateb i'r Gweinidog gan ei fod yn ymddangos fel pe bai mewn dadl hollol wahanol am gwmnïau cydweithredol a cydfuddiannol ac yn y blaen, sydd oll yn syniadau da iawn. Fodd bynnag, dywedodd, mewn ymadrodd grymus iawn, 'Nid ydym yn hunanfodlon'. Mae arnaf ofn mai dyna'n union a ddaeth drosodd. Nid wnaeth ymdrin ag un pwynt gwreiddiol a gyflwynwyd iddo ynglŷn â sut y gallem ymestyn grym pobl a rhoi hawl i bawb yng Nghymru i benderfynu am wasanaethau lleol a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Dyna'r ffordd y mae angen i ni fynd. Nid ydym am gael pŵer canolog, p'un a yw gyda chi neu unrhyw Weinidog arall; mae angen inni weld sut i gael y pŵer allan yno. Ni wnaethoch ddweud unrhyw beth adeiladol am sut rydych yn credu y gellid gwneud hynny. Yr wyf yn annog Aelodau, felly, i bleidleisio o blaid y cynnig. Mae'r holl gyfraniadau, heblaw rhai'r Gweinidog, wedi cefnogi rhoi mwy o bŵer i unigolion ledled Cymru, a dyna beth rydym am ei weld.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiadau. Felly, gohiriaf y bleidlais ar gyfer yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Cynnig NDM4653 Peter Black

Motion NDM4653 Peter Black

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

1. Yn gresynu nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi neilltuo amser yn ystod busnes y llywodraeth i ymateb i'r materion y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad PISA, ac yn y cyhoeddiad bod y bwlch gwariant rhwng Cymru a Lloegr yn cynyddu.

1. Regrets that the Welsh Assembly Government has not made time during Government business to respond to the issues highlighted by the PISA report, and the publication of the increased spending gap between England and Wales.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno Premiwm Disgybl i helpu disgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

2. Calls on the Welsh Assembly Government to introduce a Pupil Premium to help pupils from disadvantaged backgrounds.

Jenny Randerson I move the motion.

Jenny Randerson Cynigiau y cynnig.

From GCSEs, A-levels, the results of the Programme for International Student Assessment to the Estyn report: it never rains but it pours, does it not, Minister? We have had a positive deluge of bad news about poor education standards in Wales in the past few months. Yesterday, the Minister tried to shield himself with an umbrella in a debate in the Chamber, blaming everyone from teachers and pupils to parents and governors—I am surprised that he did not include the dinner ladies. All that in an attempt to deflect criticism from the Welsh Assembly Government. Today, to be fair, Minister, you put on your wellies, waded out into the storm, and gave a speech about your proposals for reform to representatives of the education sector. Leaving aside the fact that a speech about such a major set of proposals should be made here in the Chamber—although I accept that that smacks of too much accountability for the Government—my point is that yesterday's debate was the perfect opportunity for the Minister to explain himself here, and yet he ducked the issue. I am sure that the Welsh Liberal Democrats, by tabling this debate today, have now provided a perfect second chance for the Minister to explain his proposals to other Assembly Members. I give way to the Minister.

O TGAU, safon uwch, canlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr i adroddiad Estyn: a ydych yn cytuno, Weinidog, nad yw byth yn bwrw ond mae'n tywallt y glaw? Rydym wedi cael ein boddi gan newyddion drwg am safonau gwael addysg yng Nghymru yn ystod y misoedd diwethaf. Ddoe, gwnaeth y Gweinidog geisio gwarchod ei hun gydag ymbarél mewn dadl yn y Siambr, gan feio pawb o athrawon a disgyblion i rieni a llywodraethwyr—rwy'n synnu na wnaeth gynnwys y menywod cinio. Gwnaeth hynny i gyd mewn ymgais i wyro beirniadaeth o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Heddiw, i fod yn deg, Weinidog, rydych wedi gwisgo eich esgidiau glaw a cherdded drwy'r storm, a rhoi araith am eich cynigion ar gyfer diwygio i gynrychiolwyr y sector addysg. Gan anwybyddu'r ffaith y dylai araith am y casgliad mor fawr o gynigion gael ei gwneud yma yn y Siambr—er fy mod yn derbyn bod hynny'n awgrymu gormod o atebolrwydd i'r Llywodraeth—fy mhwynt i yw bod dadl ddoe wedi bod yn gyfle perffaith i'r Gweinidog esbonio ei hun yma, ac eto mae'n osgoi mater. Rwy'n siŵr bod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, drwy gyflwyno'r ddadl hon heddiw, wedi rhoi darparu ail gyfle perffaith i'r Gweinidog egluro ei gynigion i Aelodau eraill y Cynulliad. Ildiaf i'r Gweinidog.

Leighton Andrews: This morning, I delivered a 40-minute speech that provided a comprehensive analysis of the challenges before us. I would be delighted to have the opportunity to make a 40-minute speech in

Leighton Andrews: Y bore yma, traddodais araith 40 munud a oedd yn rhoi dadansoddiad cynhwysfawr o'r heriau sydd o'n blaenau. Byddwn wrth fy modd o gael cyfle i draddodi araith 40 munud yn y Siambr i amlinellu'r

the Chamber to outline these challenges, but, unfortunately, our procedures do not allow us to do that. I will happily debate the issues with Jenny anywhere in Wales. The reality is: we have answers but they can only whinge.

Jenny Randerson: Funny that you should say that, Minister. I was planning to go on to say that I was pleased to see many of the proposals in your speech this morning. Indeed, they seemed very familiar to me. I fear, Minister, that you are in danger of having read some Welsh Liberal Democrat policy documents. I will give you some examples. On Monday, Kirsty Williams announced our proposals to reform teacher training; this morning, the Minister followed suit. Yesterday, my colleague Eleanor Burnham addressed the need to pay attention to teachers' literacy, as well as that of pupils. I was pleased to see that, within the proposals outlined this morning, there were proposals for INSET days for teachers to deal with exactly that problem, in the way that Eleanor had raised the issue.

I want to address two specific issues. First, I wish to establish in the minds of all Assembly Members—including Alun Davies—the fact that PISA is an accepted way of measuring standards. It is designed to take account of international differences of culture and cannot be dismissed as a bad report. In any event, even if PISA is dismissed, other measures, such as A-levels, GCSEs and the detailed Estyn report, have all underlined the need for dramatic improvement. I give way to Alun Davies.

Alun Davies: Really, Jenny. For the avoidance of doubt, as I pointed out to the leader of your party when we had this debate some weeks ago, the document that I referred to as a bad document was the statistical bulletin that was being waved about in the Chamber at the time. I referred to it as a bad document because it allowed people like you to misrepresent the real position.

Jenny Randerson: I know that it is national

heriau hyn, ond, yn anffodus, nid yw ein gweithdrefnau yn caniatáu i ni wneud hynny. Rwy'n fwy na pharod i drafod y materion â Jenny unrhyw le yng Nghymru. Y gwir amdani yw: mae gennym atebion ond yr unig beth y gallant hwy ei wneud yw cwyno.

Jenny Randerson: Mae'n ddoniol eich bod yn dweud hynny, Weinidog. Roeddwn yn bwriadu mynd ymlaen i ddweud fy mod yn falch o weld nifer o'r cynigion yn eich araith y bore yma. Yn wir, maent yn ymddangos yn gyfarwydd iawn i mi. Rwy'n ofni, Weinidog, eich bod mewn perygl o fod wedi darllen rhai o ddogfennau polisi Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Democratiaid. Dyma rai enghreifftiau i chi. Ddydd Llun, cyhoeddodd Kirsty Williams ein cynigion i ddiwygio hyfforddiant athrawon; y bore yma, gwnaeth y Gweinidog yr un peth. Ddoe, gwnaeth fy nghydweithiwr Eleanor Burnham ymdrin â'r angen i roi sylw i lythrennedd athrawon, yn ogystal â llythrennedd disgyblion. Yn y cynigion a amlinellwyd y bore yma, roeddwn yn falch o weld bod cynigion ar gyfer diwrnodau HMS i athrawon i ddelio â'r union broblem honno, yn yr un ffordd a gododd Eleanor.

Rwyf am fynd i'r afael â dau fater penodol. Yn gyntaf, rwyf am sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad—gan gynnwys Alun Davies—yn ymwybodol o'r ffaith bod PISA yn ffordd dderbyniol o fesur safonau. Mae wedi'i gynllunio i ystyried gwahaniaethau diwylliannol rhyngwladol ac ni ellir ei ddiystyru fel adroddiad gwael. Serch hynny, hyd yn oed os diystyrrir PISA, mae mesurau eraill, megis safon uwch, TGAU ac adroddiad manwl Estyn, i gyd wedi ategu'r angen am welliant dramatig. Ildiaf i Alun Davies.

Alun Davies: Wir, Jenny. Er mwyn osgoi amheuaeth, fel y dywedais wrth arweinydd eich plaid pan gawsom y ddadl hon rai wythnosau yn ôl, y ddogfen y cyfeiriais ati fel dogfen wael oedd y bwletin ystadegol oedd yn cael ei chwifio o amgylch y Siambr ar y pryd. Cyfeiriais ati fel dogfen wael gan ei bod yn caniatáu i bobl fel chi i gamliwio'r sefyllfa go iawn.

Jenny Randerson: Gwn ei bod yn wythnos

storytelling week, Alun, but you really are stretching the possibilities of reality there.

Secondly, I wish to deal with funding issues. This is where I depart from the Minister's prescription. The Minister has said that the £604 funding gap bears no responsibility for the problems that the Welsh education sector faces. He is in a pretty lonely place in saying that. First of all, 43 per cent of the Welsh teachers who responded to the PISA survey complained about a lack of equipment. Equipment costs money. PISA estimated that 6 to 9 per cent of the differences in attainment were explained by funding differences across countries. The Minister always tells me, when I say this, that other countries spend less and achieve more. I fully accept that. International comparisons of education spending are difficult, because different countries include different things. However, you can make comparisons within the UK; we count roughly the same things, from one UK country to another. We are lagging behind, within the UK, in terms of spending and standards. I give way again to the Minister.

Leighton Andrews: Does the Member accept that two councils in Wales spend more than the average figure in England that she likes to quote? One is Ceredigion and the other is Blaenau Gwent. Ceredigion comes tenth when you look at the number of pupils scoring five GCSEs, including English or Welsh and mathematics, and Blaenau Gwent comes twenty-first out of 22 on that score. Yet, education in both of these authorities is funded above the English average. So, where is your evidence that funding dictates performance?

4.50 p.m.

Jenny Randerson: Funding does not dictate performance; funding affects performance. There is a big difference between those two, Minister. In those two specific examples, you are also looking at very different counties sociologically. Indeed, in the case of Ceredigion, you are looking at a county that

genedlaethol adrodd straeon, Alun, ond rydych wir yn gor-ddweud y gwirionedd yma.

Yn ail, hoffwn ddelio â materion ariannu. Dyma lle rwyf yn ymadael â rhagnodyn y Gweinidog. Mae'r Gweinidog wedi dweud nad yw'r bwlch cyllido o £604 yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb ar y problemau sy'n wynebu'r sector addysg yng Nghymru. Mae mewn man eithaf unig wrth ddweud hynny. Yn gyntaf, gwnaeth 43 y cant o athrawon Cymru a ymatebodd i arolwg PISA gwyno am ddiffyg offer. Mae offer costio arian. Amcangyfrifodd PISA y gellir egluro 6 i 9 y cant o'r gwahaniaethau mewn cyrhaeddiad drwy wahaniaethau ariannu ar draws gwledydd. Mae'r Gweinidog bob amser yn dweud wrthyf, pan ddywedaf hyn, fod gwledydd eraill yn gwario llai ac yn cyflawni mwy. Rwy'n derbyn hynny'n llwyr. Mae cymharu gwariant addysg yn rhyngwladol yn anodd, gan fod gwledydd gwahanol yn cynnwys pethau gwahanol. Fodd bynnag, gallwch gymariaethau o fewn y DU; rydym yn cyfrif yn fras yr un pethau, o un wlad yn y DU i'r llall. Rydym ar ei hôl hi, o fewn y DU, o ran gwariant a safonau. Ildiaf unwaith eto i'r Gweinidog.

Leighton Andrews: A yw'r Aelod yn derbyn bod dau gyngor yng Nghymru yn gwario mwy na'r ffigur cyfartalog yn Lloegr y mae hi'n hoff o'i ddyfynnu? Un yw Ceredigion a'r llall yn Blaenau Gwent. Daw Ceredigion yn ddegfed pan edrychwch ar y nifer o ddisgyblion sy'n cael pump TGAU, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, a Blaenau Gwent yw rhif 21 allan o 22 ar y sgôr hwnnw. Eto i gyd, ariennir addysg yn y ddau awdurdod hyn uwchben cyfartaledd Lloegr. Felly, ble mae eich tystiolaeth bod arian yn pennu perfformiad?

Jenny Randerson: Nid yw cyllid yn pennu perfformiad; mae cyllid yn effeithio ar berfformiad. Mae gwahaniaeth mawr rhwng y ddau hynny, Weinidog. Yn y ddwy enghraifft benodol hynny, rydych hefyd yn edrych ar siroedd gwahanol iawn yn gymdeithasegol. Yn wir, yn achos

spends a phenomenal amount of money on school transport. The impact of rurality is considerable in that case.

As I was saying, the comparison works across the UK countries. Teachers' unions believe that the funding gap bears some responsibility for poorer achievement. Dai Havard MP was featured in the *Western Mail* yesterday as saying that high unemployment in his constituency was due to low skills and that low skills were due to poor funding.

Finally, the Minister and his colleagues are positively queuing up here, week after week, to blame any problem in Wales on low funding from the UK Government. Indeed, the First Minister himself pledged a 1 per cent increase over and above the block grant as part of his leadership campaign—saying that education spending counts and that it does have effect. I thought that Leighton Andrews orchestrated the First Minister's leadership campaign. So, Minister, you cannot have it both ways. You are saying one day that funding counts, but another day that it does not count.

Jeff Cuthbert *rose*—

The Deputy Presiding Officer: Order. I do not think that the Member is giving way.

Jenny Randerson: No, I cannot give way anymore. I have been generous in giving way three times already. I am sorry, Jeff.

The Welsh Liberal Democrats believe that a pupil premium—the details of which we gave, complete with costings, in our draft budget proposals—would address the problems. It would not solve all the problems at once, but it would address them. That pupil premium would be directly aimed at the poorest pupils—those most likely to struggle in school. It would be directly sent to schools to spend in the way that they thought was most effective for the pupils concerned. You well know that, if we deal with those pupils who are finding it most difficult, that has a knock-on effect on those other pupils in the class who are affected by that issue. So, a pupil premium alone would not solve the

Ceredigion, rydych yn edrych ar sir sy'n gwario swm aruthrol o arian ar gludiant ysgol. Mae effaith natur wledig yn sylweddol yn yr achos hwnnw.

Fel y dywedais, mae'r gymhariaeth yn gweithio ar draws gwledydd y DU. Mae undebau athrawon yn credu bod y bwlch cyllido yn ysgwyddo rhywfaint o gyfrifoldeb ar gyfer cyflawniad gwaeth. Dywedodd Dai Havard AS yn y *Western Mail* ddoe mai'r rheswm dros ddiweithdra uchel yn ei etholaeth oedd oherwydd diffyg sgiliau a bod diffyg sgiliau o ganlyniad i gyllid gwael.

Yn olaf, roedd y Gweinidog a'i gydweithwyr yn ciwio yma, wythnos ar ôl wythnos, i feio unrhyw broblem yng Nghymru ar ddiffyg ariannu gan Lywodraeth y DU. Yn wir, gwnaeth y Prif Weinidog ei hun addo cynnydd o 1 y cant uwchben y grant bloc fel rhan o'i ymgyrch arweinyddiaeth—gan ddweud bod gwariant addysg yn cyfrif a'i fod yn cael effaith. Roeddwn yn credu mai Leighton Andrews wnaeth gydlynu ymgyrch arweinyddiaeth y Prif Weinidog. Felly, Weinidog, ni allwch ei gael bob ffordd. Rydych yn dweud un diwrnod bod ariannu yn cyfrif, ond diwrnod arall nad yw'n cyfrif.

Jeff Cuthbert *a gododd*—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Nid wyf yn credu bod yr Aelod am ildio.

Jenny Randerson: Na, ni allaf ildio mwy. Rwyf wedi bod yn hael yn ildio tair gwaith yn barod. Mae'n ddrwg gennyf, Jeff.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu y byddai premiwm disgyblion—gwnaethom roi manylion hynny, ynghyd â chostau, yn ein cynigion cyllideb ddrafft—yn mynd i'r afael â'r problemau. Ni fyddai'n datrys yr holl broblemau ar unwaith, ond byddai'n ymdrin â nhw. Byddai'r premiwm disgyblion yn cael ei anelu'n uniongyrchol at y disgyblion tlotaf—y rheiny sydd fwyaf tebygol o gael trafferth yn yr ysgol. Byddai'n cael ei anfon yn uniongyrchol i ysgolion i'w wario yn y ffordd sydd fwyaf effeithiol ar gyfer y disgyblion dan sylw yn eu barn nhw. Byddwch yn gwybod, os byddwn yn delio â'r disgyblion hynny sy'n ei chael fwyaf anodd, byddai hynny'n cael effaith gynyddol ar

problems, but it would start to address them. The Welsh Liberal Democrats believe that it is time that the Minister accepted this and included a commitment to improve funding to start to close the funding gap, as well as the other measures that he put forward this morning.

Gwelliant 1 Nick Ramsay

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y byddai cyllido ysgolion yn uniongyrchol yn ailgyfeirio adnoddau i wasanaethau addysg rheng flaen ac yn dechrau cau'r bwloch cyllido cynyddol rhwng Cymru a Lloegr.

Gwelliant 2 Nick Ramsay

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y byddai datganoli pwerau i ysgolion yn arwain at wella safonau addysg.

Paul Davies: I move amendments 1 and 2.

I am pleased to be able to take part in this debate. As I have said before, there is no doubt that we were all extremely concerned and disappointed by the PISA figures for Wales in December. It is disappointing that Wales remains the worst performing nation of the United Kingdom. In the wake of your statement earlier today, Minister, I welcome some of the steps that you are planning to take to drive up educational standards in Wales. For example, I very much agree with your plans not to approve any new initiatives unless they add value to our demand for higher performance. We must look at all aspects of our system, from teaching standards to school autonomy, leadership and management issues. I am pleased that your statement today shows a number of steps that you will be implementing in some of these areas.

ddisgyblion eraill yn y dosbarth y mae'r mater hwnnw'n effeithio arnynt. Felly, ni fyddai premiwm disgyblion ar ei ben ei hun yn datrys y problemau, ond byddai'n dechrau mynd i'r afael â hwy. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn credu ei bod yn bryd i'r Gweinidog dderbyn hyn a'i fod yn cynnwys ymrwymiad i wella cyllid i ddechrau cau'r bwloch ariannu, yn ogystal â'r mesurau eraill a gynigiodd y bore yma.

Amendment 1 Nick Ramsay

Add as new point at end of motion:

Believes that directly funding schools would redirect resources to frontline education services and start closing the widening funding gap between England and Wales.

Amendment 2 Nick Ramsay

Add as new point at end of motion:

Believes that devolving powers to schools will lead to an improvement in educational standards.

Paul Davies: Cynigiau welliannau 1 a 2.

Rwyf yn falch o gael cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon. Fel y dywedais o'r blaen, nid oes amheuaeth ein bod i gyd yn bryderus iawn ac yn siomedig gan ffigurau PISA ar gyfer Cymru ym mis Rhagfyr. Mae'n siomedig bod Cymru yn parhau i fod y genedl sy'n perfformio waethaf y Deyrnas Unedig. Yn sgîl eich datganiad yn gynharach heddiw, Weinidog, rwy'n croesawu rhai o'r camau rydych yn bwriadu eu cymryd i godi safonau addysgol yng Nghymru. Er enghraifft, rwyf yn cytuno â'ch cynlluniau i beidio â chymeradwyo unrhyw fentrau newydd oni bai eu bod yn ychwanegu gwerth at ein galw am well perfformiad. Mae'n rhaid inni edrych ar bob agwedd ar ein system, o safonau addysgu i faterion ymreolaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth. Rwy'n falch bod eich datganiad heddiw yn dangos nifer o gamau y byddwch yn eu gweithredu mewn rhai o'r meysydd hyn.

However, I would like to raise one point in relation to your statement. You made no specific reference to the national curriculum and I would be interested to know whether there will be any changes or a review of the curriculum in the near future. We must ensure that the curriculum is fit for purpose by placing sufficient focus on essential life skills, such as modern foreign languages, financial management and entrepreneurship.

As I have acknowledged here in recent weeks, it is clear from the PISA report that underfunding alone is not the sole contributing factor to these poor results, which the Minister refers to in his speech. OECD analysts have made it clear that there are other areas that need to be further examined as far as the PISA report is concerned. I am pleased that the Minister's statement says that the Welsh Assembly Government is taking steps to address some of these issues.

Jeff Cuthbert: I am grateful to Paul for giving way. With regard to funding, how would you seek to fund Welsh schools? I have in front of me the quotation from Nick Bourne, which he says he did not say. However, on *BBC Wales Today* on 17 March, in answer to a question from Betsan Powys, he said:

'It's about 20 per cent, of course, because that's our priority'.

So, that was said. If that were to be implemented, how would you be able to say what you are saying now?

Paul Davies: I am pleased that you intervened, Jeff, because I am just coming to some of the points that I want to make regarding funding. You will see from the agenda that amendment 1, which we tabled, refers to our direct funding policy—a policy that we believe would take steps to address the funding gap and, in turn, drive up standards. Directly funding schools from the Welsh Assembly Government would also help to alleviate the cost of administering education and drive up educational standards—something that, incidentally, the

Fodd bynnag, hoffwn godi un pwynt mewn cysylltiad â'ch datganiad. Ni wnaethoch gyfeirio'n benodol o gwbl at y cwricwlwm cenedlaethol a byddai'n ddiddorol gwybod a fydd unrhyw newidiadau neu adolygiad o'r cwricwlwm yn y dyfodol agos. Mae'n rhaid inni sicrhau bod y cwricwlwm yn addas at y diben drwy ganolbwyntio'n ddigonol ar sgiliau bywyd hanfodol, megis ieithoedd tramor modern, rheolaeth ariannol ac entrepreneuriaeth.

Fel yr wyf wedi cydnabod yma yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae'n amlwg o adroddiad PISA nad diffyg ariannu ar ei ben ei hun yw'r unig ffactor sy'n cyfrannu at y canlyniadau gwael hyn, y cyfeiriodd y Gweinidog atynt yn ei araith. Mae dadansoddwyr OECD wedi ei gwneud yn glir bod angen ymchwilio ymhellach i feysydd eraill mewn cysylltiad ag adroddiad PISA. Rwy'n falch bod datganiad y Gweinidog yn dweud bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd camau i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn.

Jeff Cuthbert: Rwy'n ddiolchgar i Paul am ildio. O ran ariannu, sut y byddech yn ceisio ariannu ysgolion Cymru? O fy mlaen mae gennyf y dyfyniad gan Nick Bourne, na ddywedodd. Fodd bynnag, ar *BBC Wales Today* ar 17 Mawrth, mewn ateb i gwestiwn gan Betsan Powys, dywedodd:

'Mae'n ymwneud â 20 y cant, wrth gwrs, gan mai dyna yw ein blaenoriaeth'.

Felly, dyna a ddywedwyd. Petai hynny'n cael ei weithredu, sut y byddech yn gallu dweud yr hyn yr ydych yn ei ddweud yn awr?

Paul Davies: Rwy'n falch eich bod wedi ymyrryd, Jeff, oherwydd yr oeddwn ar fin trafod rhai o'r pwyntiau yr oeddwn am eu gwneud ynglŷn â chyllid. Gallwch weld o'r agenda bod gwelliant 1, a gyflwynwyd gennym, yn cyfeirio at ein polisi cyllid uniongyrchol—polisi, yn ein barn ni, a fyddai'n cymryd camau i fynd i'r afael â'r bwch cyllido ac, yn ei dro, gwella safonau. Byddai ariannu ysgolion yn uniongyrchol o Lywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn helpu i leddfu'r gost o weinyddu addysg a chodi safonau—rhywbeth, gyda llaw, nad yw'r

Minister has not yet ruled out.

We saw evidence in the National Audit Office report on academies that schools that are directly funded provide high educational standards. I acknowledge that the report refers specifically to academies, but I think that this success provides good evidence for the direct funding of schools. I believe that it would push power down to the grass roots, to professionals with an intricate knowledge of pupils' needs.

Amendment 2 refers to devolving powers to schools. I believe very much that devolving powers to schools would lead to an improvement in educational standards. As I have said before, freedom and flexibility for schools will generate an improvement in educational standards. Schools that are left on their own and not subjected to too much interference tend to perform better. Everyone involved in a school, including parents, teachers and children, should have more of a say in how the school is run. Giving schools greater autonomy will drive up educational standards.

As I said when the PISA results first came out, teaching quality is also a major factor in analysing the PISA results. I have also said before that Finland, which the Minister mentioned in his speech, South Korea and Singapore have all made teaching a high-status, tough-to-enter profession, with a strong emphasis on continuing professional development. Given the circumstances in which we find our educational standards, it is essential that teaching standards are reviewed comprehensively. I welcome the steps that you are taking, Minister, in relation to teaching, particularly the review of teacher induction and teacher training. I look forward to seeing the steps being implemented in the very near future.

Finally, I acknowledge that the Minister is, I think, trying to address the issue of management by referring to federating schools in his statement. However, I would be grateful if the Minister could expand on this point in his response by detailing how

Gweinidog wedi'i diystyru eto.

Gwelsom dystiolaeth yn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar academiâu bod ysgolion a ariennir yn uniongyrchol yn darparu safonau addysgol uchel. Rwy'n cydnabod bod yr adroddiad yn cyfeirio'n benodol at academiâu, ond credaf fod y llwyddiant hwn yn darparu tystiolaeth dda ar gyfer ariannu ysgolion yn uniongyrchol. Credaf y byddai'n rhoi grym i lawr gwlad, i weithwyr proffesiynol sydd â gwybodaeth fanwl am anghenion y dysgyblion.

Mae gwelliant 2 yn cyfeirio at ddatganoli pwerau i ysgolion. Rwy'n credu'n gryf y byddai datganoli pwerau i ysgolion yn arwain at welli safonau addysgol. Fel y dywedais o'r blaen, bydd rhyddid a hyblygrwydd i ysgolion yn gwella safonau addysgol. Mae ysgolion sy'n cael eu gadael ar eu pen eu hunain ac nad ydynt yn cael gormod o ymyrraeth yn tueddu i berfformio'n well. Dylai pawb sydd ynghlwm ag ysgol, gan gynnwys rhieni, athrawon a phlant, gael mwy o lais yn y modd y mae'r ysgol yn cael ei rhedeg. Bydd rhoi mwy o annibyniaeth i ysgolion yn codi safonau addysgol.

Fel y dywedais pan gyhoeddwyd canlyniadau PISA gyntaf, mae safon addysgu hefyd yn ffactor pwysig wrth ddadansoddi canlyniadau PISA. Rwyf hefyd wedi dweud o'r blaen bod y Ffindir, y gwnaeth y Gweinidog gyfeirio ati yn ei araith, De Corea a Singapore wedi gwneud addysg yn broffesiwn uchel ei statws sy'n anodd mynd iddo, gyda phwyslais cryf ar ddatblygiad proffesiynol parhaus. O ystyried yr amgylchiadau y mae ein safonau addysgol ynddynt, mae'n hanfodol bod safonau addysgu yn cael eu hadolygu yn gynhwysfawr. Croesawaf y camau yr ydych yn eu cymryd, Weinidog, mewn cysylltiad ag addysg, yn enwedig yr adolygiad o gynefino athrawon a hyfforddiant athrawon. Edrychaf ymlaen at weld y camau yn cael eu rhoi ar waith yn y dyfodol agos iawn.

Yn olaf, hoffwn gydnabod bod y Gweinidog, rwy'n meddwl, yn ceisio mynd i'r afael â'r mater rheoli drwy gyfeirio at ffederaleiddio ysgolion yn ei ddatganiad. Fodd bynnag, byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog ymhelaethu ar y pwynt hwn yn ei ymateb

federation will deliver and ensure better management in our schools.

The Deputy Presiding Officer: Order. Could you wind up, please?

Paul Davies: Yesterday, we all acknowledged that a sound grasp of basic numeracy and literacy is critical to furthering a young person's ambition and allowing them to gain the knowledge necessary to make a significant contribution to the Welsh economy. Therefore, I hope that the steps that the Welsh Assembly Government is planning to take in relation to educational standards will address these issues so that we do not see a repeat of these circumstances in future.

Peter Black: I notice that both the Minister and now the Conservatives are saying that underfunding is not the cause of the poor performance. I think that we accept that underfunding is one factor causing this problem, but I do not think that it is any surprise that both parties are saying that this is the case when, under Labour and Plaid Cymru, underfunding has increased to £604 per pupil and given that, if the Conservatives had their way, it would rise to £881 per pupil. Even with the dividend that Paul Davies referred to—assuming that it existed—as a result of directly funding schools from Cardiff bay, we would still be talking about a rise to £760 or £770 per pupil under the Conservative Party's budget proposals. Personally, I do not want schools in Swansea, Bridgend and Neath Port Talbot run from Cardiff. People want their schools to be run locally, and they want them to be funded locally, so that local politicians can be held accountable for how those schools are run. It is important for that principle to be maintained.

5.00 p.m.

In terms of the funding debate, the £604 spending gap has had a significant impact, not just on the underperformance, but in terms of how we can put this right. I welcomed the First Minister's commitment,

drwy roi manylion am sut y bydd ffederaleiddio yn cyflwyno ac yn sicrhau gwell rheolaeth yn ein hysgolion.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A allech ddirwyn eich cyfraniad i ben, os gwelwch yn dda?

Paul Davies: Ddoe, gwnaethom i gyd gydnabod bod gafael gadarn ar rifedd a llythrennedd sylfaenol yn hanfodol i ddatblygu uchelgais person ifanc a'u galluogi i gael y wybodaeth angenrheidiol er mwyn gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru. Felly, rwy'n gobeithio y bydd y camau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu eu cymryd mewn perthynas â safonau addysgol yn mynd i'r afael â'r materion hyn fel nad fydd yr amgylchiadau hyn yn cael eu hailadrodd yn y dyfodol.

Peter Black: Rwy'n sylwi bod y Gweinidog a bellach y Ceidwadwyr yn dweud nad diffyg ariannu yw achos perfformiad gwael. Credaf ein bod yn derbyn bod diffyg ariannu yn un ffactor sy'n achosi'r broblem hon, ond nid wyf yn credu ei bod yn unrhyw syndod bod y ddwy blaid yn dweud bod hyn yn wir pan, o dan y Blaid Lafur a Phlaid Cymru, mae diffyg ariannu wedi cynyddu i £604 fesul disgybl ac o gofio, pe byddai'r Ceidwadwyr wedi cael eu ffordd, byddai wedi codi i £881 fesul disgybl. Hyd yn oed gyda'r difidend y cyfeiriodd Paul Davies ato—gan gymryd ei fod yn bodoli—o ganlyniad i ariannu ysgolion yn uniongyrchol o fae Caerdydd, byddem yn dal i sôn am gynnydd i £760 neu £770 fesul disgybl o dan gynigion cyllideb y Blaid Geidwadol. Yn bersonol, nid wyf am weld ysgolion yn Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot yn cael eu rhedeg o Gaerdydd. Mae pobl am i'w hysgolion gael eu rhedeg yn lleol, ac maent am iddynt gael eu hariannu yn lleol, fel y gellir dwyn gwleidyddion lleol i gyfrif am sut caiff yr ysgolion hynny eu rhedeg. Mae'n bwysig i egwyddor honno gael ei chynnal.

O ran y ddadl am yllid, mae'r bwch gwario o £604 wedi cael effaith sylweddol, nid yn unig ar y tanberfformio, ond o ran sut y gallwn ddatrys hyn. Rwy'n croesawu ymrwymiad y Prif Weinidog, sydd yng nghyllideb y

which is in next year's budget, to add the 1 per cent extra into education over and above the Welsh block, albeit still a negative. I welcome that because it is important to show that the First Minister himself acknowledges the importance of funding in terms of this debate, and the importance of having the money to fund teachers to target those pupils who are underperforming, to help those pupils who come from deprived areas and are having problems and, in particular, to take up a number of initiatives around literacy and numeracy, some of which the Minister for education announced in his written statement this morning.

I also noted that the Minister said that he would debate this issue anywhere in Wales. It seems that the Chamber is one of the few places that he is not prepared to initiate a debate. Both of the debates so far—on the PISA report, and on Estyn and the funding gap—have been initiated by the Welsh Liberal Democrats, who seem more concerned about the democratic accountability of this Government than the Minister, who is not prepared to make an oral statement to this Chamber, or to initiate a debate of his own.

Leighton Andrews: I initiated a debate yesterday on literacy, which went into a number of these issues and outlined some of the things that I actually said in the speech this morning. We also have a formal process, as he should be aware, for the debates on the Estyn inspectors report, to which we will turn in due course. I look forward to engaging in that at the appropriate moment. We are not running away from anything; we have contributed to this debate and, today, we have announced a comprehensive series of measures.

Peter Black: That is the problem, Minister. You initiated a debate yesterday in this Chamber, and then brought your announcement outside the Chamber this morning to a press conference. Wherever you made that speech, it certainly was not here; and the debate was not here on those measures. We have not had a chance to properly scrutinise what you put forward, although I personally welcome many of the issues in that statement. You have not

flwyddyn nesaf, i ychwanegu 1 y cant yn ychwanegol at addysg ar ben bloc Cymru, ere i fod yn dal yn negyddol. Rwyf yn croesawu hynny oherwydd ei bod yn bwysig dangos bod y Prif Weinidog ei hun yn cydnabod pwysigrwydd arian yn y ddadl hon, a phwysigrwydd cael yr arian i ariannu athrawon i dargedu'r disgyblion hynny sy'n tanberfformio, i helpu'r disgyblion hynny sy'n dod o ardaloedd difreintiedig ac yn cael problemau ac, yn benodol, i ymgymryd â nifer o fentrau yn ymwneud â llythrennedd a rhifedd, y bu i'r Gweinidog dros addysg eu gyhoeddi rai ohonynt yn ei ddatganiad ysgrifenedig y bore yma.

Nodais hefyd y dywedodd y Gweinidog y byddai'n trafod y mater hwn yn unrhyw le yng Nghymru. Ymddengys mai'r Siambr yw un o'r ychydig leoedd lle nad yw'n barod i gychwyn dadl. Mae'r ddwy ddadl hyd yn hyn—ar adroddiad PISA, ac ar Estyn a'r bwloch cyllid—wedi cael eu cychwyn gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, sy'n ymddangos fel eu bod yn pryderu fwy am atebolrwydd democrataidd y Llywodraeth hon nag yw'r Gweinidog, sy'n amharod i wneud datganiad llafar i'r Siambr hon, na chychwyn trafodaeth ei hun.

Leighton Andrews: Cychwynais ddadl ddoe ar lythrennedd, a aeth i mewn i nifer o'r materion hyn ac amlinellodd rai o'r pethau a ddywedais mewn gwirionedd yn yr araith y bore yma. Mae gennym hefyd broses ffurfiol, fel y dylai wybod, ar gyfer y dadleuon ar adroddiad arolygwyr Estyn, y byddwn yn troi atynt maes o law. Edrychaf ymlaen at gymryd rhan yn hynny ar yr adeg priodol. Nid ydym yn rhedeg i ffwrdd o unrhyw beth; rydym wedi cyfrannu at y ddadl hon ac, heddiw, rydym wedi cyhoeddi cyfres gynhwysfawr o fesurau.

Peter Black: Dyna'r broblem, Weinidog. Gwnaethoch gychwyn dadl ddoe yn y Siambr hon, ac yna gwneud cyhoeddiad y tu allan i'r Siambr y bore yma i gynhadledd i'r wasg. Ble bynnag y gwnaethoch yr araith honno, yn sicr nid oedd yn y fan hyn; ac nid oedd y ddadl yn y fan hyn ar y mesurau hynny. Ni chawsom gyfle i graffu'n iawn ar yr hyn y gwnaethoch ei gyflwyno, er fy mod yn bersonol yn croesawu llawer o'r materion yn y datganiad hwnnw. Nid ydych wedi

initiated a debate on what you are proposing today, nor have you initiated a debate on the PISA report. We are also still waiting to hear about what is happening with Estyn. All of that is part of a big picture about what has gone wrong with our education system over the last three or four years and beyond that, under Labour, and under Labour and Plaid Cymru. You might be trying to put things right now, but it appears to be too little too late. The imminence of an Assembly election and a raft of announcements from Plaid Cymru on its education policies, all of which defy its record over the last three or four years, seems to indicate that it is more concerned about the electoral considerations than about the education of this country.

The school inspections body has stated that nearly one third of schools in Wales are not good enough; we have had the PISA report, which states that our children are lagging far behind the rest of the United Kingdom; and 40 per cent of children entering secondary school had a reading age below their chronological age. The case stacks up. You might say that you have come up with the initiative, but as Jenny Randerson has pointed out, we are not just talking about funding; we have talked about many of these initiatives in the past. The reading test is very welcome, but we have talked in the past about the fact that the current assessment system is not good enough. The teacher assessments are now being addressed in your statement but, again, that is something that the Welsh Liberal Democrats have addressed.

I very much welcome a national system of grading schools because that, in particular, will help parents to assess which schools are performing and which schools are not. The fact is, Minister, that the record of your Government—the record of Labour and Plaid Cymru—on this system has been absolutely woeful. At every opportunity, you have tried to avoid accountability for that record.

Brian Gibbons: Much of the debate that has taken place around the PISA and Estyn reports has focused on national performance.

cychwyn dadl ar yr hyn rydych yn ei gynnig heddiw, ac nid ydych wedi cychwyn dadl ar yr adroddiad PISA. Rydym hefyd yn dal i aros i glywed am yr hyn sy'n digwydd gydag Estyn. Mae hynny i gyd yn rhan o ddarlun ehangach am yr hyn sydd wedi mynd o'i le gyda'n system addysg dros y tair neu bedair blynedd diwethaf a thu hwnt i hynny, o dan Llafur, ac o dan Llafur a Phlaid Cymru. Efallai eich bod yn ceisio datrys rhai o'r pethau hyn yn awr, ond mae'n ymddangos i fod yn rhy ychydig, yn rhy hwyr. Mae agosrwydd etholiad y Cynulliad, a nifer o gyhoeddiadau gan Plaid Cymru ar ei bolisiau addysg, pob un ohonynt yn herio ei record dros y tair neu bedair blynedd diwethaf, yn tueddu i ddangos ei fod yn pryderu mwy am yr ystyriaethau etholiadol nag am y addysg y wlad hon.

Mae'r corff arolygu ysgolion wedi datgan nad yw bron i draean o ysgolion yng Nghymru yn ddigon da; rydym wedi cael yr adroddiad PISA sy'n dweud bod ein plant yn llusgo ymhell y tu ôl i weddill y Deyrnas Unedig; a bod gan 40 y cant o blant sy'n cychwyn ysgol uwchradd oedran darllen sy'n is na'u hoedran cronolegol. Mae'r achos yn dal dŵr. Gallech ddweud eich bod wedi meddwl am y fenter, ond fel y dywedodd Jenny Randerson, nid ydym yn sôn am ddim ond arian; rydym wedi sôn am nifer o'r mentrau hyn yn y gorffennol. Mae'r prawf darllen i'w groesawu'n fawr, ond rydym wedi siarad yn y gorffennol am y ffaith nad yw'r system asesu presennol yn ddigon da. Mae'r asesiadau athrawon yn awr yn cael sylw yn eich datganiad, ond, unwaith eto, mae hynny'n rhywbeth y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi mynd i'r afael ag o.

Rwyf yn croesawu'n fawr system genedlaethol o ysgolion graddio oherwydd dyna, yn arbennig, fydd yn helpu rhieni i asesu pa ysgolion sy'n perfformio a pha rai sydd ddim. Y ffaith amdani yw, Weinidog, fod record eich Llywodraeth—record Llafur a Phlaid Cymru—ar y system hon wedi bod yn gwbl druenus. Ar bob cyfle, rydych wedi ceisio osgoi atebolrwydd am y record honno.

Brian Gibbons: Mae llawer o'r ddadl am adroddiadau PISA ac Estyn wedi canolbwyntio ar berfformiad cenedlaethol. I'r

Insofar as various individual jurisdictions have responsibility for education delivery, that is entirely fair enough. However, I do not think that it should obscure one of the key drivers, which was identified by the PISA report in terms of unequal education performance; that is, how we respond to the challenge of socioeconomic disadvantage. The PISA report did point out that there is educational failure and that there are poor educational outcomes for many. According to the PISA study, the people who suffer from educational disadvantage were not a random group; they could be identified because of their social and economic disadvantage. In fact, the PISA report points out that, within the United Kingdom, inequality of educational attainment can be accounted for by socioeconomic variables to the tune of 75 per cent and more, with the United Kingdom having the second highest level of socioeconomic-driven variation in the OECD report. However, we are also told by the PISA report that the United Kingdom is well up to international averages in terms of its educational spend and the equality of the spend distribution. So, the PISA report says that we are failing our disadvantaged pupils not by the quantity of spend in education, but by the quality of what we get for that spend. So, the issue of inequity is not inequity of provision in terms of quantity—it is inequity of provision in terms of quality.

PISA also points out that while socioeconomic disadvantage is a strong driver of educational outcomes, such poor outcomes are not inevitable and can be overcome by appropriate means. This must be our challenge. Statistics published by the statistics unit in March of last year showed that leadership is being given; indeed, in my local authority of Neath Port Talbot County Borough Council, which has a relatively high level of educational disadvantage, schools are providing real added value for their pupils, regardless of their socioeconomic circumstances. Comprehensive schools such as Sandfields Comprehensive School and Cymer Afan Comprehensive School in my constituency have demonstrated their ability to produce better results than their socioeconomic intake would suggest. So, we can do better despite socioeconomic

graddau y mae gan wahanol awdurdodaethau unigol gyfrifoldeb am ddarparu addysg, mae hynny'n hollol deg. Fodd bynnag, ni thybiaf y dylai guddio un o'r gyrwyr allweddol, a nodir yn yr adroddiad PISA o ran perfformiad addysg anghyfartal; hynny yw, sut rydym yn ymateb i her anfantais economaidd-gymdeithasol. Tynnodd adroddiad PISA sylw at y ffaith bod methiant addysgol a bod canlyniadau addysgol gwael i lawer. Yn ôl yr astudiaeth PISA, nid oedd pobl a oedd yn dioddef o anfantais addysgol yn grŵp ar hap; gellid eu nodi oherwydd eu hanfantais gymdeithasol ac economaidd. Yn wir, dywed adroddiad PISA y gall anghydraddoldeb o ran cyrhaeddiad addysgol o fewn y Deyrnas Unedig gyfrif am newidynnau economaidd-gymdeithasol o tua 75 y cant a mwy, gyda'r Deyrnas Unedig yn meddu ar yr ail lefel uchaf o amrywiad sy'n cael ei yrru gan amodau economaidd-gymdeithasol yn yr adroddiad OECD. Fodd bynnag, dywed adroddiad PISA wrthym hefyd bod y Deyrnas Unedig yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau rhyngwladol o ran ei wariant addysgol a chydraddoldeb dosbarthiad ei wariant. Felly, dywed adroddiad PISA ein bod yn methu ein disgyblion dan anfantais nid oherwydd maint y gwariant ar addysg, ond oherwydd ansawdd yr hyn a gawn am y gwariant hwnnw. Felly, nid yw'n annhegwch o safbwynt maint y gwariant, ond yn hytrach safon y ddarpariaeth.

Mae PISA hefyd yn nodi er bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn dylanwadu'n gryf ar ganlyniadau addysgol, nid yw canlyniadau gwael o'r fath yn anochel ac y gellir eu goresgyn drwy ddulliau priodol. Dyna ddylai fod yr her inni. Dengys ystadegau a gyhoeddwyd gan yr uned ystadegau ym mis Mawrth y llynedd bod arweinyddiaeth yn cael ei roi; yn wir, yn fy awdurdod lleol sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sydd â lefel gymharol uchel o anfantais addysgol, mae ysgolion yn darparu gwerth ychwanegol gwirioneddol i'w disgyblion, waeth beth yw eu hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd. Mae ysgolion cyfun fel Ysgol Gyfun Sandfields ac Ysgol Gyfun Cymer Afan yn fy etholaeth wedi dangos eu gallu i gael canlyniadau gwell na fyddai eu cymeriant economaidd-gymdeithasol yn awgrymu.

disadvantage.

Paul Davies mentioned the importance of greater school autonomy, which is referred to in the PISA report. However, there are two important caveats to school autonomy, contrary to what Paul suggested. One is that there must be strong accountability for performance, which I am glad to see the Minister has addressed in his statement. There must also be high standards in assessing and responding to need. School autonomy without these two caveats will not deliver the type of change that we need.

The Estyn report highlighted the weakness in the assessment process in Wales, which is a fundamental problem. I am pleased to see that the Minister highlighted in his statement that this is an area that needs work. The PISA report also highlighted areas where there is a concentration of socioeconomic disadvantage, which are likely to have poor educational outcomes. In addressing this, schools need to have a clear sense of faith in and ambition for their pupils. Those schools that lack faith in and ambition for their pupils are also likely to be the schools with poor educational outcomes.

In the light of that, we must ask ourselves whether or not the motion put forward by the Lib Dems on the pupil voucher system would address that. Disadvantaged areas need resources to provide the quality of education that we need, but we do not want entrepreneurial schools going into disadvantaged areas plucking individual pupils out to boost their economic interest. We need to target our resources at all the pupils in disadvantaged areas to improve the quality of outcome that can be achieved with a real sense of direction and purpose, which I know the Minister has.

Eleanor Burnham: We know that it is not just about the funding gap, but we have been highlighting this for some time. Since devolution, the funding gap has grown each year from £0 to £604 this year. Chris Keats of the NASUWT stated that 30 per cent of

Felly, gallwn wneud yn well er gwaethaf anfantais economaidd-gymdeithasol.

Soniodd Paul Davies am bwysigrwydd rhoi rwy o annibyniaeth i ysgolion, y cyfeirir ato yn yr adroddiad PISA. Fodd bynnag, mae dau amod pwysig i annibyniaeth ysgol, yn groes i'r hyn mae Paul yn ei awgrymu. Un yw y dylai fod atebolrwydd cryf am berfformiad, ac rwyf yn falch o weld fod y Gweinidog wedi mynd i'r afael â hynny yn ei ddatganiad. Rhaid hefyd meddu ar safonau uchel wrth asesu ac ymateb i angen. Ni fydd annibyniaeth ysgol heb y ddau amod hyn yn creu'r math o newid sydd ei angen arnom.

Mae adroddiad Estyn yn tynnu sylw at y gwendid yn y broses asesu yng Nghymru, sy'n broblem sylfaenol. Rwyf yn falch o weld bod y Gweinidog yn tynnu sylw yn ei ddatganiad at y ffaith bod hwn yn faes sydd angen gwaith arno. Roedd yr adroddiad PISA hefyd yn tynnu sylw hefyd at ardaloedd lle ceir anfantais economaidd-gymdeithasol dwys, sy'n debygol o arwain at ganlyniadau addysgol gwael. Wrth fynd i'r afael â hyn, mae angen i ysgolion gael ymdeimlad clir o ffydd yn eu disgyblion ac uchelgais ar eu cyfer. Mae'r ysgolion hynny sydd heb ffydd yn eu disgyblion nac uchelgais ar eu cyfer hefyd yn debygol o fod yr ysgolion sydd â chanlyniadau addysgol gwael.

Yng ngoleuni hynny, rhaid i ni ofyn i ni'n hunain p'un a fyddai'r cynnig a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol ar y system talebau disgyblion yn mynd i'r afael â hynny. Mae angen adnoddau ar ardaloedd difreintiedig i ddarparu ansawdd yr addysg sydd ei angen arnom, ond nid ydym am weld ysgolion entrepreneuriaid yn mynd i ardaloedd difreintiedig i ddenu disgyblion unigol i hybu eu budd economaidd. Mae angen i ni dargedu ein hadnoddau ar bob disgybl mewn ardaloedd difreintiedig i wella ansawdd y canlyniad y gellir ei gyflawni gyda gwir ymdeimlad o gyfeiriad a phwrpas, y gwn sydd gan y Gweinidog.

Eleanor Burnham: Gwyddom nad yw'n ymwneud yn unig â'r bwloch ariannu, ond buom yn tynnu sylw at hyn ers tro. Ers datganoli, mae'r bwloch cyllido wedi tyfu bob blwyddyn o £0 i £604 eleni. Dywedodd Chris Keats o'r NASUWT bod 30 y cant o ysgolion

schools face an uphill task unless the scandalous pupil funding gap between schools in England and Wales is closed. He goes on to say that despite this, the Government continues to fund excessive waste in the NHS but fails to close the funding gap, which has become larger over the last year. So, it is not just we who are asking these questions.

5.10 p.m.

Back in 2009, Estyn highlighted deep concern over the underperformance of pupils from deprived backgrounds, and the figures are quite stark; as Peter said, 40 per cent of pupils entering secondary school have a reading age lower than their chronological age. The various reports give us food for thought. Frankly, if I was a parent with children in some of these schools, I would be alarmed. We all see the best of schools, and we all see the worst of them. The issue that I raised yesterday was something simple that struck me when I went to a school a couple of weeks ago: teacher training seems flawed, and needs to be put right so that we can improve the literacy and numeracy of our young people.

The situation looks even more serious, and the Government's motivation to modernise less certain, when we consider the Westminster Government's plans to sell off search and rescue helicopters and reduce the services available from stations like RAF Chivenor and RAF Valley, which will mean that the rescue response along the Welsh coast could be even further compromised. I also have serious concerns about the premise upon which these proposals have been drawn up. The Parliamentary Under-Secretary of State for Transport, Mike Penning, who is responsible for shipping, claims in the closure consultation document that the UK has a coastline of more than 10,500 miles, but a written reply from the Department for Communities and Local Government in June stated that the UK's coastline was 26,035 miles long. This is a serious ambiguity, which calls into question the logistical assumptions that have been made.

6.00 p.m.

Some people claim that the coastguard centre is basically an operations centre that could be anywhere because the response could be organised by the local rescue people and the lifeboat, but having a coastguard operation close by engenders confidence and reassures people. The Government says that it is too expensive to equip all 18 centres, but in our increasingly congested seas, these savings could prove to be a very dangerous false economy. In two weeks' time, we will mark

Y pryder sylfaenol i bawb yw y bydd y toriadau hyn yn arwain at oedi o ran amseroedd galw allan ac y bydd bywydau yn cael eu colli o ganlyniad. Mae'r ffigurau yn dangos pa mor hanfodol yw'r gwasanaeth yng Nghymru—yn y pum mlynedd diwethaf, cymerodd gorsafoedd Aberdaugleddau a Chaerdybi ran mewn mwy na 8,500 o alwadau. Mae bywydau yn cael eu colli bob blwyddyn ar yr arfordir ac amcan unrhyw ailstrwythuro gwylwyr y glannau ddylai fod gwella perfformiad ac arbed bywydau, ac nid dim ond arbed arian. Wrth lunio cynlluniau i leihau costau o £120 miliwn dros 25 mlynedd, nid yw'n amlwg i mi mai'r gwelliant hwnnw yw prif ganolbwynt y Llywodraeth.

Mae'r sefyllfa yn edrych hyd yn oed yn fwy difrifol, a chymhelliant y Llywodraeth i foderneiddio yn llai sicr, pan ystyriwn gynlluniau Llywodraeth San Steffan i werthu hofrenyddion chwilio ac achub a lleihau'r gwasanaethau sydd ar gael o orsafoedd fel RAF Chivenor ac RAF Y Fali, a fydd yn golygu bod y gallai'r ymateb achub ar hyd arfordir Cymru cael ei beryglu hyd yn oed ymhellach. Mae gennyf hefyd bryderon difrifol am y cynsail y lluniwyd y cynigion hyn arnynt. Mae'r Is-ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, Mike Penning, sy'n gyfrifol am longau, yn honni yn y ddogfen ymgynghori ar gau bod gan y DU arfordir o fwy na 10,500 o filltiroedd, ond dywedodd ateb ysgrifenedig gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ym Mehefin bod arfordir y DU yn 26,035 milltir o hyd. Mae hwn yn amwysedd difrifol, sy'n bwrw amheuaeth ar y tybiaethau logistaidd a wnaed.

Mae rhai pobl yn honni mai canolfan weithrediadau yw canolfan gwylwyr y glannau yn y bôn a allai gael ei lleoli yn unrhyw le gan y gallai'r ymateb gael ei drefnu gan y bobl achub leol a'r bad achub, ond mae cael gwylwyr y glannau yn agos yn ennyn hyder ac yn rhoi sicrwydd i bobl. Dywed y Llywodraeth ei bod yn rhy ddrud i baratol offer ym mhob un o'r 18 canolfan, ond yn ein moroedd sydd â thagfeydd cynyddol, gallai'r arbedion hyn brofi i fod yn

the fifteenth anniversary of the Sea Empress disaster, an accident that cost between £120 million and £154 million to clean up. Local co-ordination and clean-up was vital in minimising the environmental damage. Coastguards do more than co-ordinating search and rescue. They are vital to the inspection regime on ships and responding to pollution from shipping energy installations.

Former and current coastguard officers, such as Angie Smith of Spittal and Dennis O'Connor of Llansteffan, have also come out in opposition. They are professionals who are desperately worried that vital local knowledge will be lost, particularly where Welsh place names and nicknames can make navigation difficult for people from outside the community. Having spoken to people such as Carl Evans, who is the rescue and co-ordination manager at Milford Haven, I recognise that there is an opportunity to update the UK's search and rescue infrastructure, to improve interoperable capacity and make better use of up-to-date telecommunication systems, electronic mapping and satellite data, as well as to look at the potential of long-range identification and tracking. However, technology cannot be a substitute for local knowledge.

The consultation does recognise the importance of local knowledge, but it puts the emphasis on the coastguard's 3,500-strong volunteer support. Under the Government's proposals, the system would be overly reliant on long-distance communications. These systems may crash, bringing down the whole emergency response across a massive geographical area. On one hand, the proposals say that communications make geographical coverage less important, but on the other they stress the imperative of retaining a full service at Dover, close to the busy English Channel, to ensure the safety of that crossing. That is another inconsistency.

The UK Government claims that response times will not be affected, but where is the evidence to support that claim? I wrote to the Secretary of State to request a copy of any impact assessment his department had carried

economi ffug beryglus iawn. Ymhen bythefnos, byddwn yn nodi pen-blwydd pymthegfed trychineb y Sea Empress, damwain a gostiodd rhwng £ 120 miliwn a £154 miliwn i'w glanhau. Roedd cydlynu a glanhau lleol yn hanfodol o ran lleihau'r difrod i'r amgylchedd. Mae gwylwyr y glannau yn gwneud mwy na chydlynu chwilio ac achub. Maent yn hanfodol i'r gyfundrefn arolygu ar longau ac ymateb i lygredd o osodiadau ynni llongau.

Mae swyddogion gwylwyr y glannau blaenorol a chyfredol, megis Angie Smith o Spittal a Dennis O'Connor o Lansteffan, hefyd wedi mynegi eu gwrthwynebiad. Maent yn weithwyr proffesiynol sy'n bryderus iawn y bydd gwybodaeth leol hanfodol yn cael ei cholli, yn enwedig lle gall enwau lleoedd Cymraeg a llysenwau wneud llywio yn anodd i bobl o'r tu allan i'r gymuned. Ar ôl siarad â phobl fel Carl Evans, sy'n rheolwr cydlynu chwilio ac achub yn Aberdaugleddau, rwyf yn cydnabod fod cyfle i ddiweddarau seilwaith chwilio ac achub y DU, i wella gallu rhyngweithredol a gwneud defnydd gwell o'r systemau telathrebu diweddaraf, mapio electronig a data lloeren, yn ogystal ag edrych ar y posibilrwydd o adnabod a thracio o bellter. Fodd bynnag, ni all technoleg ddisodli gwybodaeth leol.

Mae'r ymgynghoriad yn cydnabod pwysigrwydd gwybodaeth leol, ond mae'n rhoi pwyslais ar y gefnogaeth wirfoddol o 3,500 i wylwyr y glannau. Yn ôl cynigion y Llywodraeth, byddai'r system yn or-ddibynnol ar gyfathrebu o belter hir. Gall y systemau hyn farw'n ddirybudd, gan ddirymu'r holl ymateb brys ar draws ardal ddaeryddol enfawr. Ar un llaw, dywed y cynigion bod cyfathrebu yn gwneud cyrhaeddiad daeryddol yn llai pwysig, ond ar y llaw arall maent yn pwysleisio pwysigrwydd cadw gwasanaeth llawn yn Dover, yn agos at y Môr Udd prysur, er mwyn sicrhau diogelwch y croesi hwnnw. Dyna anghysondeb arall.

Mae Llywodraeth y DU yn honni na fydd amseroedd ymateb yn cael eu heffeithio, ond ble mae'r dystiolaeth i gefnogi'r hawliad hwnnw? Ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol i ofyn am gopi o unrhyw asesiad o'r

out as part of the process of deciding which centres to close. I wanted to know how, logistically, the UK could lose more than half of its physical coastguard infrastructure without diminishing search and rescue capability. All I received was an unsubstantiated assurance that response times will not be affected. I am afraid that this really is a matter of life and death. Until we get a better answer, it will look to many people as though the Tory-led Government is more interested in making another 226 people redundant and reducing costs than modernising the coastguard. Its plans to sell off search and rescue helicopters and rely more heavily on volunteers only reinforces that view.

I will wrap up at this point because I want to allow other Members to speak and, of course, give the Minister time to respond. I conclude by saying that I hope that all Members will publicise this issue in their communities and encourage as many people as possible to respond to the public consultation, particularly those with particular maritime expertise. Wales needs to send a clear message to the UK Government that our coastguard is integral to our coast. A strong voice is needed to state that, and I note, as I am sure Pembrokeshire people will, that neither of Pembrokeshire's MPs, Stephen Crabb or Simon Hart, were inclined to speak up for Wales in Westminster in the coastguard debate held today. That is a very sad state of affairs.

Eleanor Burnham: I do not have such in-depth knowledge as Joyce on this issue, but it is an issue that we are all taking up on behalf of our constituents. The north Wales coast is very important; the Holyhead issue is extremely important. It is obviously a complex issue. The consultation continues until 24 March and, like Joyce, I urge anyone—and I have already had a huge postbag on this issue—to take this matter up, because it is a very serious issue that we all need to address adequately on behalf of our constituents. Thank you, Joyce, for bringing this debate before us. I will be pursuing the matter.

effaith a wnaeth ei adran fel rhan o'r broses o benderfynu pa ganolfannau ddylai gau. Roeddwn i eisiau gwybod sut, yn logistaidd, y gallai'r DU golli mwy na hanner ei seilwaith gwylwyr y glannau ffisegol heb leihau'r gallu i chwilio ac achub. Y cyfan a gefais oedd sicrwydd di-sail na fydd yr amseroedd ymateb yn cael eu heffeithio. Mae arnaf ofn bod hyn wir yn fater o fywyd a marwolaeth. Hyd nes y cawn ateb gwell, bydd yn ymddangos i lawer o bobl fel pe bai'r Lywodraeth a arweinir gan y Toriaid â mwy o ddiddordeb mewn diswyddo 226 arall o bobl a lleihau costau na moderneiddio'r gwylwyr y glannau. Mae ei gynlluniau i werthu hofrenyddion chwilio ac achub a dibynnu mwy ar wirfoddolwyr ond yn atgyfnerthu farn honno.

Dof i ben yn awr oherwydd rwyf am ganiatáu i Aelodau eraill siarad ac, wrth gwrs, rhoi amser i'r Gweinidog i ymateb. Hoffwn gloi drwy ddweud fy mod yn gobeithio y bydd yr holl Aelodau yn gwyntyllu'r mater hwn yn eu cymunedau ac yn annog cymaint o bobl ag y bo modd i ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus, yn enwedig y rhai sydd ag arbenigedd morwrol penodol. Mae angen i Gymru anfon neges glir i Lywodraeth y DU fod gwylwyr ein glannau yn rhan annatod o'n harfordir. Mae angen llais cryf i ddweud hynny, ac rwyf yn nodi, fel rwyf yn siŵr y bydd pobl yn Sir Benfro wedi ei nodi, nad oedd yr un o Aelodau Seneddol Sir Benfro, Stephen Crabb na Simon Hart, yn teimlo fel siarad dros Gymru yn San Steffan yn y ddadl ar wylwyr y glannau a gynhaliwyd heddiw. Mae honno'n sefyllfa drist iawn.

Eleanor Burnham: Nid oes gennyf yr un wybodaeth drylwyr ag sydd gan Joyce ar y mater hwn, ond mae'n fater rydym i gyd yn ymgyrchu yn ei gylch ar ran ein hetholwyr. Mae arfordir y gogledd yn bwysig iawn; mae Caergybi yn hynod o bwysig. Mae'n amlwg yn fater cymhleth. Mae'r ymgynghoriad yn parhau tan 24 Mawrth ac, fel Joyce, rwyf yn annog unrhyw un—ac rwyf eisoes wedi cael llw o lythyrau ar y mater hwn—i godi'r mater hwn, gan ei fod yn fater difrifol iawn y mae'n rhaid i ni gyd fynd i'r afael ag ef yn ddigonol ar ran ein hetholwyr. Diolch i chi, Joyce, am ddod â'r dadl ger ein bron. Byddaf yn mynd ar drywydd y mater.

Edwina Hart: A well-resourced coastguard is integral to the safety of mariners and coastal users. As the Member for Gower, which is a mecca for tourists, with its beautiful coastline, I am well aware of the key role played by the coastguard service, as are my constituents. It is an efficient and well-managed service, and the safety of the public and mariners should not be compromised by these ill-thought out proposals; therefore, I urge everyone in the Chamber to make the appropriate representations and encourage others to do so. This is an issue that goes across the nation. We have a long coastline that needs safeguarding. The people who use it also need to be safeguarded.

Nerys Evans: Thank you, Joyce, for bringing the debate to the Chamber this afternoon. I just wish to highlight a fact about the UK Minister with responsibility for shipping, who is pushing through these proposals. In 2005, when there were plans to centralise the fire service in his constituency of Hemel Hempstead, he lobbied and campaigned against that due to concerns regarding centralisation and the lack of local knowledge. That is nothing but hypocrisy from the Minister. Those issues of retaining local knowledge are as valid and as relevant now as they were in 2005. Thank you, Joyce, for bringing the debate this afternoon. I urge people to get involved and to reply to the consultation.

Paul Davies: I am grateful to Joyce for allowing me a minute of her time in this short debate. Naturally, as the Assembly Member for Preseli Pembrokeshire, I am very concerned about these proposals under which, potentially, Milford Haven could lose 23 highly-skilled jobs. I am given to understand that the plans do not actually affect the provision of front-line rescue services through volunteer coastguards or search and rescue partners, such as the RNLI. Indeed, some of the plans, as I understand them, will include more investment in front-line services, with plans to improve the leadership, management and support that is given to volunteer coastguard rescue officers. Even though these proposals could lead to a more integrated national service, I am told

Edwina Hart: Mae gwylwyr y glannau sydd ag adnoddau da yn hanfodol i ddiogelwch morwyr a defnyddwyr yr arfordir. Fel yr Aelod dros y Gŵyr, sydd yn fecca i dwristiaid, gyda phrydferthwch ei arfordir, gwn yn dda am y rôl allweddol a chwaraeir gan y gwasanaeth gwylwyr y glannau, fel gŵyr fy etholwyr. Mae'n wasanaeth effeithlon a reolir yn dda, ac ni ddylai diogelwch y cyhoedd a morwyr gael ei beryglu gan y cynigion hyn carbwl hyn, ac felly rwyf yn annog pawb yn y Siambr i wneud y sylwadau priodol ac annog eraill i wneud hynny. Mae hwn yn fater sy'n berthnasol i'r wlad i gyd. Mae gennym arfordir hir sydd angen ei ddiogelu. Mae'r bobl sy'n ei ddefnyddio hefyd angen eu diogelu.

Nerys Evans: Diolch, Joyce, am ddod â'r ddatl hon i'r Siambr y prynhawn yma. Rwyf am dynnu sylw at ffaith am Weinidog y DU sydd â chyfrifoldeb dros longau, sy'n gwthio'r cynigion hyn drwodd. Yn 2005, pan oedd cynlluniau i ganoli'r gwasanaeth tân yn ei etholaeth, Hemel Hempstead, lloïodd ac ymgyrchodd yn eu herbyn oherwydd pryderon ynghylch canoli a diffyg gwybodaeth leol. Dim ond rhagrith yw hynny gan y Gweinidog. Mae'r materion hynny o ran cadw gwybodaeth leol mor ddilys ac mor berthnasol yn awr ag oeddent yn 2005. Diolch, Joyce, am gyflwyno'r ddatl y prynhawn yma. Rwy'n annog pobl i gymryd rhan ac i ymateb i'r ymgyngoriad.

Paul Davies: Rwyf yn ddiolchgar i Joyce am ganiatáu munud o'i hamser ini yn y ddatl fer hon. Yn naturiol, fel yr Aelod Cynulliad dros Breseli Sir Benfro, rwyf yn bryderus iawn am y cynigion hyn a allai, o bosibl, golli 23 o swyddi tra medrus yn Aberdaugleddau. Rwyf wedi cael ar ddeall nad yw'r cynlluniau yn effeithio'n wirioneddol ar ddarpariaeth gwasanaethau achub rheng flaen drwy wylwyr y glannau gwirfoddol neu bartneriaid chwilio ac achub, megis y Bad Achub. Yn wir, bydd rhai o'r cynlluniau, fel rwyf yn eu deall, yn cynnwys mwy o fuddsoddi mewn gwasanaethau rheng flaen, gyda chynlluniau i wella arweinyddiaeth, rheolaeth a chefnogaeth a roddir i swyddogion achub gwylwyr y glannau gwirfoddol. Er y gallai'r cynigion hyn arwain at wasanaeth

that some of this new technology, which would support this new service, may not yet be available, and that causes great concern to me. I am also concerned that the closure of centres, such as the one at Milford Haven, will result, as Joyce said, in a lack of local knowledge to deal with some of the incidents in Pembrokeshire and west Wales. Given that local knowledge is essential in rescue operations, I am opposed to the closure of the Milford Haven centre, and I will be giving my full backing to keeping the Milford Haven station open in order to protect these highly-skilled jobs and to protect the local knowledge. I will be feeding into this consultation process in due course, and I would encourage everyone who is watching and listening to this debate to also feed into that consultation process.

Bethan Jenkins: Thank you, Joyce, for bringing this crucial debate to the National Assembly for Wales today. I wish to echo the concerns that colleagues, such as Nerys Evans, have raised. However, I find it difficult to take the crocodile tears of the Lib Dems and the Tories here today when their colleagues in Westminster could be making representations, but are not making those representations loud and clear.

I have had many concerns about the downgrading of the Swansea coastguard service. I have joined the Facebook campaign arranged by Lee Haigh, who works in that particular service. The service will be putting questions to the Transport Select Committee, which will be meeting to discuss this issue. The campaigners want to know, for example, how information will be disseminated on changes to the public; how many of the current staff will move to the maritime operations centre; and if there is a model for the staffing levels, how this is being tested. Maritime rescue control centres, such as Swansea, in my area, provide a 24/7 point of contact for the public who require immediate assistance when they are in grave and imminent danger on the coastline or at sea around the UK. I have also been contacted on Facebook by Chris Daw, who is part of a dog search rescue team. He said that the work that they currently carry out is difficult, and the changes will make it even more difficult.

enedlaethol mwy integredig, dywedir wrthyf efallai na fydd rhywfaint o'r dechnoleg newydd hon, a fyddai'n cefnogi'r gwasanaeth newydd hwn, ar gael eto, sy'n achosi pryder mawr i mi. Rwyf hefyd yn pryderu y bydd cau canolfannau fel yr un yn Aberdaugleddau yn arwain, fel y dywedodd Joyce, at ddiffyg gwybodaeth leol i ymdrin â rhai o'r digwyddiadau yn Sir Benfro a'r gorllewin. O gofio bod gwybodaeth leol yn hanfodol mewn gweithrediadau achub, rwyf yn gwrthwynebu cau canolfan Aberdaugleddau, a byddaf yn rhoi fy nghefnogaeth lawn i gadw gorsaf Aberdaugleddau ar agor er mwyn diogelu'r swyddi tra medrus hyn ac i ddiogelu'r wybodaeth leol. Byddaf yn bwydo i mewn i'r broses ymgynghori maes o law, a byddwn yn annog pawb sy'n gwyllo a gwranddo ar y ddadl hon hefyd i fwydo i mewn i'r broses ymgynghori honno.

Bethan Jenkins: Diolch, Joyce, am ddod â'r ddadl bwysig hon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru heddiw. Hoffwn adleisio'r pryderon a godwyd gan gyd-Aelodau fel Nerys Evans. Fodd bynnag, rwyf yn ei chael yn anodd i dderbyn dagrau ffug y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Torïaid sydd yma heddiw pan allai eu cydweithwyr yn San Steffan leisio eu barn, ond nid ydynt yn gwneud hynny yn groch a chllir.

Rwyf wedi clywed am lawer o bryderon am israddio gwasanaeth gwylwyr y glannau Abertawe. Rwyf wedi ymuno â'r ymgyrch Facebook a drefnwyd gan Lee Haigh, sy'n gweithio yn y gwasanaeth penodol hwnnw. Bydd y gwasanaeth yn cyflwyno cwestiynau i'r Pwyllgor Dethol ar Drafndiaeth, a fydd yn cyfarfod i drafod y mater hwn. Mae'r ymgyrchwyr eisiau gwybod, er enghraifft, sut y bydd gwybodaeth yn cael ei roi i'r cyhoedd am newidiadau; faint o'r staff presennol fydd yn symud i'r ganolfan gweithrediadau morwrol, ac os oes model ar gyfer y lefelau staffio, sut mae hyn yn cael ei brofi. Mae canolfannau rheoli achub morol, megis yr un yn Abertawe yn fy ardal i, yn darparu pwynt cyswllt 24/7 i'r cyhoedd sydd angen cymorth ar unwaith pan fyddant mewn perygl difrifol ar yr arfordir neu ar y môr o amgylch y DU. Cysylltwyd â mi hefyd ar Facebook gan Chris Daw, sy'n rhan o dîm achub chwilio efo ci. Dywedodd fod y gwaith maent yn ei wneud ar hyn o bryd yn anodd, ac y bydd y

newidiadau yn ei gwneud yn anos fyth.

I thank Joyce for taking this debate forward today, but I would also urge the people who are members of parties in Government in the UK Parliament to press their colleagues to make their voices much clearer than at present.

6.10 p.m.

Ann Jones: I am pleased to be able to contribute to this debate. Joyce has chosen to debate this timely issue and I will stand up for the coastguards with her. According to the Holyhead maritime rescue co-ordination centre, which is the one that affects me and my constituents, 4,286 incidents were reported between 2006 and 2010. That is a significant number, whatever economic circumstances we are in. Those 4,286 incidents affected people who have been saved. You will all know that I have worked in the emergency services and I have seen, first hand, the difference between a quick response and a slower response. It does not matter whether you are on land or at sea, a response has to be fast. That is the only way that you can save lives. I will work with the coastguards. I think that we should be looking at the RNLI. If the coastguard is to be disbanded as has been suggested, the RNLI's volunteers will have more and more placed on their shoulders. I believe that this cut, if it does come, will have an impact on our tourist industry and we will see people losing their lives unnecessarily at sea.

The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant): I thank Joyce Watson for bringing this important debate to the Chamber today. Wales has around 750 miles of coastline, which makes a significant contribution to the Welsh economy. Our coastline attracts thousands of tourists to our blue flag beaches and our ports have a major role to play in the UK economy, handling an array of cargo from coal to timber to gas; therefore, ensuring that the coast around Wales remains safe is essential to ensure that our waters are safe and that individuals and businesses are not compromised. The

Diolch i Joyce am gyflwyno'r ddadl hon heddiw, ond byddwn hefyd yn annog y bobl sy'n aelodau o bleidiau mewn Llywodraeth yn Senedd y DU i bwysu ar eu cydweithwyr i leisio eu barn yn fwy croch nag y maent ar y funud.

Ann Jones: Rwy'n falch o allu cyfrannu at y ddadl hon. Mae Joyce wedi dewis trafod y mater amserol hwn a byddaf yn sefyll yn gadarn dros wylwyr y glannau gyda hi. Yn ôl canolfan gyddyntu achub morol Caergybi, sef yr un sy'n effeithio arnaf fi a'm hetholwyr, cafodd 4,286 o ddigwyddiadau eu hadrodd rhwng 2006 a 2010. Mae hynny'n nifer sylweddol, beth bynnag yw'r amgylchiadau economaidd. Mae'r 4,286 o ddigwyddiadau hynny'n wedi effeithio ar y bobl sydd wedi eu hachub. Byddwch i gyd yn ymwybodol fy mod wedi gweithio yn y gwasanaethau brys ac rwyf wedi gweld, gyda'm llygaid fy hun, y gwahaniaeth rhwng ymateb cyflym ac ymateb arafach. Nid oes gwahaniaeth os ydych ar dir neu ar fôr, rhaid i'r ymateb fod yn gyflym. Dyna'r unig ffordd y gallwch arbed bywydau. Byddaf yn gweithio gyda gwylwyr y glannau. Credaf y dylem fod yn edrych ar Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub. Os bydd gwasanaeth gwylwyr y glannau yn cael ei ddiddymu fel yr awgrymwyd, bydd mwy a mwy o bwysau'n cael ei roi ar ysgwyddau gwirfoddolwyr yr RNLI. Credaf y bydd y toriad hwn, os yw'n dod, yn cael effaith ar ein diwydiant twristiaeth a byddwn yn gweld pobl yn colli eu bywydau yn ddiangen ar y môr.

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant): Diolch i Joyce Watson am ddod â'r ddadl bwysig hon i'r Siambr heddiw. Mae arfordir Cymru tua 750 milltir o hyd, ac mae'n gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru. Mae ein harfordir yn denu miloedd o ymwelwyr i'n traethau baner las ac mae gan ein porthladdoedd rôl bwysig i'w chwarae yn economi'r DU, wrth drin amrywiaeth o gargo o lo i bren i nwy; felly, mae sicrhau bod yr arfordir o gwmpas Cymru yn parhau'n ddiogel yn hanfodol i sicrhau bod ein dyfroedd yn ddiogel ac nad yw unigolion na

Maritime and Coastguard Agency offers a vital service to the Welsh economy by ensuring that it is able to respond to incidents in a timely and effective manner, which Ann Jones alluded to. The coastguard not only responds to emergency incidents, working to prevent the loss of life on the coast and at sea, it also has a significant role in preventing incidents, in inspecting and surveying ships to ensure that they meet UK and international safety standards and in responding to pollution from shipping and offshore installations.

The proposals contained within the current consultation document on the future of coastguard provision are extremely worrying and uncertain for Wales. There are a number of different issues that need to be considered in our response to this consultation, not just those specific questions set out in the consultation document. The First Minister and Welsh Assembly Government officials from across departments are working on behalf of the Welsh Assembly Government to formulate a response to the UK consultation on the modernisation of the coastguard service. The consultation document encourages responses from all interested parties, and I would urge Members to respond directly to the consultation with their concerns to ensure that we offer the strongest voice possible for Wales.

I think that we all recognise the need to modernise the coastguard service, to keep up with changing demands and technologies. We understand that this service needs to be much more resilient and more capable of managing incidents. We also understand that the nature of the service and the jobs that it provides has evolved. The difficult economic climate continues and all Government organisations have been asked to look at the ways in which they do business, make improvements and find efficiency savings. These are difficult tasks regardless of the organisation. Like us, the MCA has been asked to consider how it can make the best possible arrangements for delivery within the context of a reduced budget.

busnesau yn cael eu peryglu. Mae Asiantaeth Forol a Gwylwyr y Glannau yn cynnig gwasanaeth hanfodol i economi Cymru trwy sicrhau ei bod yn gallu ymateb i ddigwyddiadau mewn modd amserol ac effeithiol, fel y cyfeiriodd Ann Jones. Mae gwylwyr y glannau nid yn unig yn ymateb i ddigwyddiadau brys, gan weithio i atal colli bywyd ar yr arfordir ac ar y môr, ond mae ganddynt hefyd rôl arwyddocaol wrth atal digwyddiadau, wrth archwilio ac arolygu llongau er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni safonau diogelwch y DU a'r rhai rhyngwladol ac wrth ymateb i lygredd oddi wrth osodiadau llongau ar y môr.

Mae'r cynigion a gynhwysir yn y ddogfen ymgynghori gyfredol ar ddyfodol y ddarpariaeth gwylwyr y glannau yn hynod bryderus ac ansicr ar gyfer Cymru. Mae angen ystyried nifer o wahanol faterion yn ein hymateb i'r ymgynghoriad hwn, nid y cwestiynau penodol hynny a nodir yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r Prif Weinidog a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar draws adrannau yn gweithio ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru i lunio ymateb i ymgynghoriad y DU ar foderneiddio gwasanaeth gwylwyr y glannau. Mae'r ddogfen ymgynghori yn annog ymatebion gan bawb sydd â diddordeb, a byddwn yn annog Aelodau i ymateb yn uniongyrchol i'r ymgynghoriad â'u pryderon i sicrhau ein bod yn cynnig y llais cryfaf posibl i Gymru.

Credaf ein bod i gyd yn cydnabod yr angen i foderneiddio gwasanaeth gwylwyr y glannau, i gadw i fyny â gofynion a thechnolegau sy'n newid. Deallwn fod yn rhaid i'r gwasanaeth fod yn llawer mwy gwydn ac yn fwy abl i reoli digwyddiadau. Rydym hefyd yn deall bod natur y gwasanaeth a'r swyddi y mae'n eu darparu wedi esblygu. Mae'r hinsawdd economaidd anodd yn parhau ac mae holl sefydliadau'r Llywodraeth wedi cael cais i edrych ar y ffyrdd y maent yn gwneud busnes, yn gwneud gwelliannau ac yn dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd. Mae'r rhain yn dasgau anodd waeth be fo'r sefydliad. Fel ninnau, mae Asiantaeth Forol a Gwylwyr y Glannau wedi cael cais i ystyried sut y gall wneud y trefniadau gorau posibl ar gyfer gweithredu yng nghyd-destun cyllideb lai.

The consultation claims that it is committed to deliver search and rescue duties of the highest standard and that maritime safety is always a priority. I would question, however, how it can retain the same high level of service at the expense of such a significant reduction in coastguard centres, putting people and the environment at risk. Echoing concerns made previously in this Chamber, we question whether the consultation is driven by cost. A reduction in budget should not mean a reduction in service. The Welsh Assembly Government will back a positive change—a change that would benefit the coastguard service, its staff and the people that it serves. However, the current proposals have the potential to leave our coastline exposed. We cannot support changes to the vital service that the coastguard provides that are detrimental for those who use Welsh waters for leisure, business or both. That message will be clear in our response to the UK Government.

While I would not dispute the analysis by the MCA of the typical peak demand, the suggestion that there should be no 24-hour station in Wales is of grave concern. The proposals suggest that Swansea becomes a day station, with out-of-hours calls transferred to Southampton. Staff receiving these calls will have no local geographical knowledge of Wales, and may have difficulties, as Joyce alluded to, with place names along the coast. This could possibly lead to confusing telephone conversations, which Members have experienced in other work beyond the Assembly, and delays in the deployment of resources to an incident could be devastating. It is obvious that this would reduce the response capability to incidents along the Welsh coast, particularly at night.

The consultation paper suggests that there should be five sub-centres, which would be at Falmouth, Humber and Swansea. Another two are proposed at either Belfast or Liverpool, and Shetland or Stornoway. It is not clear where support would come from to

Mae'r ymgynghoriad yn honni ei fod wedi'i ymrwymo i ddarparu dyletswyddau chwilio ac achub o'r safon uchaf a bod diogelwch ar y môr bob amser yn flaenoriaeth. Byddwn yn amau, fodd bynnag, sut y gall gadw'r un lefel uchel o wasanaeth ar draul y fath ostyngiad sylweddol o ran canolfannau gwylwyr y glannau, gan roi pobl a'r amgylchedd mewn perygl. Gan adleisio pryderon a wnaed yn flaenorol yn y Siambr hon, rydym yn cwestiynu a yw'r ymgynghoriad yn cael ei yrru gan y gost. Ni ddylai gostyngiad yn y gyllideb olygu gostyngiad yn y gwasanaeth. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi newid cadarnhaol—newid a fyddai o fudd i wasanaeth gwylwyr y glannau, ei staff a'r bobl a wasanaethir ganddo. Fodd bynnag, mae gan y cynigion presennol y potensial i wneud ein harfordir yn ddi-ymddiffyn. Ni allwn gefnogi newidiadau i'r gwasanaeth hanfodol a ddarperir gan wylwyr y glannau a fydd yn niweidiol i'r rhai sy'n defnyddio dyfroedd Cymru ar gyfer hamdden, busnes neu'r ddau. Bydd y neges honno'n glir yn ein hymateb i Lywodraeth y DU.

Er na fyddwn yn amau dadansoddiad Asiantaeth Forol a Gwylwyr y Glannau o'r galw brig nodweddiadol, mae'r awgrym na ddylid cael unrhyw orsaf 24 awr yng Nghymru yn destun pryder mawr. Mae'r cynigion yn awgrymu y dylai Abertawe ddod yn orsaf dydd, gyda galwadau y tu allan i oriau arferol i gael eu trosglwyddo i Southampton. Ni fydd gan y staff a fydd yn derbyn y galwadau hynny unrhyw wybodaeth am ddaearyddiaeth leol Cymru, ac efallai y byddant yn cael anawsterau, fel y cyfeiriodd Joyce, gydag enwau lleoedd ar hyd yr arfordir. Gallai hyn o bosibl arwain at sgysiau ffôn dryslyd—ac mae Aelodau wedi profi hyn mewn gwaith arall y tu hwnt i'r Cynulliad—a gallai oedi wrth drefnu adnoddau ar gyfer digwyddiad gael effaith ddinistriol. Mae'n amlwg y byddai hyn yn lleihau'r gallu i ymateb i ddigwyddiadau ar hyd arfordir Cymru, yn enwedig yn ystod y nos.

Mae'r papur ymgynghori yn awgrymu y dylid cael pum is-ganolfan, a fyddai wedi'u lleoli yn Falmouth, Humber ac Abertawe. Cynigir dau arall naill ai yn Belfast neu yn Lerpwl, ac Ynysoedd Shetland neu Stornoway. Nid yw'n glir o le y deuai'r

cover the Welsh coast in the north, which Eleanor mentioned in her contribution. This is a huge area to cover with busy ports such as Liverpool and Milford Haven. There have been recent reports in the media that indicate that a decision has already been made—although I am not aware that that is the case—despite this consultation and that there are plans to shut Liverpool station and save Belfast station. If the Liverpool station closes, north Wales will be at an even greater disadvantage. When we consider the number of sailings from Holyhead, it is fair to say that north Wales will be a vulnerable area under either proposal. Milford Haven is Britain's third largest port, and Britain's major oil port as well as now being a major port for liquefied natural gas. It is vital to Britain's energy supplies, as we know. Likewise, the Irish sea is a major shipping route. We would be reluctant to see any reduction in capacity that would put that role at risk.

Angela Burns: The other issue is that people think of coastguards as people who come out to rescue you when you are in trouble, but any practical and competent sailor, when leaving their port or marina—I sail most weekends in the summer—will always notify the coastguard that they have left their home stretch, and will notify them on the way back in. The disappearance of that kind of cover from around the shores of the United Kingdom and Wales will be detrimental for all leisure craft that go out, because coastguards have an important function to play in keeping tabs on crafts that seldom have the ability to use distress beacons if they get into trouble.

Carl Sargeant: I alluded not only to what people think are the general duties of the coastguard, but also their broad wide-ranging duty to keep business and leisure crafts safe as they travel.

There are issues to consider with the proposal to establish two superstations at Aberdeen, Portsmouth or Southampton. This will place too great a reliance on these stations in terms

gefnogaeth i ymdrin ag arfordir gogledd Cymru, fel y crybwyllodd Eleanor yn ei chyfraniad. Mae hon yn ardal fawr i'w gwasanaethu, gyda phorthladdoedd prysur megis Lerpwl ac Aberdaugleddau. Cafwyd adroddiadau diweddar yn y cyfryngau a nododd bod penderfyniad eisoes wedi'i wneud—er nid wyf yn ymwybodol bod hynny'n wir—er gwaethaf yr ymgynghoriad hwn a bod cynlluniau i gau gorsaf Lerpwl ac i arbed gorsaf Belfast. Os bydd yr orsaf yn cau Lerpwl, bydd gogledd Cymru o dan fwy o anfantais. Pan fyddwn yn ystyried y nifer o fordeithiau o Gaerdybi, mae'n deg dweud y bydd gogledd Cymru yn ardal fregus o dan naill gynnig neu'r llall. Aberdaugleddau yw'r trydydd porthladd mwyaf ym Mhrydain, a phorthladd olew pennaf Prydain yn ogystal â bod yn awr yn borthladd pwysig ar gyfer nwy naturiol hylifol. Mae'n hanfodol i gyflenwadau ynni Prydain, fel y gwyddom. Yn yr un modd, y mae môr Iwerddon yn llwybr llongau o bwys. Byddem yn amharod i weld unrhyw leihad o ran gallu a fyddai'n rhoi'r rôl honno mewn perygl.

Angela Burns: Y mater arall yw bod pobl yn meddwl am wylwyr y glannau fel pobl sy'n dod allan i'ch achub pan fyddwch mewn trafferth, ond bydd unrhyw forwr ymarferol a chymwys, wrth adael eu porthladd neu'r marina—rwy'n hwylio'r rhan fwyaf o benwythnosau yn ystod yr haf—bob amser yn rhoi gwybod i wylwyr y glannau eu bod wedi gadael eu man arferol, ac yn rhoi gwybod iddynt ar y ffordd yn ôl i mewn. Bydd diflaniad y math hwnnw o wasanaeth o lannau'r Deyrnas Unedig a Chymru yn niweidiol i'r holl gychod hamdden sy'n mynd allan ar y môr, oherwydd mae gan wylwyr y glannau swyddogaeth bwysig i'w chyflawni wrth gadw llygad ar gychod na allant yn aml ddefnyddio goleuadau gofid os ydynt yn mynd i drafferth.

Carl Sargeant: Cyfeiriais nid yn unig at yr hyn y mae pobl yn meddwl yw dyletswyddau cyffredinol gwylwyr y glannau, ond hefyd at eu dyletswydd eang i gadw cychod busnes a hamdden yn ddiogel wrth iddynt deithio.

Mae materion i'w hystyried o ran y cynnig i sefydlu dau uwch orsaf yn Aberdeen, Portsmouth neu Southampton. Byddai hynny'n rhoi gormod o ddibyniaeth ar y

of business continuity and there is the potential that services could be lost should these stations encounter operational difficulties, which would be of concern to all of us. It would be more resilient for there to be a larger number of smaller stations sharing the workload and allowing more robust back-up arrangements to be put in place. There should be some presence in Wales on a 24-hour basis. With the proposal to have no round-the-clock presence in Wales, all out-of-hours calls will be transferred out of Wales, which, again, is of concern. To reiterate the First Minister's comments during his questions, I do not think it is excessive to have three coastguard stations in Wales.

A number of concerns have been raised during the debate, and I urge all Members to respond to the consultation. We will ensure that we have a sound understanding of the impact that these proposed changes will have on Wales, and will ensure that the interests and needs of Wales are not forgotten. Our seas are becoming more congested, our ships are getting larger, our coastline is getting busier and weather conditions are becoming more extreme. It is clear that, under this proposal, Wales will be at a significant disadvantage, making our coastline vulnerable and putting people and the environment in unnecessary danger. I thank Joyce for bringing this debate to the floor of the Assembly, and I am sure that your comments and the consultation exercise will duly be noted by the UK Government.

The Deputy Presiding Officer: That brings today's proceedings to a close.

gorsafodd hyn o ran parhad busnes ac mae posibilrwydd y gallai gwasanaethau gael eu colli pe byddai'r gorsafodd hyn yn cael anawsterau gweithredol, a fyddai'n destun pryder i bob un ohonom. Byddai'n wynach peth i nifer fwy o orsafodd llai rannu'r llwyth gwaith a chaniatáu i drefniadau wrth gefn cadarnach i gael eu rhoi mewn lle. Dylai fod presenoldeb 24 awr yng Nghymru. Gyda'r cynnig i beidio cael unrhyw bresenoldeb ddydd a nos yng Nghymru, bydd pob galwad y tu allan i oriau arferol yn cael ei drosglwyddo y tu allan i Gymru, sydd, unwaith eto, yn destun pryder. I ategu sylwadau'r Prif Weinidog yn ystod ei gwestiynau, nid wyf yn credu ei fod yn ormodol i gael tair gorsaf gwylwyr y glannau yng Nghymru.

Codwyd nifer o bryderon yn ystod y ddadl hon, ac anogaf bob Aelod i ymateb i'r ymgynghoriad. Byddwn yn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gadarn o'r effaith y bydd y newidiadau arfaethedig yn eu cael ar Gymru, a sicrhau na fydd buddiannau nac anghenion Cymru yn cael eu hanghofio. Mae ein moroedd yn fwy tagedig, mae ein llongau yn mynd yn fwy, mae ein harfordir yn mynd yn brysurach ac amodau tywydd yn dod yn fwy eithafol. Mae'n amlwg, o dan y cynnig hwn, bydd Cymru o dan anfantais sylweddol, gan wneud ein harfordir yn fregus a rhoi pobl a'r amgylchedd mewn perygl diangen. Diolchaf Joyce am ddod â'r ddadl i lawr y Cynulliad, ac, fel sy'n weddus, rwy'n siŵr y bydd eich sylwadau a'r ymarfer ymgynghori yn cael ei nodi gan Lywodraeth y DU.

Y Dirprwy Lywydd: Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.20 p.m.
The meeting ended at 6.20 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
Bates, Mick (Democrat Rhyddfrydol Annibynnol – Independent Liberal Democrat)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)

Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)
 Davies, Alun (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 German, Veronica (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)